

YR EGLWYS
YNG NGHYMRU



THE CHURCH
IN WALES



GWASANAETHAU ANGLADD

*Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn
yr Eglwys yng Nghymru*

2020

© Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT.

www.churchinwales.org.uk

ISBN: 978-1-78461-958-9

Cyhoeddwyd gan:

Y Lolfa.

Aberystwyth,

Cymru.

SY24 5HE

Cynllun y clawr, gosodiad a chysodiad mewn Plantin
gan Ritchie Craven, Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru.

Dylid diolch i aelodau'r Comisiwn Litwrgaidd Ymgynghorol Sefydlog, a fu dros nifer o flynyddoedd yn gweithio i ysgrifennu a chrynhof'r litwrgïau. Estynnir diolch arbennig i Dr Gwendraeth Morgan am ei gwaith manwl o gyfieithu a darllen proflenni.

GWASANAETHAU ANGLADD

Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn
yr Eglwys yng Nghymru

Cynnwys

	Rhagair	tudalen	i
---	---------------	---------	---

Rhan un

	Y Gwasanaeth Angladd	tudalen	1
---	----------------------------	---------	---

	Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid	tudalen	17
---	---	---------	----


	Claddu Llŵch	tudalen	46
---	--------------------	---------	----

	Y Gwasanaeth Angladd Y Llyfr Gweddi Gyffredin Cyfrol II (1984)	tudalen	55
---	---	---------	----


Atodiad

	Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid	tudalen	86
---	---	---------	----

Rhan dau.....

	Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol a simplau o wasanaethau	tudalen	91
--	--	---------	----



Rhan tri.....

	Litwrgïau ychwanegol ar gyfer amgylchiadau arbennig, wedi eu cymeradwyo gan Fainc yr Esgobion (heb fod yn rhan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin)	tudalen	187
---	--	---------	-----

	Hawlfraint a Chydnabyddiaethau	tudalen	201
---	--------------------------------------	---------	-----




**Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol
a samplau o wasanaethau**


	I.	Nodiadau ar Y Gwasanaeth Angladd tudalen	92
	II.	Gwasanaeth yn y Cartref Cyn yr Angladd ... tudalen	94
	III.	Derbyn yr Arch i'r Eglwys Cyn yr Angladd tudalen	96
	IV.	Gwylfa Angladd tudalen	100
		Darlleniad neu Ddarlleniadau Addas	
		<i>Sicrwydd a Diddanwch</i>	
		<i>Ffyddlondeb Duw</i> tudalen	102
		<i>Gobaith am y Nefoedd</i> tudalen	103
		<i>Y Pasg</i>	
		<i>Yr Adfent</i> tudalen	104
		<i>Marwolaeth Annisgwyl</i>	
		<i>Plentyn</i> tudalen	105
	V.	Ar Fore'r Angladd tudalen	106
	VI.	Rhagarweiniad Bugeiliol i'r Gwasanaeth Angladd tudalen	108
	VII.	Amlinelliad o'r Drefn ar gyfer Angladdau ... tudalen	109
	VIII.	Testunau Atodol tudalen	110
		<i>Rhai testunau y gall y gweinidog eu defnyddio</i>	
		<i>Derbyn yr Arch</i> tudalen	111
		<i>Taenellu Dŵr a Fendithiwyd ar yr Arch</i>	
		<i>Gosod Gorchudd Galar dros yr Arch</i>	
		<i>Gosod Beibl ar yr Arch</i> tudalen	112
		<i>Gosod Croes ar yr Arch</i>	
		<i>Bendithio Bedd</i> tudalen	113

▶	IX.	Angladd Plentyn	tudalen	114
		Gweddïau	tudalen	117
		<i>Dros y Rhieni</i>	tudalen	120
		<i>Dros y Plant yn y Teulu</i>		
		<i>Mewn achos o Enedigaeth Farw</i>		
		<i>neu Gamesgoriad</i>	tudalen	121
		<i>Gweddi Ffarwelio</i>		
		<i>Gweddïau at ddefnydd personol y rhieni ...</i>	tudalen	122
		Cyflwyno a Ffarwelio		
		<i>Plentyn Hŷn</i>		
		<i>Plentyn Ieuanc</i>	tudalen	125
		<i>Baban</i>		
		<i>Genedigaeth Farw</i>		
		<i>Camesgoriad</i>	tudalen	126
▶	X.	Gwasanaeth yn y Cartref ar ôl yr Angladd ..	tudalen	129
▶	XI.	Gwasanaeth Coffa	tudalen	131
▶	XII.	Gweddïau mewn Gwasanaethau Angladd a Choffa		
		Gweddïau wrth Ddod Ynghyd	tudalen	141
		Gweddïau o Edifeirwch - <i>Kyriau</i>	tudalen	142
		Gollyngdod		
		Colectau ar gyfer Gwasanaethau Angladd		
		a Choffa	tudalen	144
		Diolch am Fywyd yr Ymadawedig	tudalen	145
		Gweddïau dros y rhai sy'n Galaru	tudalen	148
		Wedi Bywyd Byr		
		Wedi Marwolaeth Sydyn	tudalen	152
		Wedi Marwolaeth Dreisgar		
		Pan Nad Oes Corff yn Bresennol		
		Wedi Hunanladdiad	tudalen	153
		Wedi Cystudd Hir		
		Mewn Gofid, Euogrwydd ac Edifeirwch ..	tudalen	154
		Gweddïau am Barodrwydd i Fyw		
		yng Ngoleuni Tragwyddoldeb	tudalen	155
		Litaniau a Gweddïau Ymatebol	tudalen	159

Gweddïau o Ymddiried a Chyflwyno	tudalen	164
Ffurfiâu ar y Fendith a Diweddiadau Eraill ..	tudalen	167
Mewn Gwasanaeth Coffa	tudalen	168
Gweddïau i'w defnyddio ar ôl Salmuau		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 6</i>	tudalen	169
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 32</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 38</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 39</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 90</i>	tudalen	170
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 116</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 120</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 121</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 130</i>		
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 138</i>	tudalen	171
<i>I'w defnyddio ar ôl Salm 139</i>	tudalen	172

 XIII. Darlleniadau o'r Beibl a Salmuau i'w Defnyddio mewn Gwasanaethau Angladd a Choffa ...	tudalen	172
--	---------	-----

 XIV. Cantiglau i'w Defnyddio mewn Gwasanaethau Angladd a Choffa		
<i>Cân am y Gwarddwr</i>	tudalen	174
<i>Cân Manasse</i>	tudalen	175
<i>Iustorum Animae</i>	tudalen	176
<i>Nunc Dimittis</i>	tudalen	177
<i>Cân y Rhai a Gyfiawnhawyd</i>	tudalen	178
<i>Cân Plant Duw</i>	tudalen	179
<i>Cân o Ffydd</i>	tudalen	180
<i>Cân y Rhai a Brynwyd</i>	tudalen	181
<i>Cân am yr Oen</i>	tudalen	182
<i>Cân o'r Eiddo Sant Anselm</i>	tudalen	183

 XV. Detholiad o Emynau ac Anthemau i'w Defnyddio mewn Gwasanaethau Angladd a Choffa ...	tudalen	184
--	---------	-----



**Litwrgïau ychwanegol ar gyfer amgylchiadau arbennig,
wedi eu cymeradwyo gan Fainc yr Esgobion (heb fod yn
rhan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin)**

Gweddïau dros Blentyn

Gweddïau ar ôl Camesgor tudalen 188

Amser o weddi a myfyrdod i'r rhai sy'n methu

â bod mewn angladd tudalen 194



Ar hyd ei hanes breintiwyd yr Eglwys â'r cyfle i symud yn agos at bobl, ar amserau tyngedfennol yn eu bywyd, a cheisio bod yn dystion byw i gariad a gras Duw. Nid yw'r Cristion yn credu bod person yn cael ei ddiffodd fel kannwyll ar derfyn ei fywyd daearol; o ganlyniad mae angladdau ymhlith y defodau hynny sy'n nodi newidiaeth, ynghyd â Bedydd a Phriodas, ac sy'n cynrychioli prif droeon bywyd tra, hefyd, yn cyfeirio ymlaen at y dyfodol a'r gobaith am y bywyd tragwyddol. Nid yw'r Eglwys ychwaith, wrth ystyried hunaniaeth pobl, yn cyfrif mai dibwys yw'r corff ond, yn hytrach, ei fod yn breswylfa enaid, yn gysegredig ac yn haeddu urddas a pharch, hyd yn oed wedi marwolaeth. Rhaid, felly, i ddefod yr angladd Cristnogol gwmpasu'r agweddau hyn, a chyflwyno'r ymadawedig yn berson, yn enaid, i Dduw ac i dragwyddoldeb, a darparu achlysur parchus a chysegredig ar gyfer rhoddi ei weddillion i orffwys, "mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad."

Mae dwy ystyriaeth ychwanegol. Rhaid bod cydnabyddiaeth, dathliad o bopeth a oedd yn dda a chreadigol ym mywyd yr ymadawedig, yn adlewyrchu rhywbeth o'u harwyddocâd tragwyddol – eu heffaith ar eu teulu a'u cydnabod, eu cyfraniad i'r gymdeithas ac i fywyd. Rhaid hefyd goffáu ffydd, pan fydd person, o ran ei hunan, wedi cyffesu Crist yn Waredwr a thystio i'r addewid o'r bywyd tragwyddol a geir ynddo. Yn olaf, y mae cynulleidfa – teulu, ffrindiau a chydabod, a fydd yn teithio drwy alar ac arnynt angen i'r seremonïau ogyrch yr angladd gyfleu negeseuon o gysur, o obaith, o ffydd, o gariad ac o drugaredd.

Mae llawer i'w gyflawni mewn byr amser. Yn y cyddestun modern mae ffurfiau defodau'r gorffennol yn dal yn ddefnyddiol, ond mae cynulleidfaoedd fel arfer yn disgwyl mwy – yn disgwyl gwasanaeth sy'n adlewyrchu cymeriad yr un a goffeir, sy'n crisialu ystod eu teimladau a'u greddfau hwy eu hunain, sy'n mynegi rhywfaint o'u credoau a'u gobeithion, sy'n cynnig iddynt gysur personol. Felly bydd rhaid i weinidog yr Eglwys, ar adeg angladd, lunio litwrgi a fydd yn ymateb i'r

anghenion a'r amcanion hyn i gyd.

Cadwyd hynny mewn cof, ac y mae'r litwrgiau angladd, a gymeradwywyd i fod yn rhan o Lyfr Gweddi Gyffredin yr Eglwys yng Nghymru gan y Corff Llywodraethol ym Mai 2019, yn cynnwys craidd-ddefod, a gyhoeddir yn Rhan Un, ac adnoddau helaeth a gyhoeddir yn Rhan Dau. Y syniad yw bod y litwrgi angladd hanfodol ar gael yn Rhan Un, ond bod yno Ran Dau y gellir troi ato neu hyd yn oed 'gloddio' ynddo, am ddeunydd ategol, addas. Yr ydym yn dra diolchgar i aelodau'r Comisiwn Litwrgaidd Ymgynghorol Sefydlog am dros ddegawd o lafur ar y litwrgi hwn a'r adnoddau ategol, a hefyd yn arbennig i Dr Gwendraeth Morgan am ymgymryd â'r gwaith o drosi'r deunydd i'r Gymraeg.

Gobaith esgobion yr Eglwys yng Nghymru yw y bydd y cyfoeth hwn o adnoddau yn galluogi'r rhai sy'n arwain gwasanaethau angladd i lunio litwrgi a fydd yn ateb yr holl anghenion amryfal a restrwyd uchod ond, yn fwyaf pwysig, a fydd hefyd yn fodd i gyhoeddi'r Efengyl yn fugeiliol sensitif a datgan y gobaith sydd ar gael i bawb yng ngwaith achubol Iesu Grist, a orchfygodd angau drwy ei atgyfodiad.

A handwritten signature in black ink that reads '+Gregory Llanellwy'. The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

+Gregory Llanellwy

Yr Esgob sy'n gyfrifol am Faterion Litwrgaidd ac Athrawiaethol

Mehefin 2020

Y GWASANAETH ANGLADD



Y DOD YNGHYD

Gall y gweimidog dderbyn yr arch.

Gellir defnyddio brawddeg neu frawddegau o'r Ysgrythur:

‘Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd,’ medd yr Arglwydd. ‘Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy’n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.’

Ioan 11. 25, 26

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angyllion na thywysogaethau, na’r presennol na’r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhufeiniaid 8. 38, 39

Os ydym yn credu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd bydd Duw, gydag ef, yn dod â’r rhai a hunodd drwy Iesu; ac felly byddwn gyda’r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch eich gilydd, felly, â’r geiriau hyn.

1 Thesalonïaid 4. 14, 17b, 18

Ni ddaethom â dim i’r byd, ac felly ni allwn fynd â dim allan ohono. Yr Arglwydd a roddodd, a’r Arglwydd a ddygodd ymaith. Bendigedig fyddo enw’r Arglwydd.

1 Timotheus 6. 7: Job 1. 21b

Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.

Galarnad 3. 22, 23

Gwyn eu byd y rhai sy’n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.

Mathew 5. 4

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3. 16

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

Rhufeiniaid 14. 8, 9

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthy ch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

Ioan 14. 1-3

Dywed y gweinidog:

Yn enw'r Tad,
a'r Mab,
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
A'th gadw di yng nghariad Crist.

(neu yn nhymor y Pasg):

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein *brawd/chwaer E.*
i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol.
Yn wyneb angau
mae gan Gristnogion sail sicr i obaith a hyder,
ie, i lawenydd,
am fod yr Arglwydd Iesu Grist,
a fu byw a marw fel dyn,
wedi atgyfodi mewn buddugoliaeth
ac yn fyw am byth.
Ynddo ef y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol,
a chan gredu hyn,
yr ydym yn ymddiried yn llwyr
yn ei ddaioni a'i drugaredd.

neu

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad.
Daethom yma heddiw
i gofio gerbron Duw ein *brawd/chwaer E.*
i ddiolch am ei *fywyd/bywyd*;
i'w *gyflwyno/chyflwyno* i Dduw,
ein hiachawdwr a'n barnwr trugarog;
i draddodi ei *gorff/chorff* i'w *gladdu/amlosgi*,
ac i gysuro ein gilydd yn ein galar.

neu eiriau cyffelyb.

Gall y gweinidog ddweud un o'r gweddïau canlynol:

Dduw pob diddanwch,
torrodd dy Fab Iesu Grist i wyllo
wrth fedd Lasarus ei ffrind.
Edrych yn drugarog ar dy blant yn eu colled;
dyro i galonnau gofidus oleuni gobaith
a chryfha ynom ddawn ffydd
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn ein barnu â thrugaredd a chyfiawnder diderfyn
ac yn caru pob peth a wnaethost.
Yn dy drugaredd
cynorthwya ni i wybod dy fod yn troi tywyllwch marwolaeth
yn wawr bywyd newydd
a galar gwahanu yn llawenydd y nefoedd;
trwy ein Hiachawdwr Iesu Grist. **Amen.**

Gellir camu emyn.

Y Colect

*Y mae'r gweinidog yn gwahodd y bobl i weddio; cedwir distawrwydd
a dywed y gweinidog naill ai un o'r Colectau a ganlyn neu Golect
addas arall:*

Dad trugarog,
clyw ein gweddïau a chysura ni;
adnewyddda ein hymddiried yn dy Fab,
a gyfodaist oddi wrth y meirw;
cryfha ein ffydd
y bydd i bawb a fu farw yng nghariad Crist
rannu ei atgyfodiad ef,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

DARLLENIADAU A PHREGETH

Gellir darllen o'r Hen Destament neu o'r Testament Newydd.

Gellir defnyddio'r salm hon, neu salm arall neu emyn:

Yr Arglwydd yw fy mugail:
ni bydd eisiau arnaf.

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision:
a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,

Ac y mae ef yn fy adfywio.
fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder
er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du:
nid ofnaf unrhyw niwed,

Oherwydd yr wyt ti gyda mi:
a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen:
yng ngŵydd fy ngelynion;

yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew:
y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd
yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd:
a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.

Salm 23

Defnyddir darlenniad o'r Testament Newydd (a all fod yn ddarlenniad o'r Efengyl).

Gellir traddodi pregeth.

GWEDDIAU

Y mae'r gweinidog yn arwain gweddïau'r bobl.

Fel rheol, bydd y gweddïau'n dilyn y drefn a ganlyn:

- † *Diolchgarwch am fywyd yr ymadawwedig*
- † *Gweddi dros y rhai sy'n galaru*
- † *(Gweddïau o edifeirwch)*
- † *Gweddi am barodrzydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb*

Gellir defnyddio'r ffurf a ganlyn. Os bydd achos, gellir hepgor yr ymatebion a gall y gweinidog ei hun ddweud y weddi derfynol.

Dduw trugarog, Arglwydd pob bywyd,
lluniaist ni ar dy ddelw
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.
Diolchwn iti am *E.*,
am y cariad a'r trugaredd a dderbyniodd gennyt,
am y cyfan a fu'n dda yn ei *fywyd/bywyd*,
am yr atgofion yr ydym yn eu trysori heddiw.
(Diolchwn iti yn arbennig am ...)

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Diolchwn iti am bawb a fu byw, trwy dy ras,
yn ôl dy ewyllys ac sy'n awr yn gorffwyso.
Bydded i'w hesiampl dda ein hannog a'n tywys
holl ddyddiau ein bywyd.
Tyrd i gwrdd â ni yn ein tristwch
a llanw ein calonnau â moliant a diolch.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Yn dy Fab yr wyt yn addo bywyd tragwyddol
i bawb sy'n credu.
Dwg *E.* a phawb sy'n gorffwyso yng Nghrist
i gyflawnder dy deyrnas
lle y maddeuwyd pechodau
ac nid oes angau mwyach.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Daw dy allu nerthol â llawenydd o dristwch
a bywyd o farwolaeth.
Edrych yn drugarog ar bawb sy'n galaru.
(*[neu]* Edrych yn drugarog ar *E.* a phawb sy'n galaru).
Dyro iddynt ffydd amyneddgar pan fo'r dyddiau'n dywyll.
Nertha hwy ag ymwybod o'th gariad.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Yr wyt yn dyner wrth dy blant
ac y mae dy drugaredd dros dy holl weithredoedd.
Dyro inni ddoethineb a gras
i iawn ddefnyddio'r amser sy'n weddill
inni ar y ddaear hon,
i droi at Grist a dilyn ôl ei draed
ar y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Yna dywed y gweimidog:

Dduw trugarog,
gan ymddiried i'th ddwylo bopeth a wnaethost
a chan lawenhau yn ein cymundeb â'th holl bobl ffyddlon,
offrymwn ein gweddiâu trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr.
Amen.

Gellir dweud Gweddi'r Arglwydd.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

neu

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Gellir canu emyn.

CYFLWYNO A FFARWELIO

Saif y gweinidog wrth yr arch a gall wahodd eraill i ymgynnull o'i chwmpas.

Dywed y gweinidog:

Cyflwynwn *E.* i ddwylo Duw,
ein crëwr a'n gwaredwr.

Cedwir distawrwydd.

Defnyddia'r gweinidog un o'r gweddiâu canlynol o ymddiried a chyflwyno, neu weddi briodol arall:

O Dduw ein crëwr a'n gwaredwr,
trwy dy allu gorchfygodd Crist farwolaeth
a mynd i mewn i'w ogoniant.

Yn llawn hyder yn ei fuddugoliaeth
a chan hawlio ei addewidion,
ymddiriedwn *E.* i'th ofal
yn enw Iesu ein Harglwydd,
a fu farw ac sy'n fyw
ac yn teyrnasu gyda thi,
yn awr ac am byth. **Amen.**

neu

I'th ddwylo di, O Waredwr trugarog,
y cyflwynwn dy *was/wasanaethferch E.*
Gweddiwn arnat i ti arddel dafad o'th gorlan dy hun,
oen o'th ddiadell dy hun,
pechadur a waredwyd gennyt ti dy hun.
Cofleidia *ef/hi* ym mreichiau dy drugaredd,
yng ngorffwys bendigaid tangnefedd tragwyddol
ac yng nghwmni gogoneddus y saint yn y goleuni. **Amen.**

Gall y sawl sy'n gweinyddu ychwanegu un o'r canlynol:

Dyro orffwys, O Grist, i'th *was/wasanaethferch* gyda'r saint:
lle nad oes poen na thristwch na galar mwy,
ond bywyd yn dragwyddol.

Ti yn unig yw'r un anfarwol,
crëwr a lluniwr pob un ohonom.

Marwolion ydym:

o'r ddaear y'n lluniwyd, i'r ddaear y dychwelwn;
oherwydd felly yr ordeiniaist pan greaist fi, gan ddweud:
"llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli".

I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni;
ond hyd yn oed uwch y bedd canwn ein cân:

Alelwia, Alelwia, Alelwia.

neu

E., dos allan o'r byd hwn:

ying nghariad Duw'r Tad a'th greodd,
yn nhrugaredd Iesu Grist a'th brynodd,
yn nerth yr Ysbryd Glân sy'n dy gryfhau.

Boed i'r angylion dy arwain i baradwys;
Boed i'r merthyron dy dderbyn pan gyrhaeddi
a'th arwain i'r ddinas sanctaidd Jerwsalem.

Boed i gorau o angylion dy dderbyn a chyda Lasarus,
a fu unwaith yn dlawd, boed i ti orffwys tragwyddol. **Amen.**

*Onid yw'r Traddodiant yn rhan o'r un gwasanaeth yn yr un lle,
gellir defnyddio yma adrannau o'r Anfon Allan.*

Gweler tudalen 14.

Y TRADDODIANT

Gellir defnyddio brawddegau o'r Ysgrhythur.

Dywed y gweinidog:

Trugarog a graslon yw'r Arglwydd,
araf i ddigio a llawn ffyddlondeb.
Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant,
felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.
Oherwydd y mae ef yn gwybod ein deunydd,
yn cofio mai llwch ydym.
Y mae dyddiau dyn fel glaswelltyn;
y mae'n blodeuo fel blodeuyn y maes —
pan â'r gwynt drosto fe ddiplanna,
ac nid yw ei le'n ei adnabod mwyach.
Ond y mae ffyddlondeb yr Arglwydd
o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni,
a'i gyfiawnder i blant eu plant.

neu

Nid oes gennym i fyw ond byr amser.
Blodeuwn fel blodau'r maes ac yna gwywo,
ehedwn ymaith fel cysgod heb aros byth.
Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau;
at bwy y gallwn droi am gymorth
ond atat ti, O Arglwydd,
sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddi-clon?
Er hynny, Arglwydd sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf,
O Iachawdwr sanctaidd a thrugarocaf,
na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.
Arglwydd, adwaenost ddirgelion ein calonau;
O Dduw galluocaf, clyw ein gweddi;
tydi, deilyngaf Farnwr tragwyddol, arbed ni;
O Waredwr sanctaidd a thrugarog.
na ad inni yn ein hawr olaf syrthio oddi wrthyt.

Mae'r gweiniog yn defnyddio un o'r ffurfiau canlynol ar y Traddodiant.

Wrth gladdu corff:

Yn ffydd Crist a chan gredu bod E.
yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'r ddaear:
pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Caniatâ, O Arglwydd, i ni a fedyddiwyd
i farwolaeth dy Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist,
farwhau'n wastad ein dymuniadau llygredig,
a chael ein claddu gydag ef;
a, thrwy'r bedd a phorth angau,
yr awn rhagom i'n hatgyfodiad llawen;
trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd,
ac a gyfododd drachefn er ein mwyn,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
trwy ei orffwys yn y bedd
sancteiddiaist feddau pawb sy'n credu ynddo.
Mae ei bresenoldeb gwastadol
yn cryfhau gobaith yr atgyfodiad ynom ni
sydd â chyrff marwol yn dihoeni a darfod.
Gorffwysed dy *was/wasanaethferch* E. yma mewn heddwch
hyd yr awr pan eilw llais y Gwaredwr
ef/hi i atgyfodiad ac i fywyd.
Gofynnwn hyn trwy dy Fab,
a oedd yn farw ond a gyfodwyd i fywyd gan dy Ysbryd
ac sy'n teyrnasu yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddigwydd yno:

Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer E.*
i drugaredd Duw.

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.*
yn nwylo Duw,

yr ydym yn awr yn traddodi ei *gorff/chorff* i'w amlogi:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu'r Lkych:

Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer E.*
i drugaredd Duw.

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.*
yn nwylo Duw,

paratown ar gyfer ei *gladdedigaeth/chladdedigaeth,*
trwy roddi ei *gorff/chorff* i'w amlogi.

Disgwylw'n am gyflawnder yr atgyfodiad
pan fydd Crist yn casglu ynghyd ei holl saint
i deyrnasu gydag ef mewn gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Hollalluog Dduw,

na all nac angau nac einioes ein gwahanu

oddi wrth dy gariad yng Nghrist Iesu,

ac y mae dy garedigrwydd yn cofleidio pawb o'th blant

yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod:

tynn *E.* atat dy hun

fel, yn ein cymdeithas â thi,

y gwybyddom ein bod yn un *ag ef/â hi.*

Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Pan gleddir corff yn y môr:

Yn ffydd Crist a chan gredu bod E.
yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'r dwfn:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

YR ANFON ALLAN

Gall hyn gynnwys:

- † *Gweddi'r Arglwydd (omis defnyddiwyd eisoes)*
- † *Y Nunc Dimittis*
- † *Gweddi neu weddïau addas*
- † *Diwedd glo*

Gweddi'r Arglwydd (*gweler tudalen 8*)

Nunc Dimittis (Cân Simeon):

Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air;

Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd;

Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gellir dweud un neu ragor o'r gweddïau hyn, neu weddïau addas eraill:

Dad nefol,
yn dy Fab Iesu Grist
rhoddaist inni wir ffydd a gobaith diogel.
Cryfha ynom y ffydd a'r gobaith hyn holl ddyddiau ein bywyd
fel y byddom fyw yn bobl sy'n credu
yng nghymundeb y saint,
maddeuant pechodau
a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy neall;
Duw fo yn fy nhrem,
ac yn f'edrychiad;
Duw fo yn fy ngair
ac yn fy siarad;
Duw fo yn fy mron
ac yn fy nirnad;
Duw fo ar ben fy nhaith,
ac ar f'ymadawiad. **Amen.**

O Arglwydd, cynnal ni
trwy gydol dydd ein bywyd blin,
hyd onid estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr,
distewi o ddwndwr byd,
tawelu o dwymyn bywyd
a gorffen ein gwaith.
Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd dyro inni breswylfa ddiogel,
gorffwysfa sanctaidd a thangnefedd yn y diwedd;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir defnyddio un o'r canlynol neu ddiweddglo addas arall:

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn
ddwyn yr Eglwys gyfan,
y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu,
i atgyfodiad llawen
a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

Rhodded Duw ichwi
ei ddiddanwch a'i dangnefedd,
ei oleuni a'i lawenydd,
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Fe ddengys Duw inni lwybr bywyd;
yn ei bresenoldeb ef y mae cyflawnder llawenydd:
ac yn ei ddeheulaw fwyniant bythol.

cf. Salm 16. 11

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio,
a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant,
iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwarddwr,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y byddo gogoniant a mawrhydi,
gallu ac awdurdod,
cyn yr oesoedd,
ac yn awr, a byth bythoedd! **Amen.**

Jwdas 24, 25

Dyro *iddo/iddi*, O Arglwydd, orffwys tragwyddol:
A llewyrched goleuni gwastadol *arno/arni*.

Arhosed cymorth Duw gyda ni,
a gorffwysed ein brodyr a'n chwiorydd ymadawedig
mewn tangnefedd yn yr Arglwydd,
a chyfodi mewn gogoniant. **Amen.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd:
Yn enw Crist. **Amen.**

**GWASANAETH ANGLADD
ODDI MEWN I'R CYMUN BENDIGAID**



Nodyn

Cyhyd ag y bo modd, dylai fod yn amkwg mai'r offeiriad sy'n llywyddu drwy gydol y Cymun Bendigaid er mwyn pwysleisio undod y gwasanaeth. Pan fo angen gall diacon neu ddarllenydd arwain y rhannau penodol o'r gwasanaeth lle bo ganddynt awdurdod dilys i wneud. Yn yr amgylchiadau hymny, deellir bod y rhuddell sy'n cyfeirio at eiriau neu weithred yr offeiriad yn cyfeirio at y diacon neu'r darllenydd, fel y bo'n gymwys.

Y DOD YNGHYD

Gall yr offeiriad dderbyn yr arch.

Gellir defnyddio brawddeg neu frawddegau o'r Ysgrhythur:

‘Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd,’ medd yr Arglwydd. ‘Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.’

Ioan 11. 25, 26

Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angyllion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymustersau nac uchelderau na dyfinderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhufeiniaid 8. 38, 39

Os ydym yn credu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd bydd Duw, gydag ef, yn dod â'r rhai a hunodd drwy Iesu; ac felly byddwn gyda'r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch eich gilydd, felly, â'r geiriau hyn.

1 Thesalonaiad 4. 14, 17b, 18

Ni ddaethom â dim i'r byd, ac felly ni allwn fynd â dim allan ohono. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith. Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.

1 Timotheus 6. 7: Job 1. 21b

Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.

Galarnad 3. 22, 23

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.

Mathew 5. 4

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3. 16

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

Rhufeiniaid 14. 8, 9

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyhch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

Ioan 14. 1-3

Dywed yr offeiriad:

Yn enw'r Tad,
a'r Mab,
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
A'th gadw di yng nghariad Crist.

(neu yn nhymor y Pasg):

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein *brawd/chwaer E.*
i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol.
Yn wyneb angau
mae gan Gristnogion sail sicr i obaith a hyder,
ie, i lawenydd,
am fod yr Arglwydd Iesu Grist,
a fu byw a marw fel dyn,
wedi atgyfodi mewn buddugoliaeth
ac yn fyw yn byth.
Ynndo ef y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol,
a chan gredu hyn,
yr ydym yn ymddiried yn llwyr
yn ei ddaioni a'i drugaredd.

neu

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad.
Daethom yma heddiw
i gofio gerbron Duw ein *brawd/chwaer E.*
i ddiolch am ei *fywyd/bywyd*;
i'w *gyflwyno/chyflwyno* i Dduw,
ein hiachawdwr a'n barnwr trugarog;
i draddodi ei *gorff/chorff* i'w *gladdu/amlosgi*,
ac i gysuro ein gilydd yn ein galar.

neu eiriau cyffelyb.

Gall yr offeiriad ddweud un o'r gweddïau canlynol:

Dduw pob diddanwch,
torrodd dy Fab Iesu Grist i wylu
wrth fedd Lasarus ei ffrind.
Edrych yn drugarog ar dy blant yn eu colled;
dyro i galonnau gofidus oleuni gobaith
a chryfha ynom ddawn ffydd
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn ein barnu â thrugaredd a chyfiawnder diderfyn
ac yn caru pob peth a wnaethost.
Yn dy drugaredd
cynorthwya ni i wybod dy fod yn troi tywyllwch marwolaeth
yn wawr bywyd newydd
a galar gwahanu yn llawenydd y nefoedd;
trwy ein Hiachawdwr Iesu Grist. **Amen.**

Gellir camu emyn.

GWEDDIAU O EDIFEIRWCH

Dywed yr offeiriad y geiriau hyn neu eiriau cyffelyb:

A ninnau'n blant i Dad nefol cariadus,
cydnabyddwn ein pechod a gofynnwn am ei faddeuant,
oherwydd y mae ef yn drugarog ac yn addfwyn.

*Gellir darllen un neu fwy o'r brawddegau o 'Geiriau Sicrwydd'
naill ai i gyflwyno'r distawrwydd cyn y gyffes neu ar ôl y
gollyngdod.*

Dywedodd ein Harglwydd Iesu Grist, Dewch ataf fi , bawb sy'n
flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.

Mathew 11. 28

Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn
i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael
bywyd tragwyddol.

Ioan 3. 16

A dyma air i'w gredu, sy'n teilyngu derbyniad llwyr:
Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid.

1 Timotheus 1. 15

Os bydd i rywun bechu, y mae gennym Eiriolwr gyda'r Tad, sef
Iesu Grist, y cyfiawn; ac ef sy'n foddion ein puredigaeth oddi
wrth ein pechodau.

1 Ioan 2. 1

Gellir cadw distawrwydd.

Gellir defnyddio'r geiriau hyn:

Arglwydd Iesu, yr wyt yn cyfodi'r meirw i fywyd
yn yr Ysbryd.

Arglwydd trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, yr wyt yn rhoddi i'r pechadur faddeuant
a thangnefedd.

Crist trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, yr wyt yn rhoddi goleuni i'r rhai sydd
mewn tywyllwch.

Arglwydd trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

neu

Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddau inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.

Yna dywed yr offeiriad:

Yr Hollalluog Dduw,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthyich, a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gloria in Excelsis

**Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd.
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
Arglwydd Dduw, Frenin nefol,
Dduw Dad Hollalluog.**

**O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist;
O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
sy'n dwyn ymaith bechod y byd,
trugarha wrthym;
tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad,
derbyn ein gweddi.**

**Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd;
ti yn unig yw'r Arglwydd;
ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân,
sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.**

Y Colect

*Y mae'r offeiriad yn gwahodd y bobl i weddio; cedwir distawrwydd
a dywed yr offeiriad y Colect hwn neu Golect addas arall:*

Dad trugarog,
clyw ein gweddiau a chysura ni;
adnewyddu ein gobaith yn dy Fab,
a gyfodaist o blith y meirw;
cryfha ein ffydd
y bydd i bawb a fu farw yng nghariad Crist
rannu ei atgyfodiad ef
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw yn awr a byth. **Amen.**

CYHOEDDI'R GAIR

Bydd un neu ddau ddarlleniad o'r Ysgrhythur cyn y darlleniad o'r Efengyl.

Ar ddiwedd y darlleniad(au) gall y darllenydd ddweud:

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr eglwys.

Diolch a fo i Dduw.

neu

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Bydd salm neu gantigl yn dilyn y darlleniad cyntaf; gellir defnyddio emynau neu ganeuon eraill rhwng y darlleniadau.

Darlleniad o'r Efengyl:

Gellir rhagflaenu'r darlleniad o'r Efengyl â banllef.

Gellir defnyddio un o'r canlynol:

Alelwia, Alelwia,

Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab,
er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol.

cf. Ioan 3. 16

Alelwia.

neu

Alelwia, Alelwia,

Gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr Arglwydd.
Cânt orffwys am byth o'u llafur.

cf. Datguddiad 14. 13

Alelwia.

(neu, yn y Garawys)

O Dduw sanctaidd,
sanctaidd a nerthol,
sanctaidd ac anfarwol,
trugarha wrthym.

Wrth gyhoeddi'r Efengyl dywed y darlennydd:

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant ...
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Ar ôl yr Efengyl dywed y darlennydd:

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

YMBILIAU

Y mae'r gweinidog yn arwain gweddïau'r bobl.
Fel rheol, bydd y gweddïau'n dilyn y drefn a ganlyn:
† *Diolchgarwch am fywyd yr ymadawedig*
† *Gweddi dros y rhai sy'n galaru*
† *Gweddi am barodrzydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb*

Gellir defnyddio'r ffurf a ganlyn. Os bydd achos, gellir hepgor yr ymatebion a gall yr offeiriad ei hun ddweud y weddi derfynol.

Dduw trugarog, Arglwydd pob bywyd,
lluniaist ni ar dy ddelw
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.
Diolchwn iti am *E.*,
am y cariad a'r trugaredd a dderbyniodd gennyt,
am y cyfan a fu'n dda yn ei *fywyd/bywyd*,
am yr atgofion yr ydym yn eu trysori heddiw.
(Diolchwn iti yn arbennig am ...)

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Diolchwn iti am bawb a fu byw, trwy dy ras,
yn ôl dy ewyllys ac sy'n awr yn gorffwyso.
Bydded i'w hesiampl dda ein hannog a'n tywys
holl ddyddiau ein bywyd.
Tyrd i gwrdd â ni yn ein tristwch
a llanw ein calonnau â moliant a diolch.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Yn dy Fab yr wyt yn addo bywyd tragwyddol
i bawb sy'n credu.
Dwg *E.* a phawb sy'n gorffwyso yng Nghrist
i gyflawnder dy deyrnas
lle y maddeuwyd pechodau
ac nid oes angau mwyach.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Daw dy allu nerthol â llawenydd o dristwch
a bywyd o farwolaeth.
Edrych yn drugarog ar bawb sy'n galaru.
(*[neu]* Edrych yn drugarog ar *E.* a phawb sy'n galaru).
Dyro iddynt ffydd amyneddgar pan fo'r dyddiau'n dywyll.
Nertha hwy ag ymwybod o'th gariad.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

Yr wyt yn dyner wrth dy blant
ac y mae dy drugaredd dros dy holl weithredoedd.
Dyro inni ddoethineb a gras
i iawn ddefnyddio'r amser sy'n weddill
inni ar y ddaear hon,
i droi at Grist a dilyn ôl ei draed
ar y ffordd sy'n arwain i fywyd tragwyddol.

Distawrwydd

(Arglwydd, yn dy drugaredd: **gwrando ein gweddi.**)

**Dduw trugarog,
gan ymddiried i'th ddwylo bopeth a wnaethost
a chan lawenhau yn ein cymundeb â'th holl bobl
ffyddlon, offrymwn ein gweddiâu trwy Iesu Grist ein
Hiachawdwr. Amen.**

LITWRGI'R SACRAMENT

Y Tangnefedd

Gellir darllen brawddeg o'r Ysgrythur:

Dywed Iesu,
Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd;
fy nhangnefedd yr wyf yn ei roi i chwi.
Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon
a pheidiwch ag ofni.

cf: Ioan 14. 27

neu

Daeth y Crist atgyfodedig a sefyll ymhlith ei ddisgyblion a
dweud, Tangnefedd i chwi!
Pan welsant yr Arglwydd, llawenychodd y disgyblion.

cf: Ioan 20. 19-20

neu gweler tudalen 86 yn yr atodiad.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Gellir cyfnewid arwydd o dangnefedd.

Y DIOLCH

Cymer yr offeiriad y bara a'r cwpan.

Gall yr offeiriad ddweud naill ai:

Dathlwn gyda'n gilydd roddion a gras Duw.

**Cymerwn y bara hwn,
cymerwn y gwin hwn
i ddilyn esiampl Crist
ac i ufuddhau i'w orchymyn.**

neu gall foli Duw am ei roddion yn y geiriau hyn:

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y bara hwn i'w offrymu,
rhodd y ddaear a gwaith dwylo dynol.
Fe ddaw i ni yn fara'r bywyd.

Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw yr holl greadigaeth.
Trwy dy ddaioni y mae gennym y gwin hwn i'w offrymu,
ffrwyth y winwydden a gwaith dwylo dynol.
Fe ddaw i ni yn ddiod ysbrydol.

Bendigedig fyddo Duw am byth.

Yr Arglwydd a fo gyda chwi. *neu* Y mae'r Arglwydd yma.
A hefyd gyda thi. Y mae ei Ysbryd gyda ni.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd
bob amser ac ym mhob lle
yw diolch i ti, Dad Sanctaidd,
hollalluog a bythfywiol Dduw,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd:

a gyfododd yn fuddugoliaethus o blith y meirw
ac sy'n ein cysuro ni
â'r gobraith gwynfydedig o fywyd tragwyddol.
I'th bobl ffyddlon di, O Arglwydd,
newidir bywyd ond nid ei gymryd ymaith,
ac wedi dileu'r corff anianol hwn gan angau,
fe ddarperir cartref tragwyddol inni
yn y nefoedd gyda thi.

Felly, gyda llu'r angylion

a holl gwmpeni'r nef,
cyhoeddwn ogoniant dy enw
ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.**

**Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf.**

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw,
Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd.
Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun,
ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno
a syrthio'n brin o'th ogoniant.
Rhoddwn ddiolch i ti
am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni;
fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub,
a'i atgyfodi oddi wrth y meirw
fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn,
dy roddion inni,
fel y bônt i ni yn gorff a gwaed
ein Hiachawdwr Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara
ac, wedi rhoi diolch,
fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud,
Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch:
gwnewch hyn er cof amdanaf.
Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan,
ac, wedi rhoi diolch,
fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud,
Yfwch o hwn bawb,
oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd
a dywelltir drosoch a thros lawer
er maddeuant pechodau:
gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef
er cof amdanaf.

[Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:]

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad,
yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab.
Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus,
a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad,
a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant,
deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti.

Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.
Adfer ac adfywia dy holl bobl,
adnewyddu ni a phawb y gweddïwn trostynt
â'th ras a'th fendith nefol
a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint
i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab,
ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef,
yn undod yr Ysbryd Glân,
eiddot ti, Dad hollalluog,
yw pob anrhydedd a gogoniant,
yn oes oesoedd.

Amen.

Distawrwydd

Gellir dweud Gweddi'r Arglwydd.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

neu

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Y CYMUN

Mae'r offeiriad yn torri'r bara.

Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.
**A ninnau'n llawer, un corff ydym,
gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.**

neu

Bob tro y bwydawn y bara hwn ac yr yfwn y cwpan hwn
**yr ydym yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd
hyd nes y daw.**

Gellir defnyddio'r anthem hon yma neu adeg y cymun.

**Iesu, Oen Duw:
trugarha wrthym.**

**Iesu, sy'n dwyn ein pechodau:
trugarha wrthym.**

**Iesu, iachawdwr y byd:
dyro inni dy dangnefedd.**

neu

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.**

**Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.**

Un o'r gwahoddiadau canlynol:

Rhoddion sanctaidd Duw ar gyfer pobl sanctaidd Duw.
**Y mae Iesu Grist yn sanctaidd,
y mae Iesu Grist yn Arglwydd,
er gogoniant Duw Dad.**

neu

Iesu yw Oen Duw
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
**Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

neu

Dewch, derbyniwn gorff a gwaed ein Harglwydd Iesu Grist,
a roddwyd drosom, ac ymborthwn arno yn ein calonnau
trwy ffydd gan roi diolch.

(neu yn nhymor y Pasg):

Alelwia. Crist, ein Pasg, a aberthwyd drosom ni.
Felly, gadewch i ni gadw'r wyl. Alelwia.

Mae'r offeiriad a'r bobl yn derbyn y cymun.

Gweinyddir y sacrament â'r geiriau hyn:

Corff Crist a'th gadwo yn y bywyd tragwyddol. **Amen.**
neu Corff Crist, bara'r bywyd. **Amen.**
neu Corff Crist. **Amen.**

Gwaed Crist a'th gadwo yn y bywyd tragwyddol. **Amen.**
neu Gwaed Crist, y wir winwydden. **Amen.**
neu Gwaed Crist. **Amen.**

Gellir bendithio'r rhai nad ydynt yn cymuno.

Darperir ffurf ar gyfer cysegru pellach yn yr atodiad ar dudalen 90.

Ar ôl y cymun, gellir darllen brazwdege addas o Ysgrythur a ddarllenwyd wrth Gyhoeddi'r Gair.

Cedwir distawrwydd.

Gellir canu emyn.

Bwyteir ac yfir unrhyw fara a gwin cysegredig nas neilltuir ar gyfer cymun cadw.

Ar ôl y cymun â'r offeiriad ymlaen:

**Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef;
ei gariad sy'n dragywydd.**

Defnyddir gweddi ôl-gymun ac/neu un o'r gweddïau a ganlyn:

**Dduw'r gwirionedd,
yr ydym wedi gweld â'n llygaid
a chyffwrdd â'n dwylo fara'r bywyd.
Cryfha ein ffydd
fel y tyfwn mewn cariad atat ti,
ac at ein gilydd,
trwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig. Amen.**

neu

**Dad nefol,
yn dy Fab Iesu Grist
rhoddaist inni wir ffydd a gobaith diogel.
Cryfha ynom y ffydd a'r gobaith
hyn holl ddyddiau ein bywyd
fel y byddom fyw yn bobl sy'n credu
yng nghymundeb y saint,
maddeuant pechodau
a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

CYFLWYNO A FFARWELIO

Saif yr offeiriad wrth yr arch a gall wahodd eraill i ymgynnull o'i chwmpas.

Dywed yr offeiriad:

Cyflwynwn *E.* i ddwylo Duw,
ein crëwr a'n gwaredwr.

Cedwir distawrwydd.

Defnyddia'r offeiriad un o'r gweddïau canlynol o ymddiried a chyflwyno, neu weddi briodol arall:

O Dduw ein crëwr a'n gwaredwr,
trwy dy allu gorchfygodd Crist farwolaeth
a mynd i mewn i'w ogoniant.
Yn llawn hyder yn ei fuddugoliaeth
a chan hawlio ei addewidion,
ymddiriedwn *E.* i'th ofal
yn enw Iesu ein Harglwydd,
a fu farw ac sy'n fyw
ac yn teyrnasu gyda thi,
yn awr ac am byth. **Amen.**

neu

I'th ddwylo di, O Waredwr trugarog,
y cyflwynwn dy *was/wasanaethferch E.*
Gweddiwn arnat i ti arddel dafad o'th gorlan dy hun,
oen o'th ddiadell dy hun,
pechadur a waredwyd gennyt ti dy hun.
Cofleidia *ef/hi* ym mreichiau dy drugaredd,
yng ngorffwys bendigaid tangnefedd tragwyddol
ac yng nghwmni gogoneddus y saint yn y goleuni. **Amen.**

Gall yr offeiriad ychwanegu un o'r canlynol:

Dyro orffwys, O Grist, i'th *was/wasanaethferch* gyda'r saint:
lle nad oes poen na thristwch na galar mwy,
ond bywyd yn dragwyddol.

Ti yn unig yw'r un anfarwol,
crëwr a lluniwr pob un ohonom.

Marwolion ydym:

o'r ddaear y'n lluniwyd, i'r ddaear y dychwelwn;
oherwydd felly yr ordeiniaist pan greaist fi, gan ddweud:
"llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli".

I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni;
ond hyd yn oed uwch y bedd canwn ein cân:

Alelwia, Alelwia, Alelwia.

neu

E., dos allan o'r byd hwn:

ying nghariad Duw'r Tad a'th greodd,
yn nhrugaredd Iesu Grist a'th brynodd,
yn nerth yr Ysbryd Glân sy'n dy gryfhau.

Boed i'r angylion dy arwain i baradwys;

Boed i'r merthyron dy dderbyn pan gyrhaeddi
a'th arwain i'r ddinas sanctaidd Jerwsalem.

Boed i gorau o angylion dy dderbyn a chyda Lasarus,
a fu unwaith yn dlawd, boed i ti orffwys tragwyddol. **Amen.**

*Onid yw'r Traddodiant yn rhan o'r un gwasanaeth yn yr un lle,
gellir defnyddio yma adrannau o'r Anfon Allan. Gweler tudalen 42.*

Y TRADDODIANT

Gellir defnyddio brawddegau o'r Ysgrhythur.

Dywed yr offeiriad:

Trugarog a graslon yw'r Arglwydd,
araf i ddigio a llawn ffyddlondeb.
Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant,
felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.
Oherwydd y mae ef yn gwybod ein deunydd,
yn cofio mai llwch ydym.
Y mae dyddiau dyn fel glaswelltyn;
y mae'n blodeuo fel blodeuyn y maes —
pan â'r gwynt drosto fe ddiplanna,
 ac nid yw ei le'n ei adnabod mwyach.
Ond y mae ffyddlondeb yr Arglwydd
o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni,
a'i gyfiawnder i blant eu plant.

neu

Nid oes gennym i fyw ond byr amser.
Blodeuwn fel blodau'r maes ac yna gwywo,
ehedwn ymaith fel cysgod heb aros byth.
Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau;
at bwy y gallwn droi am gymorth
ond atat ti, O Arglwydd,
sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddi-clon?
Er hynny, Arglwydd sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf,
O Iachawdwr sanctaidd a thrugarocaf,
na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.
Arglwydd, adwaenost ddirgelion ein calonau;
O Dduw galluocaf, clyw ein gweddi;
tydi, deilyngaf Farnwr tragwyddol, arbed ni;
O Waredwr sanctaidd a thrugarog.
na ad inni yn ein hawr olaf syrthio oddi wrthyt.

Mae'r offeiriad yn defnyddio un o'r ffurfiau canlynol ar y Traddodiant.

Wrth gladdu corff:

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.* yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'r ddaear:
pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Caniatâ, O Arglwydd, i ni a fedyddiwyd
i farwolaeth dy Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist,
farwhau'n wastad ein dymuniadau llygredig,
a chael ein claddu gydag ef;
a, thrwy'r bedd a phorth angau,
yr awn rhagom i'n hatgyfodiad llawen;
trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd,
ac a gyfododd drachefn er ein mwyn,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
trwy ei orffwys yn y bedd
sancteiddiaist feddau pawb sy'n credu ynddo.
Mae ei bresenoldeb gwastadol
yn cryfhau gobaith yr atgyfodiad ynom ni
sydd â chyrff marwol yn dihoeni a darfod.
Gorffwysed dy *was/wasanaethferch E.* yma mewn heddwch
hyd yr awr pan eilw llais y Gwarddwr
ef/hi i atgyfodiad ac i fywyd.
Gofynnwn hyn trwy dy Fab,
a oedd yn farw ond a gyfodwyd i fywyd gan dy Ysbryd
ac sy'n teyrnasu yn Arglwydd yn oes oesoedd. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddiigwydd yno:

Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer E.*
i drugaredd Duw.

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.* yn nwylo Duw,
yr ydym yn awr yn traddodi ei *gorff/chorff* i'w amlogi:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

Yn yr amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu'r Llwch:

Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer E.*
i drugaredd Duw.

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.* yn nwylo Duw,
paratown ar gyfer ei *gladdedigaeth/chladdedigaeth,*
trwy roddi ei *gorff/chorff* i'w amlogi.
Disgwyliwn am gyflawnder yr atgyfodiad
pan fydd Crist yn casglu ynghyd ei holl saint
i deyrnasu gydag ef mewn gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Hollalluog Dduw,
na all nac angau nac einioes ein gwahanu
oddi wrth dy gariad yng Nghrist Iesu,
ac y mae dy garedigrwydd yn cofleidio pawb o'th blant
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod:
tynn *E.* atat dy hun
fel, yn ein cymdeithas â thi,
y gwybyddom ein bod yn un *ag ef/â hi.*
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Pan gleddir corff yn y môr:

Yn ffydd Crist a chan gredu bod E.
yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'r dwfn:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

YR ANFON ALLAN

Gall hyn gynnwys:

- † *Y Nunc Dimittis*
- † *Gweddï neu weddïau addas*
- † *Diweddglo*

Y Nunc Dimittis (Cân Simeon):

Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air;

Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd;

Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd:
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. **Amen.**

Gellir dweud un neu ragor o'r gweddïau hyn, neu weddïau addas eraill:

Dad nefol,
yn dy Fab Iesu Grist
rhoddaist inni wir ffydd a gobaith diogel.
Cryfha ynom y ffydd a'r gobaith hyn holl ddyddiau ein bywyd
fel y byddom fyw yn bobl sy'n credu
yng nghymundeb y saint,
maddeuant pechodau
a'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy neall;
Duw fo yn fy nhrem,
ac yn f'edrychiad;
Duw fo yn fy ngair
ac yn fy siarad;
Duw fo yn fy mron
ac yn fy nirnad;
Duw fo ar ben fy nhaith,
ac ar f'ymadawiad. **Amen.**

O Arglwydd, cynnal ni
trwy gydol dydd ein bywyd blin,
hyd onid estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr,
distewi o ddwndwr byd,
tawelu o dwymyn bywyd
a gorffen ein gwaith.
Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd dyro inni breswylfa ddiogel,
gorffwysfa sanctaidd a thangnefedd yn y diwedd;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir defnyddio un o'r canlynol neu ddiweddglo addas arall:

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn
ddwyn yr Eglwys gyfan,
y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu,
i atgyfodiad llawen
a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

Rhodded Duw ichwi
ei ddiddanwch a'i dangnefedd,
ei oleuni a'i lawenydd,
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Fe ddengys Duw inni lwybr bywyd;
yn ei bresenoldeb ef y mae cyflawnder llawenydd:
ac yn ei ddeheulaw fwyniant bythol.

cf. Salm 16. 11

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio,
a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant,
iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwardwr,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y byddo gogoniant a mawrhydi,
gallu ac awdurdod,
cyn yr oesoedd,
ac yn awr, a byth bythoedd! **Amen.**

Jwdas 24, 25

Dyro *iddo/iddi*, O Arglwydd, orffwys tragwyddol:
A llewyrched goleuni gwastadol *arno/arni*.

Arhosed cymorth Duw gyda ni,
a gorffwysed ein brodyr a'n chwiorydd ymadawedig
mewn tangnefedd yn yr Arglwydd,
a chyfodi mewn gogoniant. **Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Defnyddir y fendith hon neu fendith addas arall:

Bydded i Dduw Dad,
a gyfododd Crist oddi wrth y meirw trwy ei gariad,
agor i chwi sy'n credu byrth y bywyd tragwyddol. **Amen.**

Bydded i Dduw Fab,
a enillodd, trwy ddryllio pyrth y bedd, y fuddugoliaeth
ogoneddus, roddi ichwi lawenydd wrth rannu ffydd y Pasg.
Amen.

Bydded i Dduw Ysbryd Glân,
yr hwn a anadlodd yr Arglwydd atgyfodedig ar ei
ddisgyblion, eich nerthu a'ch llenwi â thangnefedd Crist.
Amen.

A bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd:
Yn enw Crist. **Amen.**

(neu yn nhymor y Pasg):

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Alelwia! Alelwia!
Yn enw Crist.
Alelwia! Alelwia!

**CLADDU
LLWCH WEDI AMLOSGIAD**



Nodyn

Os bydd y gwasanaeth yn dechrau mewn eglwys neu gapel, fe all y bydd yn addas gwahodd y galarwyr i fan y claddu ar ddiwedd y darlleniadau, a defnyddio'r salmau ym man y claddu.

BENDITHIO BEDD

Os nad yw'r man claddu yn dir sydd wedi ei gysegru, defnyddir y weddi ganlynol i fendithio'r bedd:

O Dduw,

y gosodwyd dy Fab Iesu Grist mewn bedd:
gweddiwn ar i ti fendithio'r bedd hwn
fel y bo'n breswylfa dawl lle gall corff *E.*

dy *was/wasanaethferch* orffwys mewn tangnefedd,
trwy dy Fab, yr atgyfodiad a'r bywyd;
a fu farw ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn awr a hyd byth. **Amen.**

PARATOAD

Gellir defnyddio brawddegau priodol o'r Ysgrythur.

Y mae'r gweinigdog yn cyfarch y bobl â'r geiriau hyn neu eiriau addas eraill:

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi:

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Er nad ydym ond llŵch a lludw,
y mae Duw wedi paratoi i'r rhai sy'n ei garu
drigfan yn y nef.

Yn ei *angladd/hangladd* cyflwynasom *E.* i ddwylo

Duw hollalluog.

Wrth inni ymddiried gweddillion *E.* i'r ddaear, ymddiriedwn
ein hunain a phawb sy'n caru Duw i'w ofal cariadus.

DARLLENIADAU

Y mae darlenniad neu ddarlenniadau yn dilyn.

Gellir defnyddio'r salmau ym man y claddu.

Mi wn fod fy amddiffynnwr yn fyw:
ac y saif o'm plaid yn y diwedd;
Ac wedi i'm croen ddifa fel hyn:
eto o'm cnawd caf weld Duw.
Fe'i gwelaf ef o'm plaid:

ie, fy llygaid fy hun a'i gwêl, ac nid yw'n ddieithr.

Job 19. 25-27

Ti, Arglwydd, yw fy nghyfran a'm cwpan:
ti sy'n diogelu fy rhan;

Syrthiodd y llinynnau i mi mewn manau dymunol:
ac y mae gennyf etifeddiaeth ragorol.

Bendithiaf yr Arglwydd a roddodd gyngor i mi:
yn y nos y mae fy meddyliau'n fy hyfforddi.

Gosodais yr Arglwydd o'm blaen yn wastad:
am ei fod ar fy neheulaw, ni'm symudir.

Am hynny, llawenha fy nghalon a gorfoledda f'ysbryd:
a chaiff fy nghnawd fyw'n ddiogel;

Oherwydd ni fyddi'n gadael fy enaid i Sheol:
ac ni chaiff yr un teyrngar i ti weld Pwll Distryw.

Dangosi i mi lwybr bywyd:
yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd,
ac yn dy ddeheulaw fwyniant bythol.

Salm 16. 5-11

Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod:
Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi
yr wyt wedi deall fy meddwl o bell;

Yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys:
ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd.

Oherwydd nid oes air ar fy nhafod:
heb i ti Arglwydd ei wybod i gyd.

Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen:
ac wedi gosod dy law dros of.

Y mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd i mi:
y mae'n rhy uchel i mi ei chyrraedd.

I ble yr af oddi wrth dy ysbryd:
i ble y ffoaf o'th bresenoldeb?

Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno:
os cyweiriaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd.

Os cymeraf adenydd y wawr:
a thrigo ym mhellafoedd y môr,

Yno hefyd fe fydd dy law yn fy arwain:
a'th ddeheulaw yn fy nghynnal.

Os dywedaf, "Yn sicr bydd y tywyllwch yn fy nghuddio:
a'r nos yn cau amdanaf",

Eto nid yw tywyllwch yn dywyllwch i ti:
y mae'r nos yn goleuo fel dydd
a'r un yw tywyllwch a goleuni.

Ti a greodd fy ymysgaroedd:
a'm llunio yng nghroth fy mam.

Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol :
ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol;
Yr wyt yn fy adnabod mor dda

Bydd rhywun yn dweud: “Pa fodd y mae’r meirw’n cael eu cyfodi? Â pha fath gorff y byddant yn dod?”

Y ffŵl! Beth am yr had yr wyt ti yn ei hau? Ni roddir bywyd iddo heb iddo farw yn gyntaf. A’r hyn yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd ydyw, ond gronyn noeth, o wenith efallai, neu o ryw rawn arall. Ond Duw, yn ôl ei ewyllys ei hun, sydd yn rhoi corff iddo, i bob un o’r hadau ei gorff ei hun.

Felly hefyd y bydd gyda golwg ar atgyfodiad y meirw. Heuir mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef.

1 Corinthiaid 15. 35-38, 42-43

Ar ôl hyn, gofynnodd Joseff o Arimathea ganiatâd gan Pilat i gymryd corff Iesu i lawr. Yr oedd Joseff yn ddisgybl i Iesu, ond yn ddisgybl cudd, gan fod ofn yr Iddewon arno. Rhoddodd Pilat ganiatâd, ac felly aeth Joseff i gymryd y corff i lawr. Aeth Nicodemus hefyd, y dyn oedd wedi dod at Iesu y tro cyntaf liw nos, a daeth ef â thua chan mesur o fyrr ac aloes yn gymysg. Cymerasant gorff Iesu, a’i rwymo, ynghyd â’r peraroglau, mewn llieiniau, yn unol ag arferion claddu’r Iddewon.

Yn y fan lle croeshoeliwyd ef yr oedd gardd, ac yn yr ardd yr oedd bedd newydd nad oedd neb erioed wedi ei roi i orwedd ynddo. Felly, gan ei bod yn ddydd Paratoad i’r Iddewon, a chan fod y bedd hwn yn ymyl, rhoesant Iesu i orwedd ynddo.

Ioan 19. 38-diwedd

A theml ni welais ynnddi, oherwydd ei theml hi yw'r Arglwydd Dduw, yr Hollalluog, a'r Oen. Nid oes ar y ddinas angen na'r haul na'r lleuad i dywynnu arni, oherwydd gogoniant Duw sy'n ei goleuo, a'i lamp hi yw'r Oen. A bydd y cenedloedd yn rhodio yn ei goleuni hi, a brenhinoedd y ddaear yn dwyn eu gogoniant i mewn iddi. Byth ni chaeir ei phyrth y dydd, ac ni bydd nos yno.

Yna dangosodd yr angel imi afon dŵr y bywyd, yn ddisglair fel grisial, yn llifo allan o orsedd Duw a'r Oen, ar hyd canol heol y ddinas. Ar ddwy lan yr afon yr oedd pren y bywyd, yn dwyn deuddeg cnwd, gan roi pob cnwd yn ei fis; ac yr oedd dail y pren er iachâd y cenedloedd. Ni bydd dim mwyach dan felltith. Yn y ddinas bydd gorsedd Duw a'r Oen, a'i weision yn ei wasanaethu; cânt weld ei wyneb, a bydd ei enw ar eu talcennau. Ni bydd nos mwyach, ac ni bydd arnynt angen na golau lamp na golau haul, oherwydd bydd yr Arglwydd Dduw yn eu goleuo, a byddant hwy'n teyrnasu byth bythoedd.

Datguddiad 21. 22-26, 22. 1-5

Y TRADDODIANT

Gellir defnyddio brawddegau o'r Ysgrhythur.

Dywed y gweinidog:

Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer E.*
i drugaredd Duw.

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.* yn nwylo Duw
yr ydym yn awr yn traddodi ei *weddillion/gweddillion*
marwol i'r ddaear:

pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r
bywyd tragwyddol

trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni

i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,

a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.

Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Dduw ffyddlon,

Arglwydd y cread oll,

sy'n ewyllysio na cholli'r byth

neb o'r rhai a brynwyd gan dy Fab,

ac y cyfodir yr uniawn yn y dydd olaf:

cysura ni heddiw â gair dy addewid

wrth inni ddychwelyd llwch ein *brawd/chwaer* i'r ddaear.

Dyro i *E.* orffwysfa mewn tangnefedd

lle nad oes gan angau golyn mwy.

Cryfha ynom y gobaith y creïr *ef/hi* o'r newydd

ar y dydd pan atgyfodi di *ef/hi* mewn gogoniant

i fyw gyda thi a'r holl saint

byth bythoedd. **Amen.**

GWEDDIAU

Gellir dweud Gweddi'r Arglwydd.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

neu

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Dad nefol,
diolchwn iti am bawb o'r rhai a garwn
 ond na welwn mwyach.
Dyro iddynt dy dangnefedd
a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.
A ninnau yn y lle hwn yn cofio *E.*,
dwg ar gof inni ein dechrau a'n diwedd,
y llwch y daethom ohono
a'r angau yr ydym yn teithio tuag ato,
â gobaith cadarn yn dy gariad tragwyddol
 a'th bwrpas ar ein cyfer,
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir defnyddio gweddïau eraill, a diweddu â:

Dduw gobaith,
caniatâ fod i ni, gyda phawb a gredodd ynot,
gael ein huno mewn llwyr adnabyddiaeth o'th gariad
a gweledigaeth ddigwmwl o'th ogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

YR ANFON ALLAN

Bydded i'r Drindod dragwyddol a gogoneddus,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
gyfarwyddo ein bywyd mewn gweithredoedd da,
a rhoddi inni, ar derfyn ein taith trwy'r byd hwn,
orffwysfa dragwyddol gyda'r saint. **Amen.**

Y LLYFR GWEDDI GYFFREDIN, 1984
TREFN
CLADDEDIGAETH Y MEIRW



DERBYN Y CORFF I'R EGLWYS

Adeg y claddu, neu cyn hynny

Gan gyfarfod â'r corff wrth y fynedfa i'r fynwent, neu wrth borth yr eglwys, â'r Gweinidog o'i flaen, tra dywedir neu cenir un neu fwy o'r brawddegau neu'r salmau hyn:

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

Ioan 11. 25, 26

Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear: yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall.

Job 19. 25, 27

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyh fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

Ioan 14. 1-3

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

Rhufeiniaid 14. 8, 9

Ni ddygasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo Enw yr Arglwydd.

1 Timotheus 6, 7; Job 1. 21

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw.

1 Pedr 1. 3

Salm 27. 1, 4, 5, 9, 11-14

Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth * rhag /
pwy yr / ofnaf?: yr Arglwydd yw nerth fy mywyd * rhag /
pwy / y dych/rynaf?

Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd / hynny a / geisiaf: sef
caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd * i
edrych ar brydferthwch yr Arglwydd * ac i y/mofyn / yn ei /
deml.

Canys yn y dydd blin y'm cuddia o / fewn ei / babell: yn nirgelfa
ei babell y'm cuddia * ar / graig y'm / cyfyd / i.

Na chuddia dy wyneb oddi wrthyf * na fwrw ymaith dy / was
mewn / soriant: fy nghymorth fuost * na ad fi ac na wrthod fi
O / Dduw fy / iachaw/dwriaeth.

Dysg i mi dy / ffordd / Arglwydd: ac arwain fi ar hyd llwybrau
uniondeb * o / herwydd / fy nge/lynion.

Na ddyro fi i fyny i ewyllys / fy nge/lynion: canys gau dystion a
rhai a adroddant drawster * a / gyfo/dasant · i'm / herbyn.

Diffygiaswn pe na chredaswn weled / daioni · yr / Arglwydd:
yn / nhir y / rhai / byw.

Disgwyl wrth yr Arglwydd * ymwrola ac efe a / nertha · dy /
galon: disgwyl, / meddaf, / wrth yr / Arglwydd.

Salm 130

O'r dyfnder y / llefais / arnat: O / - / Ar/glwydd.
Arglwydd / clyw fy / llefain: ystyried dy glustiau wrth / lef / fy
ngwe/ddïau.
Os creffi ar anwi/reddau, / Arglwydd: O / Arglwydd / pwy a /
saif?
Ond y mae / gyda / thi: fa/ddeuant / fel y'th / ofner.
Disgwyliaf am yr Arglwydd disgwyl · fy / enaid: ac yn ei /
air ef / y go/beithiaf.
Fy enaid sydd yn / disgwyl · am yr / Arglwydd: yn fwy nag y
mae y gwylwyr am y bore * yn fwy nag y mae y / gwylwyr /
am y / bore.
Disgwylied Israel / am yr / Arglwydd: oherwydd y mae trugaredd
gyda'r Arglwydd * ac aml ym/warded / gydag / ef.
Ac ef a / wared / Israel: oddi wrth ei / holl / anwi/reddau.

Onis defnyddiwyd yn yr Orymdaith, gellir defnyddio un o'r salmau hyn o flaen y Llith, pan ddygir y corff i'r eglwys y noson cyn y claddu, neu yn lle'r salmau yn Y Gwasanaeth yn yr Eglwys (pan na weinyddir y Cymun Bendigaid).

**DARLLENIADAU A GWEDDÏAU AR NOSWYL
CLADEDIGAETH**

Pan ddygir y corff i'r eglwys ar noswyl y claddu, darllenir un o'r llithoedd a geir yn Y Llithoedd.

Dywed y Gweinidog:

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;
A chyda'th ysbryd dithau.

Gweddiwn.

Arglwydd, trugarha wrthym.
Crist, trugarha wrthym.
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

Yna dyweder un neu fwy o'r gweddïau canlynol, a'r Gras.

Dad pawb oll, gweddïwn arnat dros y rhai a garwn, er eu bod o'n golwg ni. Dyro iddynt dy dangnefedd; llewyrched bythol oleuni arnynt; ac yn dy ddoethineb grasol a'th allu anfeidrol cyflawna ynddynt fwriad daionus dy ewyllys perffaith; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw byw, a orffwysaist mewn beddrod, a thrwy hynny a sancteiddiaist y bedd i fod yn wely gobaith i'th bobl: gwna i ni ddwys ofidio am ein pechodau a fu'n achos dy ddiodefaint, fel, pan orwedd ein cyrff yn y llwch, y gall ein heneidiau fyw gyda thi sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Cantiatâ, O Arglwydd, megis y'n bedyddir ni i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, fod inni felly, trwy farwhau'n wastad ein serchiadau llygredig, gael ein claddu gydag ef; a thrwy'r bedd a phorth angau fynd ymlaen i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannau ef a fu farw, ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

Gellir hefyd ddefnyddio'r ddwy adran flaenorol o'r Drefn hon, neu unrhyw ran ohonynt mewn gwasanaeth yn y tŷ, lle mae'n arfer lleol.

**Y GWASANAETH YN YR EGLWYS
(Os gweinyddir y Cymun Bendigaid)**

Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud:

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein *brawd/chwaer E.* i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau mae gan Gristionogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth. Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

Dechreuir yn awr drefn y Cymun Bendigaid.

Gellir defnyddio un neu'r ddau o'r Colectau hyn:

O Dduw, Crëwr a Gwaredwr pawb sy'n credu: dyro i'th *was/wasanaethferch E.* a'r holl ffyddloniaid ymadawedig ddoniau anchwiliadwy dioddefaint dy Fab, fel yn nydd ei ymddangosiad yr amlygir hwy'n blant i ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

O Dduw, a roddaist dy annwyl Fab i farwolaeth y groes er ein hiachawdwriaeth, a'n gwaredu oddi wrth allu'r gelyn trwy ei atgyfodiad gogoneddus: dyro inni farw beunydd i bechod, fel y byddwn byw byth gydag ef yn llawenydd ei atgyfodiad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darllener un o'r llithoedd, ac eithrio'r Efengylau, a geir yn Y Llithoedd.

Gellir defnyddio'r salm neu'r anthemau canlynol:

Salm 116. 3-8

Gofidion angau a'm cylchynasant * a gofidiau uffern / a'm dal-
iasant: ing a / blinder / a / gefais.

Yna y gelwais ar / enw yr / Arglwydd: Atolwg / Arglwydd /
gwared · fy / enaid.

Graslon yw yr / Arglwydd · a / chyfiawn: a thosturiol / yw ein /
Duw / ni.

Yr Arglwydd sydd yn cadw y rhai / anni/chellgar: tlodais ac
e/fe / a'm ha/chubodd.

Dychwel O fy enaid / i'th or/ffwysfa: canys yr / Arglwydd · fu /
dda / wrthyt.

Oherwydd i ti waredu fy / enaid oddi wrth / angau: fy llygaid
oddi wrth / ddagrau · a'm / traed rhag / llithro.

ANTHEMAU'R PASG: 3-8

Nid yw Crist, * wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, * yn / marw /
mwyach: nid yw marwolaeth yn arglwydd/iaethu / arno /
mwyach.

Canys fel y bu farw * bu farw / unwaith · i / bechod: ac fel y
mae'n byw, * / byw y / mae i / Dduw.

Felly chwithau hefyd, * cyfrifwch eich hunain yn / feirw i /
bechod: eithr yn fyw i Dduw yng / Nghrist / Iesu · ein /
Harglwydd.

Crist a gyfodwyd oddi / wrth y / meirw: ac a wnaed yn /
flaenffrwyth · y / rhai a / hunodd.

Canys gan fod mar/wolaeth · trwy / ddyn: trwy ddyn hefyd y
mae / atgy/fodiad · y / meirw.

Oblegid megis yn Adda y mae / pawb yn / marw: felly hefyd
yng / Nghrist · y byw/heir / pawb.

*Darllener yn Efengyl un o'r rhai a geir yn Y Llithoedd.
Ar ôl y Cymun, dyweder:*

Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofna ef;
Fe gofia ei gyfamod yn dragywydd.

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a roddaist i ni dy Fab Iesu
Grist yn fara'r bywyd tragwyddol: pâr i ni oll sy'n gyfrannog
o'i Gorff a'i Waed gael ein cyfodi y dydd diwethaf ynddo ef,
sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

*Parheir â'r Gwasanaeth yn yr Eglwys gyda'r Cyflwyniant a'r
Diweddglô.*

Y GWASANAETH YN YR EGLWYS (Pan na weinyddir y Cymun Bendigaid)

*Gellir defnyddio'r Gwasanaeth hwn wrth y bedd neu yng nghapel
yr amlosgfa neu'r gladdfa.*

Pan fydd pawb wedi ymgynnull, gall y Gweinidog ddweud:

Yr ydym wedi dod ynghyd i gyflwyno ein *brawd/chwaer E.*
i ddwylo Duw hollalluog, ein Tad nefol. Yn wyneb angau
mae gan Gristionogion sail sicr i obaith a hyder, ie, i
lawenydd, am fod yr Arglwydd Iesu Grist, a fu byw a marw
fel dyn, wedi atgyfodi, gan orchfygu angau, ac yn byw byth.
Ynddo ef, gan hynny, y mae ei bobl yn etifeddion bywyd
tragwyddol, a chan gredu hyn, yr ydym yn gosod ein holl
ymddiried yn ei ddaioni a'i drugaredd.

*Dyweder neu caner un neu fwy o'r salmau canlynol. Gellir dweud neu
ganu yr antiffon hwn o flaen ac ar ôl unrhyw salm neu nifer o salmau.*

**Iachawdwr y byd a'n prynodd trwy dy Groes a'th
werthfawr waed: achub a chymorth ni, O Arglwydd.**

SALM 23

Yr Arglwydd / yw fy / Mugail: ni / bydd eisiau / arnaf.
Efe a wna i mi orwedd mewn por/feydd gwelltog: efe a'm
tywys ger/llaw y / dyfroedd / tawel.
Efe a / ddychwel · fy / enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau
cyf/iawnder · er / mwyn ei / enw.
Ie pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid / ofnaf / niwed:
cans yr wyt ti gyda mi * dy wi/alen · a'th / ffon a'm ·
cy/surant.
Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy / ngwrthwy/nebwyr:
iraist fy mhen ag / olew; · fy / ffiol / sydd / lawn.
Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl / ddyddiau ·
fy / mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr / Arglwydd / yn
dra/gywydd.

SALM 90. 1-6, 10, 12-17

Ti Arglwydd fuost yn bre/swylfa · i / ni: ym / mhob / cen /
hedlaeth.
Cyn gwneuthur y mynyddoedd * a llunio ohonot y / ddaear ·
a'r / byd: ti hefyd wyt Dduw o dragwy/ddoldeb · hyd /
dragwy/ddoldeb.
Trôi / ddyn i / ddinistr; a dywedi, Dy/chwelwch feibion /
dynion.
Cans mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg / di fel / doe: wedi
yr êl heibio ac fel / gwylia/dwriaeth / nos.
Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant * y / maent fel / hun: y
bore y maent fel llys/ieuyn / a ne/widir.
Y bore y blo/deua · ac y /tyf: prynhawn y torrir ef / ymaith /
ac y / gwywa.
Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrigain * ac
os o gryfder y cyrhaeddir pedwar · ugain / mlynedd: eto eu
nerth sydd boen a blinder * cans ebrwydd y derfydd a / ni · a
e/hedwn / ymaith.

Dysg i ni felly / gyfrif · ein / dyddiau: fel y dygom ein / calon / i ddoe/thineb.

Dychwel / Arglwydd · pa / hyd?: ac edifar/ha o / ran dy / weision.

Diwalla ni yn fore / â'th dru/garedd: fel y gorfoleddom ac y llawenychom / dros ein / holl / ddyddiau.

Llawenha ni yn ôl y dyddiau y cys/tuddiaist / ni: a'r bly / nyddoedd · y / gwelsom / ddrygyd.

Gweler dy waith tuag / at dy / weision: a'th o/goniant · tuag at eu / plant hwy.

A bydded prydfertwch yr Arglwydd ein / Duw / arnom ni: a threfna weithred ein dwylo ynom ni * ie / trefna / waith ein / dwylo.

SALM 103. 1-4, 13-18

Fy enaid, ben/dithia · yr / Arglwydd: a chwbl sydd ynof ei / enw / sanctaidd / ef.

Fy enaid, ben/dithia · yr / Arglwydd: ac nac anghofia ei / holl / ddoniau / ef.

Yr hwn sydd yn maddau dy / holl · anwi/reddau: yr hwn sydd yn ia/cháu dy / holl / lesgedd,

Yr hwn sydd yn gwaredu dy / fywyd · o / ddistryw: yr hwn sydd yn dy goroni â thru/garedd · ac / â thos/turi.

Fel y tosturia / tad · wrth ei / blant: felly y tosturia yr Arglwydd wrth y / rhai a'i / hofnant / ef.

Canys efe a edwyn ein / defnydd / ni: cofia / mai / llwch / ydym.

Dyddiau dyn sydd / fel glas/welltyn: megis blodeuyn y maes / felly · y blo/deua · e fe.

Canys y gwynt a â drosto * ac ni bydd / mwy / o/hono: a'i le nid edwyn / ddim o/hono · ef / mwy.

Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb * ar y rhai a'i / hofnant / ef: a'i gyf/iawnder · i / blant eu / plant;

I'r sawl a gadwant ei / gyfamod / ef: ac a gofiant / ei orch-/mynion · i'w / gwneuthur.

SALM 121

Dyrchafaf fy llygaid / i'r my/nyddoedd: o'r / lle y / daw / fy /
nghymorth.

Fy nghymorth a ddaw oddi / wrth yr / Arglwydd: yr hwn a /
wnaeth / nefoedd · a / daear.

Ni ad efe i'th / droed / lithro: ac / ni / hun a · dy / geidwad.
Wele / ni / hun a: ac ni / chwsg / ceidwad / Israel.

Yr Arglwydd / yw dy / geidwad: yr Arglwydd yw dy / gysgod /
ar dy · dde/heulaw.

Ni'th dery yr / haul y / dydd: na'r / lleuad / y / nos.

Yr Arglwydd a'th geidw / rhag pob / drwg: e/fe a / geidw ·
dy / enaid.

Yr Arglwydd a geidw dy fynediad / a'th ddy/fodiad: o'r / pryd
hwn / hyd yn · dra/gywydd.

SALM 139. 1-12

Ar/glwydd / chwiliaist: ac / adna/buost / fi.

Ti a adwaenost fy eis/teddiad · a'm cy/fodiad: de/elli fy /
meddwl · o / bell.

Amgylchyni fy / llwybr · a'm gor/weddfa: a hysbys / wyt · yn
fy / holl / ffyrdd.

Canys nid oes / air · ar fy / nhafod: ond wele Arglwydd / ti
a'i / gwyddost / oll.

Amgylchynaist fi yn / ôl · ac ym/laen: a go/sodaist · dy / law /
arnaf.

Dyma wybodaeth ry / ryfedd · i/mi: uchel yw * ni fedraf /
oddi / wrthi.

I ba le yr af oddi / wrth dy / ysbryd?: ac i ba / le y / ffoaf ·
o'th / wÿydd?

Os dringaf i'r nefoedd / yno · yr wyt / ti: os cyweiriaf fy ngwely
yn / uffern / wele · di / yno.

Pe cymerwn a/denydd · y / wawr: a phe trigwn / yn ei-/
thafodd · y / môr:

Yno hefyd y'm ty/wysai · dy / law: ac y'm / daliai / dy dde-/
heulaw.

Pe dywedwn * Diau y ty/wyllwch · a'm / cuddiai: yna y byddai
y / nos · yn o/leuni · o'm / hamgylch.

Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti * ond y nos a o/leua · fel /
dydd: un ffunud yw ty/wyllwch · a go/leuni · i/ ti.

*Darllener un o'r llithoedd a geir yn Y Llithoedd. Yna gellir canu
emyn.*

Y GWEDDÏAU

Dywed y Gweinidog:

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;
A chyda'th ysbryd dithau.

Gweddiwn.

*Arglwydd, trugarha wrthym.
Crist, trugarha wrthym.
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

**Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddi'r Arglwydd naill ai yn y
fan hon, neu yn y lle a nodir wedi'r Traddodiant.*

Ti, Grist, yw Brenin y gogoniant;
Ti yw tragwyddol Fab y Tad.

Pan orchfygaist holl nerth angau;
Agoraist deyrnas nef i bawb sy'n credu.

Ti sydd yn eistedd ar ddeheulaw Duw yng ngogoniant y
Tad;
Yr ŷm yn credu mai tydi a ddaw yn Farnwr arnom.

Gan hynny yr atolygwn i ti gynorthwyo dy weision;
Y rhai a brynaist â'th werthfawr waed.

Pâr iddynt gael eu cyfrif gyda'th saint;
Yn y gogoniant tragwyddol.

Gall y Gweinidog ychwanegu un neu ragor o'r gweddïau hyn:

Bydd rasol, Arglwydd, wrth ein *brawd/chwaer* ymadawedig,
fel, wedi ei *ryddhau/rhyddhau* oddi wrth rywmau pechod a
marwolaeth, y perffeithir *ef/hi* trwy dy ras a'i *derbyn/derbyn*
i'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Hollalluog Dduw, a ddatguddiaist mai dy annwyl Fab
yw'r atgyfodiad a'r bywyd: gweddiwn arnat ein cyfodi
ni o angau pechod i fywyd cyfiawnder, fel, wedi ymado
â'r bywyd hwn, y gorffwyswn ynddo ef, megis y mae
ein gobaith am ein *brawd hwn/chwaer hon*, a derbyn yn
y diwedd y fendith: Da was da a ffyddlon; dos i mewn i
lawenydd dy Arglwydd. Caniatâ hyn, O Dad trugarog,
trwy Iesu Grist, ein Cyfryngwr a'n Gwardedwr. **Amen.**

Dad nefol, a roddest i ni yn dy Fab Iesu Grist wir ffydd a
gobaith diogel: cymorth ni i fyw fel y rhai sy'n credu ac yn
ymddiried yng nghymun y saint, maddeuant pechodau, a'r
atgyfodiad i fywyd tragwyddol, a chryfha ynom y ffydd a'r
gobaith hwn holl ddyddïau ein bywyd; trwy Iesu Grist ein
Harglwydd. **Amen.**

Hollalluog Dduw, Tad pob trugaredd a rhoddwr pob cysur:
bydd rasol wrth y rhai sy'n galaru, fel trwy fwrw pob gofal
arnat ti, y cânt brofi diddanwch dy gariad; trwy Iesu Grist
ein Harglwydd. **Amen.**

Diolchwn i ti, O Dduw,
am ddatguddio dy gariad a'th ras
yn y rhai sydd wedi byw yn ôl dy ewyllys
ac sy'n awr yn gorffwys.
Gofynnwn am i'w bywyd a'u hesiampl
barhau i'n calonogi a'n harwain
holl ddyddiau ein bywyd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Arglwydd trugarog,
yn dy gariad rhoddaist inni dy Fab
i orchfygu angau
ac i ddwyn bywyd tragwyddol i'th bobl.
Cysura dy weision yn eu profedigaeth,
a chryfha ein ffydd a'n gobaith yn dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

Dad nefol,
ti sy'n noddfa a nerth i ni.
Gofynnwn iti ein cynorthwyo'r awr hon;
cryfha ein ffydd,
dilea ein hofnau,
adnewyddfa ein gobaith.
Arweinied yr Ysbryd Glân ni
trwy dywyllwch ein tristwch
i oleuni dy gariad tragwyddol
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Parheir â'r gwasanaeth gyda'r Cyflwyniant a'r Diweddglo canlynol.

Y CYFLWYNIANT

Dywed y Gweinidog, yn sefyll:

Cyflwynwn ein *brawd/chwaer E.* i ddwylo Duw, ein Crëwr a'n Gwaredwr.

O Dduw, ein Tad nefol, sydd trwy dy allu mawr wedi ein cynysgaeddu â bywyd, ac yn dy drugaredd wedi rhoddi inni fywyd newydd yng Nghrist Iesu: cyflwynwn i'th ofal tosturiol *E.* ein *brawd/chwaer*, trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, a fu farw ac a gyfododd drachefn i'n hachub, ac sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi mewn gogoniant byth bythoedd. **Amen.**

Y DIWEDDGLO

Gorffwys dyro, Grist, i'th weision gyda phawb o'th saint,
lle nid oes gofid mwy na phoen,
na gorthymderau blin a gwae,
ond bywyd yn dragwyddol.

Tydi dy hun yn unig sydd anfarwol,
Creawdwr a Chynhaliwr dyn;
Marwolion ydym ni o bridd y ddaear,
ac i'r un pridd y dychwelwn,
canys felly yr ordeiniaist,
pan greaist ni, gan ddywedyd:
Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli.
I'r llwch y disgyn pawb ohonom ni;
Dan wylo uwch y bedd dyrchafwn gân:
Alelwia, Alelwia, Alelwia.

neu

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

neu

Dyro *iddo/iddi*, O Arglwydd, orffwys tragwyddol;
A llewyrched goleuni gwastadol arno/arni.

neu

Awn ymaith mewn tangnefedd;
Yn enw Crist. **Amen.**

Y TRADDODIANT

Os bydd y tir heb ei gysegro, dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiant y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd.

Yn y lle y rhoddir y corff i'w gladdu dywed y Gweinidog:

Yng nghanol bywyd yr ydym mewn angau; gan bwy y mae i ni geisio ymward, ond gennyt ti, O Arglwydd, sydd am ein pechodau'n gyfiawn yn ddi-clon?

Er hynny, Arglwydd Dduw sancteiddiaf, Arglwydd galluocaf, O iachawdwr sanctaidd a thrugarocaf, na ollwng ni i chwerw boenau angau tragwyddol.

Ti adwaenost, Arglwydd, ddirgelion ein calonnau; na thro dy glustiau thrugarog oddi wrth ein gweddïau; eith arbed ni, O Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluocaf, O iachawdwr sanctaidd a thrugarog, tydi deilyngaf Farnwr tragwyddol, na ad i ni yn ein hawr olaf, er unrhyw boenau angau, syrthio oddi wrthyt.

Os na ddefnyddirwyd y Cyflwyniant eisoes, defnyddier ef yma.

Yna dywed y Gweinidog:

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod enaid ein *brawd hwn/chwaer hon* yn nwylo Duw, yr ydym yn traddodi ei *gorff ef/chorff hi*

(ar lan y bedd)

i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,

(yn yr amlogfa)

i'w amlogi,

(ar y môr)

i'r dwfn,

mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gwael ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sy'n ei alluogi i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

Mi glywais lais o'r nef yn dywedyd, Gwyn eu byd y meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd o hyn allan. Ie. Gwyn eu byd, medd yr Ysbryd: cânt orffwys oddi wrth eu llafur.

Yna, os na ddywedwyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:

Arglwydd, trugarha wrthym.

Crist, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw;

deled dy deyrnas;

gwneled dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.

A maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau a geir o'r blaen, os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.

Y DIWEDDGLO

Arhosed cymorth Duw gyda ni'n wastad a, thrwy ei drugaredd, gorffwysed eneidiau'r ffyddloniaid mewn tangnefedd. **Amen.**

neu

Bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd. wrth i chwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Oblegid ohono ef a thrwyddo ef ac ynddo ef y mae pob peth. Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

neu

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fo gyda ni oll byth bythoedd. **Amen.**

neu

Bydded i Dduw tangnefedd, yr hwn a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfamod tragwyddol, eich cyflawni â phob daioni, er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef; a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

neu

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn ddwyn yr Eglwys gyfan, y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu, i atgyfodiad llawen a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol. **Amen.**

Nodiad.

Gellir defnyddio Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, ar wahân i'r Cyflwyniant, fel Gwasanaeth Coffa. Dylid defnyddio un o'r ffurfiau Diweddglo sy'n dilyn y Cyflwyniant i ddiweddu'r gwasanaeth.

Os bydd pregeth, fe ddaw ar ôl y Llith, neu, os Y Cymun Bendigaidd fydd Y Gwasanaeth yn yr Eglwys, fe ddaw ar ôl yr Efengyl.

Mae Trefn Claddu Llŵch wedi Amlosgiad i'w chael ar ôl Trefn Claddedigaeth Plentyn.

TREFN CLADEDIGAETH PLENTYN

Gan gyfarfod â'r corff a mynd o'i flaen i'r eglwys neu at ian y bedd, dywed y Gweinidog un neu fwy o'r brawddegau hyn:

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

Ioan 11. 25, 26

Myfi yw'r bugail da; yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i.

Ioan 10. 14

Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw.

Mathew 5. 8

Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau. Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau; pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyhch fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi? Ac os af a pharatoi lle i chwi, fe ddof yn ôl, a'ch cymryd chwi ataf fy hun, er mwyn i chwithau fod lle'r wyf fi.

Ioan 14. 1-3

Gyfeillion annwyl, yn awr yr ydym yn blant Duw, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn. Yr ydym yn gwybod, pan amlygir hynny, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

1 Ioan 3. 2

Os byw yr ydym, i'r Arglwydd yr ydym yn byw, ac os marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Prun bynnag ai byw ai marw yr ydym, eiddo'r Arglwydd ydym. Oherwydd pwrpas Crist wrth farw a dod yn fyw oedd bod yn Arglwydd ar y meirw a'r byw.

Rhufeiniaid 14. 8, 9

*Yn yr eglwys gellir yn awr weinyddu'r Cymun Bendigaid.
Gellir defnyddio Mathew 18. 1-5, 10 fel Efengyl. Dilynir y Cymun
Bendigaid gan y Cyflwyniant.*

*Os na weinyddir y Cymun Bendigaid, parheir â'r gwasanaeth fel a
ganlyn:*

SALM 23

Yr Arglwydd / yw fy / Mugail: ni / bydd eisiau / arnaf.
Efe a wna i mi orwedd mewn por/feydd gwelltog: efe a'm
tywys ger/llaw y / dyfroedd / tawel.
Efe a / ddychwel · fy / enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau
cyf/iawnder · er / mwyn ei / enw.
Ie pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau nid / ofnaf / niwed:
canys yr wyt ti gyda mi * dy wi/alen · a'th / ffon a'm ·
cy/surant.
Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy / ngwrthwy/nebwyr:
iraist fy mhen ag / olew; · fy / ffiol / sydd / lawn.
Daioni a thrugaredd yn ddiâu a'm canlynant holl / ddyddiau ·
fy / mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr / Arglwydd / yn
dra/gywydd.

MATHEW 18. 1-5, 10

Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, “Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?” Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, “Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i. Gwylwch rhag i chwi ddirmygu un o'r rhai bychain hyn; oherwydd 'rwy'n dweud wrthyich fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser yn edrych ar wyneb fy Nhad sydd yn y nefoedd.”

Gellir canu emyn.

Y GWEDDIAU

Yr Arglwydd a fo gyda chwi;
A chyda'th ysbryd dithau.

Gweddiwn.

*Arglwydd, trugarha wrthym.
Crist, trugarha wrthym.
Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneled dy ewylllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg. Amen.**

Hollalluog Dduw, ein Tad nefol, a addewaist i ni trwy dy Fab Iesu Grist fywyd tragwyddol: dyro inni gredu'n ddiysgog fod y plentyn hwn yn ddiogel yng ngofal dy gariad tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd sy'n byw ac yn teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

Gellir defnyddio rhai o'r Gweddiâu a geir o'r blaen naill ai yma neu ar ôl y Traddodiant yn ôl dewis y Gweinidog.

Y CYFLWYNIANT

I ti, O Dduw sanctaidd a Thad cariadlon, y cyflwynwn dy blentyn *E.*, a gweddiwn y bydd i ni yn dy amser di dy hun lawenhau *gydag ef/gyda hi* yn dy deyrnas dragwyddol; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd. **Amen.**

**Gellir defnyddio'r Litani Leiaf a Gweddi'r Arglwydd naill ai yn y fan hon, neu yn y lle a nodir wedi'r Traddodiant.*

Y TRADDODIANT

Os bydd y tir heb ei gysegru, dywed yr Offeiriad yn union o flaen y Traddodiant y weddi a geir yn Bendithio'r Bedd.

Yn y lle y rhoddir y corff i'w gladdu dywed y Gweinidog:

Fel y tosturia tad wrth ei blant: felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef. Canys efe a edwyn ein defnydd ni: cofia mai llwch ydym. Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn: megis blodeuyn y maes, felly y blodeua efe. Canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy ohono: a'i le nid edwyn ddim ohono ef mwy. Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai a'i hofnant ef: a'i gyfiawnder i blant eu plant.

Yn ffydd Crist, a chan gredu fod enaid y plentyn hwn yn nwylo Duw, cyflwynwn ei *gorff/chorff*.

(ar lan y bedd)

i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch,

(yn yr amlogfa)

i'w amlogi,

(ar y môr)

i'r dwfn,

mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a newidia ein corff gwael ni, fel y bydd yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef, trwy'r nerth sy'n ei alluogi i ddarostwng pob peth iddo ei hun.

Yna, os na ddywedwyd hyn eisoes yn y Gweddïau, ychwaneger:

Arglwydd, trugarha wrthym.

Crist, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,

sancteiddier dy enw;

deled dy deyrnas;

gwneler dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.

A maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddïau a geir o'r blaen, os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.

Y DIWEDDGLO

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio, a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant, iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwaredwr, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod, cyn yr oesoedd, ac yn awr, ac yn oes oesoedd. **Amen.**

Jwdas 24, 25

CLADDU LLWCH WEDI AMGLOSGIAD

Pan fydd llwch wedi amlosgiad i'w gladdu mewn tir sydd wedi ei gysegru gellir amlosgi heb unrhyw wasanaeth ffurfiol. Yna defnyddier ffurf briodol y Traddodiant i gladdu'r llwch.

Gellir defnyddio'r Gwasanaeth yn yr Eglwys naill ai o flaen yr amlosgiad neu ar ei ôl.

Dylid claddu llwch Cristionogion mewn tir sydd wedi ei gysegru, oddieithr pan gleddir yn y môr. Ni chaniateir i glerigwr yn yr Eglwys yng Nghymru gymryd rhan mewn gwasgaru llwch, ac ni all yntau ychwaith ganiatáu i lwch gael ei wasgaru mewn unrhyw fynwent dan ei ofal.

Pan fydd llwch i'w gladdu, a'r Traddodiant wedi ei ddefnyddio, gall y Gweinidog ddefnyddio'n gyntaf Y Gwasanaeth yn yr Eglwys ynghyd ag unrhyw rai o'r Gweddïau.

Yn y lle y bydd y claddu dywed y Gweinidog:

Gan gredu fod ein *brawd/chwaer* yn gorffwys yng Nghrist, a chan lawenhau yng nghymun y saint, yr ydym yn traddodi ei *llwch/llwch* i'r ddaear mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yna, os na wnaed hyn eisoes, fe ddywedir:

Arglwydd, trugarha wrthym.

Crist, trugarha wrthym.

Arglwydd, trugarha wrthym.

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;**

deled dy deyrnas;

gwneler dy ewyllys;

megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.

A maddau i ni ein dyledion,

fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.

Ac nac arwain ni i brofedigaeth;

eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gellir defnyddio yma rai o'r Gweddiâu a geir or blaen os na ddefnyddiwyd hwy'n barod.

Y DIWEDDGLO

I Frenin tragwyddoldeb, yr anfarwol a'r anweledig a'r unig
Dduw, y byddo'r anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd.

Amen.

BENDITHIO'R BEDD

*Os bydd y tir heb ei gysegru, defnyddier y weddi hon cyn y
Traddodiant.*

O Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, bendithia'r bedd
hwn yn orffwysfa i gorff dy *was/wasanaethferch*; trwy dy
Fab bendigaid, yr atgyfodiad a'r bywyd, sy'n byw ac yn
terynasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, byth heb
ddiwedd. **Amen.**

Y LLITHOEDD

DOETHINEB SOLOMON 3. 1-9

Eithr y mae eneidiau y rhai cyfiawn yn llaw Duw; ac ni chyffwrdd cystudd â hwynt. Y rhai angall oedd yn tybied eu bod hwy yn meirw; a drwg y cyfrifid eu diwedd hwynt, a'u mynediad oddi wrthym ni yn ddinistr: eithr y maent hwy mewn heddwch. Oblegid er eu cystuddio hwy yng ngolwg dynion, y mae eu gobaith hwy yn llawn tragwyddoldeb. A lle y ceryddwyd hwy ychydig, hwy a gânt lawer o fudd: oblegid Duw a'u profodd hwynt, ac a'u cafodd yn addas iddo ei hun. Efe a'u profodd hwynt fel aur yn y ffrwn, ac a'u derbyniodd fel aberth llog. Ac yn amser eu gofwy hwy a ddisgleiriant, ac a redant i mewn ac allan, fel gwreichion mewn sofr. Hwy a farnant genhedloedd, ac a lywodraethant bobloedd; a'u Harglwydd hwy a deyrnasa byth. Y rhai a ymddiriedant ynddo ef a ddeallant y gwirionedd; a'r rhai ffyddlon mewn cariad a arhosant gydag ef: oblegid gras a thrugaredd sydd i'w saint ef, ac efe a ofala dros ei etholedigion.

IOAN 5. 24-29 a 6. 37-40

Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, “Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich fod y sawl sy'n gwrandao ar fy ngair i ac yn credu'r hwn a'm hanfonodd i yn meddu ar fywyd tragwyddol. Nid yw'n dod dan gondemniad; i'r gwrthwyneb, y mae wedi croesi o farwolaeth i fywyd. Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthyich fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab Duw, a'r rhai sy'n clywed yn cael bywyd. Oherwydd fel y mae gan y Tad fywyd ynddo ef ei hun, felly hefyd rhoddodd i'r Mab gael bywyd ynddo ef ei hun. Rhoddodd iddo hefyd awdurdod i weinyddu barn, am mai Mab y Dyn yw ef. Peidiwch â rhyfeddu at hyn, oherwydd y mae amser yn dod pan fydd pawb sydd yn eu beddau yn clywed ei lais ef ac yn dod allan; bydd y rhai a wnaeth ddaioni yn codi i fywyd, a'r rhai a wnaeth ddrygioni yn codi i farn.”

“Bydd pob un y mae'r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi, ac ni

fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi. Oherwydd yr wyf wedi disgyn o'r nef nid i wneud fy ewylllys fy hun ond ewylllys yr hwn a'm hanfonodd i. Ac ewylllys yr hwn a'm hanfonodd i yw hyn: nad wyf i gollu neb o'r rhai y mae ef wedi eu rhoi i mi, ond fy mod i'w hatgyfodi yn y dydd olaf. Oherwydd ewylllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy'n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol. A byddaf fi'n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf."

IOAN 6. 53-58

Dywedodd Iesu wrth yr Iddewon, "Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, oni fwyteuoch gnawd Mab y Dyn ac yfed ei waed, ni bydd gennych fywyd ynoch. Y mae gan yr hwn sy'n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i fywyd tragwyddol yn ei feddiant, a byddaf fi'n ei atgyfodi ef yn y dydd olaf. Oherwydd fy nghnawd i yw'r gwir fwyd, a'm gwaed i yw'r wir ddiod. Y mae'r hwn sy'n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau. Y Tad byw a'm hanfonodd i, ac yr wyf fi'n byw oherwydd y Tad; felly'n union bydd hwnnw sy'n fy mwyta i yn byw o'm herwydd innau. Dyma'r bara a ddisgynnodd o'r nef. Nid yw hwn fel y bara a fwytaodd y tadau; buont hwy farw. Caiff yr hwn sy'n bwyta'r bara hwn fyw am byth.

IOAN 11. 21-27

Dywedodd Martha wrth Iesu, “Pe buasit ti yma, Syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo.” Dywedodd Iesu wrthi, “Fe atgyfoda dy frawd.” “Mi wn,” meddai Martha wrtho, “y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf.” Dywedodd Iesu wrthi, “Myfi yw’r atgyfodiad a’r bywyd. Pwy bynnag sy’n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy’n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti’n credu hyn?” “Ydwyf, Arglwydd,” atebodd hithau, “yr wyf fi’n credu mai tydi yw’r Meseia, Mab Duw, yr Un sy’n dod i’r byd.”

RHUFENIAID 8. 31-39

Os yw Duw trosom, pwy sydd i’n herbyn? Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef? Pwy sydd i ddwyn cyhuddiad yn erbyn etholedigion Duw? Ai Duw, ac yntau’r un sy’n eu dyfarnu yn ddiueog? Pwy sydd yn ein collfarnu? Ai Crist Iesu, ac yntau’r un a fu farw, yn hytrach, a gyfodwyd, yr un sydd ar ddeheulaw Duw, yr un sydd yn ymbil trosom? Pwy a’n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gleddyf? Hyn yn wir yw ein rhan, fel y mae’n ysgrifenedig: “Er dy fwyn di, fe’n rhoddir i farwolaeth ar hyd y dydd, fe’n cyfrifir fel defaid i’w lladd.” Ond yn y pethau hyn i gyd yr ydym yn ennill buddugoliaeth lwyr trwy’r hwn a’n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na’r presennol na’r dyfodol, na grymsterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

1 CORINTHIAID 15. 3-20

Yn y lle cyntaf, traddodais i chwi yr hyn a dderbyniais: i Grist farw dros ein pechodau ni, yn ôl yr Ysgrythurau; iddo gael ei gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ôl yr Ysgrythurau; ac iddo ymddangos i Cephas, ac yna i'r Deuddeg. Yna, ymddangosodd i fwy na phum cant o'r brodyr ar unwaith — ac y mae'r mwyafrif ohonynt yn fyw hyd heddiw, er bod rhai wedi huno. Yna, ymddangosodd i Iago, yna i'r holl apostolion. Yn ddiwethaf oll, fe ymddangosodd i minnau hefyd, fel i ryw erthyl o apostol. Oherwydd y lleiaf o'r apostolion wyf fi, un nad wyf deilwng i'm galw yn apostol, gan i mi erlid eglwys Dduw. Ond trwy ras Duw yr wyf yr hyn ydwyf, ac ni bu ei ras ef tuag ataf yn ofer. Yn wir, mi lafuriais yn helaethach na hwy i gyd — eto nid myfi, ond gras Duw, a oedd gyda mi. Ond prun bynnag ai myfi ai hwy, felly yr ydym yn pregethu, ac felly y credasoch chwithau.

Yn awr, os pregethir Crist, ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw? Os nad oes atgyfodiad y meirw, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith. Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw ein pregethu ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi. Ceir ein bod yn dystion twyllodrus i Dduw, am ein bod wedi tystiolaethu iddo gyfodi Crist — ac yntau heb wneud hynny, os yw'n wir nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi. Oherwydd os nad yw'r meirw yn cael eu cyfodi, nid yw Crist wedi ei gyfodi chwaith. Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, ofer yw eich ffydd, ac yn eich pechodau yr ydych o hyd. Y mae'n dilyn hefyd fod y rhai a hunodd yng Nghrist wedi darfod amdanynt. Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r mwyaf truenus ymhlith dynion. Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno.

1 CORINTHIAID 15. 20-26 a 35-58

Y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno. Gan mai trwy ddyd y daeth marwolaeth, trwy ddyd hefyd y daeth atgyfodiad y meirw. Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist. Ond pob un yn ei briod drefn: Crist y blaenffrwyth, ac yna, ar ei ddyfodiad ef, y rhai sy'n eiddo Crist. Yna daw'r diwedd, pan fydd Crist yn traddodi'r deyrnas i Dduw'r Tad, ar ôl iddo ddileu pob tywysogaeth, a phob awdurdod a gallu. Oherwydd y mae'n rhaid iddo ef ddal i deyrnasu nes iddo osod pob gelyn dan ei draed. Y gelyn olaf a ddileir yw angau.

Ond bydd rhywun yn dweud: "Pa fodd y mae'r meirw yn cael eu cyfodi? Â pha fath gorff y byddant yn dod?" Ddyn ynfyd, beth am yr had yr wyt ti yn ei hau? Ni roddir bywyd iddo heb iddo farw yn gyntaf. A'r hyn yr wyt yn ei hau, nid y corff a fydd ydyw, ond gronyn noeth, o wenith efallai, neu o rywrawn arall. Ond Duw, yn ôl ei ewyllys ei hun, sydd yn rhoi corff iddo, i bob un o'r hadau ei gorff ei hun. Oherwydd nid yr un cnawd yw pob cnawd, ond un peth yw cnawd dynion, peth arall yw cnawd anifeiliaid, peth arall yw cnawd adar, a pheth arall yw cnawd pysgod. Y mae hefyd gyrff nefol a chyrff daearol, ond un peth yw gogoniant y rhai nefol, a pheth gwahanol yw gogoniant y rhai daearol. Un peth yw gogoniant yr haul, a pheth arall yw gogoniant y lloer, a pheth arall yw gogoniant y sêr. Yn wir, y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant.

Felly hefyd y bydd, gyda golwg ar atgyfodiad y meirw. Heuir mewn llygredigaeth, cyfodir mewn anllygredigaeth. Heuir mewn gwaradwydd, cyfodir mewn gogoniant. Heuir mewn gwendid, cyfodir mewn nerth. Yn gorff anianol yr heuir ef, yn gorff ysbrydol y cyfodir ef. Os oes corff anianol, y mae hefyd gorff ysbrydol. Felly, yn wir, y mae'n ysgrifenedig: "Daeth y dyn cyntaf, Adda, yn fod byw." Ond daeth yr Adda diwethaf yn ysbryd sydd yn rhoi bywyd. Eithr nid yr ysbrydol sy'n dod gyntaf, ond yr anianol, ac yna'r ysbrydol. Y dyn cyntaf, o'r ddaear y mae, a llwch ydyw; ond yr ail ddyd, o'r nef y mae.

Y mae'r rhai sydd o'r llwch yn debyg i'r dyn o'r llwch, ac y mae'r rhai sydd o'r nef yn debyg i'r dyn o'r nef. Ac fel y bu delw'r dyn o'r llwch arnom, felly hefyd y bydd delw'r dyn o'r nef arnom.

Hyn yr wyf yn ei olygu, frodyr: ni all cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac ni all llygredigaeth etifeddu anllygredigaeth. Clywch! Yr wyf yn mynegi dirgelwch i chwi: nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid, mewn eiliad, ar drawiad amrant, ar ganiad yr utgorn diwethaf. Oherwydd bydd yr utgorn yn seinio, y meirw yn cael eu cyfodi yn anllygredig, a ninnau'n cael ein newid. Oherwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb. A phan fydd y llygradwy hwn wedi gwisgo anllygredigaeth, a'r marwol hwn wedi gwisgo anfarwoldeb, yna bydd y geiriau hyn sydd yn ysgrifenedig yn dod yn wir: "Llyncwyd angau mewn buddugoliaeth. O angau, lle mae dy fuddugoliaeth? O angau, lle mae dy golyn?" Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r Gyfraith. Ond i Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Felly, fy mrodyr annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer.

DATGUDDIAD 20. 11-13

Gwelais orsedd fawr wen a'r Un oedd yn eistedd arni, hwnnw y ffoesai'r ddaear a'r nef o'i wydd a gadael eu lle yn wag. Gwelais y meirw, y rhai mawr a'r rhai bach, yn sefyll o flaen yr orsedd; ac agorwyd llyfrau. Yna agorwyd llyfr arall, sef llyfr y bywyd; a barnwyd y meirw ar sail yr hyn oedd yn ysgrifenedig yn y llyfrau, yn ôl eu gweithredoedd. Ildiodd y môr y meirw oedd ynddo, ac ildiodd Marwolaeth a Thrigfan y Meirw y rhai oedd ynddynt hwy, ac fe'u barnwyd, pob un yn ôl ei weithredoedd.

ATODIAD

**Y GWASANAETH ANGLADD
ODDI MEWN I'R CYMUN BENDIGAID**



BRAWDDEGAU AR GYFERY TANGNEFEDD

Y Tangnefedd

Gellir darllen brawddeg o'r Ysgrythur:

Crist yw ein heddwch ni. Cymododd ni â Duw mewn un corff ar y Groes. Deuwn ynghyd yn ei enw a rhannwn ei dangnefedd.

Ni yw corff Crist. Mewn un Ysbryd y cawsom i gyd ein bedyddio i un corff. Gadewch inni, felly, geisio'r pethau sy'n arwain i heddwch, ac sy'n nerthu ein bywyd fel cymuned.

Y mae Crist, Tywysog tangnefedd, yn dymchwel y muriau sydd yn ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. Galwodd Duw ni i fyw mewn tangnefedd.

Duw sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod.

Dywedodd Iesu, Dyma fy ngorchymyn: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi.

Yr ydym ni'n gwybod ein bod wedi croesi o farwolaeth i fywyd, am ein bod yn caru'n brodyr a'n chwiorydd. Y mae'r sawl nad yw'n caru yn aros mewn marwolaeth.

Bydded eich cariad yn ddiragrith. Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phob un.

Tros y rhain i gyd gwisgwch gariad, sy'n rhwymyn perffeithrwydd. Bydded i dangnefedd Crist lywio ein penderfyniadau; i'r tangnefedd hwn y cawsom ein galw, yn un corff.

Dywedodd Iesu, Yr wyf yn gadael i chwi fy nhangnefedd; nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi.

Atodiad:

Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw yn blant i Dduw.

Bydd yr Arglwydd yn cyhoeddi heddwch i'w bobl ac i'w ffyddloniaid, ac i'r rhai uniawn o galon.

Yr Adfent

Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau ac i gyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd.

Bydded i Dduw tangnefedd eich gwneud yn gwbl sanctaidd, yn barod ar gyfer dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.

Y Nadolig a'r Ystwyll

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd i bawb y mae'n ymhyfrydu ynddynt.

Ein Gwaredwr Crist yw Tywysog Tangnefedd; ni bydd diwedd ar gynydd ei lywodraeth nac ar ei heddwch.

Y Garawys

Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym feddiant ar heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

Tymor y Dioddefaint

Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chiwi, a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy farw aberthol Crist.

Atodiad:

Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid

Y Pasg a'r Dyrchafael

Dywed Iesu, Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr wyf yn ei roi i chwi. Pe baech yn fy ngharu i, byddech yn llawenhau fy mod yn mynd at y Tad.

Y Pentecost

Y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn farwolaeth, ond y mae bod â'n bryd ar yr Ysbryd yn fywyd a heddwch.

Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunan-ddisgyblaeth. Os yw ein bywyd yn yr Ysbryd, ynddo hefyd bydded ein buchedd.

Tymor y Deyrnas

Teyrnas Dduw yw cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.

Saint

Cyd-ddinasyddion ydym â'r saint ac aelodau o deulu Duw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd a ddaeth a phregethu heddwch i'r rhai pell a heddwch hefyd i'r rhai agos.

Bedydd

Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn eich calonnau; i hyn y cawsoch eich galw, yn un corff. Y mae cariad Duw eisoes wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Diolchgarwch

Tangnefedd yw meithrinfa cyfiawnder, a bydd tangnefeddwyr yn medi ei gynhaeaf.

Atodiad:

Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid

Cenhadaeth

Dywedodd y Crist atgyfodedig, Tangnefedd i chwi! Fel y mae'r Tad wedi fy anfon i, yr wyf fi hefyd yn eich anfon chwi. Yna anadlodd arnynt a dweud: Derbyniwch yr Ysbryd Glân!

Undeb

Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi.

FFURF AR GYFER CYSEGRIAD YCHWANEGOL

Dad nefol, gwranddo ar y weddi a'r diolchgarwch a offrymwn trwy Iesu Grist ein Harglwydd, a gymerodd fara (*a'r/y*) cwpan ac a ddywedodd: Hwn yw fy nghorff (*a hwn yw fy*) ngwaed. Cymerwn ninnau y bara (*a'r/y*) cwpan hwn a gweddïwn y bydd trwy dy Air a'th Ysbryd yn sacrament corff (*a*) gwaed Crist. **Amen.**

Rhan dau

**NODIADAU,
GWASANAETHAU YCHWANEGOL,
DEUNYDD YCHWANEGOL
A SAMPLAU O WASANAETHAU**



I.



Nodiadau ar Y Gwasanaeth Angladd

1. Brawddegau

Gellir dweud brawddegau o'r Ysgrythur wrth ddod i mewn, ar ôl y Rhagarweiniad, neu mewn manau priodol eraill.

2. Derbyn yr Arch

Gellir derbyn yr arch i'r eglwys ar ddechrau'r gwasanaeth, neu'n gynt yn y dydd, neu ar y diwrnod cyn yr angladd. Gellir gosod Cannwyll y Pasg wrth yr arch, a gellir ei chario o flaen yr arch wrth fynd i mewn i'r eglwys. Gellir taenellu'r arch â dŵr wedi ei fendithio wrth fynd â hi i mewn. Gellir hefyd wneud hynny yn ystod y Cyflwyniant neu'r Traddodiant. Gall y teulu, cyfeillion neu aelodau o'r gynulleidfa osod gorchudd galar dros yr arch yn yr eglwys. Gellir gosod symbolau priodol o fywyd a ffydd yr ymadawedig ar yr arch neu'n agos ati cyn neu ar ddechrau'r gwasanaeth, neu ar ôl y weddi a'r emyn agoriadol. Ceir cyfnod o ddistawrwydd. Wrth daenellu, neu osod y gorchudd galar neu'r symbolau, gellir dweud y geiriau yn Adran VIII isod.

3. Ymatebion

Mae'r ymatebion cynulleidfaol yn ddewisol, ac eithrio pan fo'r gwasanaeth angladd yn digwydd yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid.

4. Emynau, Salmau a Darlleniadau.

Awgrymir manau lle y gellir canu emyn, ond gellir gwneud hynny mewn unrhyw fan addas. Darperir detholiad o emynau ac anthemau yn Adran XV isod. Fel rheol, dylid dewis Salmau a Darlleniadau o blith y rhai sydd yn Rhan 1, neu yn Adran XIII isod. Fel rheol, dylid dewis salm. Gall fod ar ffurf fydryddol neu ar ffurf emyn neu gellir defnyddio cân ysgrythurol. Am Gantiglau gweler Adran XIV isod. Rhaid cynnwys darlleniad o'r Beibl bob amser. Gellir darllen testunau priodol heb fod o'r Beibl cyn y Deyrnged.

5. Pregeth a Theyrnged

Prif bwrpas y Bregeth yw cyhoeddi Efengyl marwolaeth ac atgyfodiad Crist yng nghyd-destun marwolaeth yr ymadawedig ac fe ddylai gweinidog awdurdodedig ei phregethu.

Gellir traddodi teyrnged addas, yn fwyaf priodol ar ddechrau'r gwasanaeth. Gellir darllen testun cymwys heb fod o'r Beibl fel y barno'r gweinidog yn ddoeth.

6. Credo

Gellir dweud Credo awdurdodedig neu Ddatganiad awdurdodedig o'r Ffydd ar ôl y Bregeth.

7. Y Traddodiant

Defnyddir y Traddodiant yn y man lle bo'i angen, er enghraifft:

- (a) wrth gladdu corff mewn mynwent neu fynwent eglwys;
- (b) wrth gladdu llwch pan ddigwydd hynny ar yr un dydd â'r amlosgi neu drannoeth; mewn achos o'r fath, defnyddir yn yr amlogfa y weddi "os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu Llwch wedi Amlogiad";
- (c) yn yr amlogfa pan nad yw claddu'r llwch i ddilyn yn union wedyn;
- (ch) wrth gladdu llwch wedi amlogiad heb unrhyw wasanaeth ffurfiol;
- (d) pan gleddir y môr;
- (dd) pan osodir y corff neu'r llwch mewn claddgell, beddadail neu fedd brics; mewn achos o'r fath, gellir defnyddio'r geiriau hyn i'r Traddodiant: "Yr ydym wedi ymddiried ein *brawd/chwaer* i drugaredd Duw, ac yr ydym yn awr yn traddodi ei *gorff/chorff* i'w orffwysfan olaf". Darperir ffurfiau ar gyfer y Cyflwyniant a'r Traddodiant, ond gellir defnyddio ffurfiau awdurdodedig eraill pan fo galw.

8. Claddu Gweddillion

Dylid claddu gweddillion Cristnogion mewn tir cysegredig, ac eithrio pan gleddir y môr. Gan inni yn ein bedydd gael ein claddu gyda Christ, y mae'n addas fod claddedigaeth yn

ein hatgoffa o'r atgyfodiad yr ydym yn ei rannu ag ef. Mae claddu'r gweddillion yn sicrhau ffordd barchus o ymadael â'r corff ac, o'i osod mewn cyd-destun Cristnogol â gweddiâu addas, rhydd gynhaliaeth fugeiliol i'r teulu a lle ar gyfer gweddiö a choffáu yn y broses hir o alaru.

Ni ddylai Clerig na Darlennydd yn yr Eglwys yng Nghymru gymryd rhan mewn gwasgaru gweddillion, ac ni ddylai Clerig ganiatáu gwasgaru gweddillion oddi mewn i unrhyw fynwent yn ei ofal.

9. Y Gwasanaeth Angladd oddi mewn i'r Cymun Bendigaid

Y mae'r Nodiadau ar y Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid a'r Nodiadau ar y Gwasanaeth Angladd yr un mor berthnasol â'i gilydd i'r gwasanaeth hwn. Awgrymir testunau mewn gwahanol fannau, ond gellir defnyddio testunau eraill. Yn Litwrgi'r Gair dylid bod un neu ddau ddarlleniad o'r Beibl a darlleniad o'r Efengyl yn dilyn.

II.

Gwasanaeth yn y Cartref Cyn yr Angladd



Gellir canu emynau lle bo'n briodol.

Paratoad

Yn ein galar y mae'r Arglwydd yn ein plith ac yn ein cysuro â'i air:

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.

Mathew 5. 4

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, y Tad sy'n trugarhau a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch. Y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder.

2 Corinthiaid 1. 3-4

*Rhan dau: Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol
a samplau o wasanaethau*

Nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid.
Oherwydd bydd yr utgorn yn seinio, y meirw'n cael
eu cyfodi yn anllygredig, a ninnau'n cael ein newid.
Oherwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth,
a'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb.
Nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid.
cf 1 Corinthiaid 15. 51-53

*Gellir defnyddio'r darlenniadau hyn neu ddarlenniadau addas eraill:
1 Thesalonicaid 4. 13-15
Salm 121
Ioan 11. 21-25*

Gweddïau

O Dduw, rhoddaist ynom anadl einioes
ac, wrth i ti ei gymryd ymaith,
byddwn yn marw yn dy freichiau.
Yn ein galar a'n braw
cynnal a chysura ni;
cofleidia ni â'th gariad,
dyro inni obaith yn ein dryswch
a gras i ildio i fywyd newydd;
trwy Iesu Grist. **Amen.**

Gall y gweddïau hyn neu weddïau eraill ddilyn:

Dad nefol,
ti yw ein noddfa a'n nerth.
Cynorthwya a chysura ni heddiw:
cryfha ein ffydd, dilea ein hofnau, adnewyddda ein gobaith.
Arweinied yr Ysbryd Glân ni o dywyllwch ein galar
i oleuni dy bresenoldeb;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dduw pob diddanwch,
yn dy gariad a'th drugaredd diderfyn
yr wyt yn troi tywyllwch marwolaeth yn wawr bywyd newydd.

Trwy farw drosom gorchfygodd dy Fab farwolaeth
a thrwy gyfodi drachefn adferodd inni fywyd tragwyddol.
Bydded inni felly fynd rhagom yn eiddgar i gwrdd â'n
Hiachawdwr
ac, wedi ein bywyd ar y ddaear,
ein haduno â'n holl frodyr a'n chworiorydd yn dy deyrnas
dragwyddol,
lle y sychir ymaith bob deigryn
ac y gwneir pob peth yn newydd;
trwy Iesu Grist ein Gwarddwr. **Amen.**

Dduw cariadus,
galluoga ni i glywed y newyddion da
am drechu angau ac adnewyddu bywyd:
fel, a ninnau'n wynebu dirgelwch marwolaeth,
y cawn gipolwg ar oleuni tragwyddoldeb;
trwy Grist ein Hiachawdwr atgyfodedig. **Amen.**

Diweddglo

Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i'ch cadw rhag syrthio,
a'ch gosod yn ddi-fai a gorfoleddus gerbron ei ogoniant,
iddo ef, yr unig Dduw, ein Gwarddwr,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
y byddo gogoniant a mawrhydi,
gallu ac awdurdod,
cyn yr oesoedd,
ac yn awr, a byth bythoedd. **Amen.**

cf: fwordas 24-25

III.

Derbyn yr Arch i'r Eglwys Cyn yr Angladd



*Gellir derbyn yr arch i'r eglwys ar ddechrau'r Gwasanaeth
Angladd, neu'n gynt yn y dydd, neu ar y diwrnod cyn yr angladd.
Dylid gosod Cannwyll y Pasg wrth ben uchaf yr arch.*

Derbyn yr Arch

Y mae'r gweinidog yn derbyn yr arch wrth ddrws yr eglwys ac yn dweud:

Derbyniwn gorff ein *brawd/chwaer E.* gan ymddiried yn Nuw, rhoddwr bywyd, a gyfododd yr Arglwydd Iesu o blith y meirw.

Gellir taenellu'r arch â dŵr a fendithiwyd, a dweud y geiriau hyn:

Âr dŵr hwn dygwn i gof fedydd *E.* Fel yr aeth Crist trwy ddyfroedd dyfnion marwolaeth er ein mwyn, felly dyged ni i gyflawnder bywyd yr atgyfodiad gyda *E.* a phawb a waredwyd.

neu

Caniatâ, O Arglwydd, i ni a fedyddiwyd i farwolaeth dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist, farwhau'n wastad ein dymuniadau llygredig, a chael ein claddu gydag ef; a, thrwy'r bedd a phorth angau, yr awn rhagom i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir defnyddio'r brawddegau a ganlyn, neu frawddegau addas eraill o'r Ysgrythur.

Gall y gweinidog ychwanegu 'Alelwia' at unrhyw un o'r brawddegau hyn.

Ioan 11. 25, 26

Rhufeiniaid 8. 38, 39

1Thesaloniaid 4. 14, 17b, 18

1Timotheus 6. 7; Job 1. 21b

Galarnad 3. 22, 23

Mathew 5. 4

Ioan 3. 16

Rhan dau: Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol a samplau o wasanaethau

Pan fo'r arch yn ei lle, y mae'r gweinidog yn gweddiö gan ddweud y geiriau a ganlyn neu eiriau addas eraill:

Dduw ein Tad,

trwy gyfodi Crist dy Fab dinistriaist rym marwolaeth
ac agor inni'r ffordd i fywyd tragwyddol.

A ninnau'n cofio ger dy fron ein *brawd/chwaer E.*,
gofynnwn am dy gymorth i bawb a ddaw ynghyd i'w *goffáu/*
chhoffáu.

Dyro inni sicrwydd o'th bresenoldeb a'th ras, trwy'r Ysbryd
a roddest inni yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Gall aelodau o'r teulu, cyfeillion neu aelodau o'r gymulleidfa osod
gorchudd galar dros yr arch, a gellir dweud y geiriau hyn:*

Yr ydym eisoes yn blant Duw, ond nid amlygwyd eto beth
a fyddwn.

Yr ydym yn gwybod, pan fydd Crist yn ymddangos, y
byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

neu

Ar Fynydd Seion fe ddifa Duw y gorchudd o alar
a daenwyd dros yr holl bobloedd.

Llyncir angau mewn buddugoliaeth a sychir ymaith y
dagrau oddi ar bob wyneb.

Gellir gosod Beibl ar yr arch, a gellir dweud y geiriau hyn:

O Arglwydd Iesu Grist,

dwg dy air bywiol ac anfarwol ni i enedigaeth newydd.

Yn y Beibl datgenir dy addewidion tragwyddol i ni ac i *E.*

Gellir gosod croes ar yr arch, a gellir dweud y geiriau hyn:

O Arglwydd Iesu Grist,

o gariad at *E.* ac at bob un ohonom dygaist ein pechodau
ar y groes.

Darlleniadau a Gweddïau

Dad nefol,
fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth,
ond i fyw gyda thi am byth.
Hebot ti nid oes gennym ddim i obeithio amdano;
gyda thi, nid oes gennym ddim i'w ofni.
Llefara wrthym yn awr eiriau dy fywyd tragwyddol.
Cyfod ni o boen meddwl ac euogrwydd
i oleuni a thangnefedd dy bresenoldeb,
a gosod ogoniant dy gariad o'n blaen;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gellir darllen Ioan 14. 1-6 neu ddarlleniadau addas eraill, ynghyd â salmau a gweddïau; hefyd gellir cael cyfnod o ddistawrwydd.

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn caru pob peth a wnaethost ac yn ein barnu â
thrugaredd a chyfiawnder diderfyn.
Llawenhawn yn dy addewidion o faddeuant a thangnefedd
i bawb sy'n dy garu.
Yn dy drugaredd tro nos marwolaeth yn wawrddydd bywyd
newydd a galar ein gwahanu yn llawenydd y nefoedd;
trwy ein Hiachawdwr Iesu Grist, a fu farw ac a gyfododd
drachefn ac sy'n byw byth bythoedd. **Amen.**

Gweddï i Gloi

Dywed y gweinidog un neu ragor o'r gweddïau hyn:

Bu farw *E.* yn nhangnefedd Crist.
Wrth inni adael ei *gorff/chorff* yma, ymddiriedwn *ef/hi*,
mewn gobaith a ffydd yn y bywyd tragwyddol,
i gariad a thrugaredd ein Tad,
ac amgylchwn *ef/hi* â'n cariad a'n gweddïau.
(Yn ei *fedydd/bedydd*, fe'i gwnaed trwy fabwysiad yn
blentyn Duw.)
(Yn y Cymun, fe'i cynhaliwyd ac fe'i porthwyd. Y mae

Duw yn awr yn ei groesawu/chroesawu i'w fwrdd yn y
nefoedd i rannu bywyd tragwyddol â'i holl saint.)

Dduw pob diddanwch,
torrodd dy Fab Iesu Grist i wylu
wrth fedd Lasarus ei ffrind.
Edrych yn drugarog ar dy blant yn eu colled;
dyro i galonnau gofidus oleuni gobaith
a chryfha ynom ddawn ffydd
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Yr Arglwydd Dduw hollalluog yw ein Tad:
y mae'n ein caru ac yn gofalu'n dyner amdanom.
Yr Arglwydd Iesu Grist yw ein Gwarddwr:
fe'n prynodd ac fe'n hamddiffyn hyd y diwedd.
Y mae'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, yn ein plith:
bydd yn ein harwain yn ffordd sanctaidd Duw.

I Dduw Hollalluog, Tad, Mab ac Ysbryd Glân:
y byddo'r moliant a'r gogoniant yn awr a hyd byth. **Amen.**

Gall y gwasanaeth ddiweddu â chyfnod o ddistawrwydd.

IV. **Gwylfa Angladd**



*Gall yr wylfa fod yn rhan o wasanaeth yn yr eglwys cyn yr
Angladd, neu'n wasanaeth ar wahân. Gall fod yn yr eglwys, yn y
cartref, neu mewn man addas arall, megis capel ysberty. Gellir hefyd
ei harfer gydag aelodau o'r teulu neu gyfeillion agos na allant,
oherwydd gwaeledd neu resymau o'r fath, ddod i'r Angladd. Os
yw'r wylfa yn rhan o wasanaeth arall, gellir hepgor y DodYnghyd
a'r Diweddglo.*

Y Dod Ynghyd

Arglwydd, agor ein gwefusau:
a'n genau a fynega dy foliant.

Bendigedig wyt ti, Dduw trugaredd a chariad,
bugail ac amddiffynnydd dy bobl alarus,
eu dechrau a'u diwedd.

Arwain ni i fan lle y mae tangnefedd ac adfywhad;
tywys ni at ffynhonnau'r dyfroedd bywiol;
sych ymaith bob deigryn o'n llygaid
a dwg ni i'r nefoedd

lle nad oes marw mwyach, na galar, nac wylo, na phoen
yn dy bresenoldeb di,

Dad, Mab ac Ysbryd Glân:

Bendigedig fyddo Duw am byth.

Iesu Grist ddoe a heddiw,
y dechrau a'r diwedd,
yr Alfa a'r Omega;
iddo ef y perthyn yr holl amseroedd a'r oesoedd;
iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu
ym mhob oes ac am byth. **Amen.**

Os goleurir canhwyllau:

Bydded i oleuni Crist, yr hwn sy'n cyfodi mewn gogoniant,
ymlid pob tywyllwch o'n calonnau a'n meddyliau.

Darlleniad neu Ddarlleniadau Addas

Y mae awgrymiadau yn dilyn.

Sicrwydd a Diddanzwch:

Eseia 61. 1-3: Cysuro pawb sy'n galaru.

Salm 139

Salm-weddi:

Arglwydd,
ti sydd wedi ein creu a'n llunio,
yr wyt wedi ein chwilio a'n hadnabod,
yr wyt bob amser gyda ni mewn goleuni a thywyllwch:
cynorthwya ni i adnabod dy bresenoldeb yn y bywyd hwn
ac, yn y bywyd a ddaw, i barhau i fod gyda thi,
lle'r wyt yn fyw ac yn teyrnasu,
yn Dduw am byth. **Amen.**

1 Pedr 1. 3-9: Ganwyd ni o'r newydd i obaith bywiol.

Cantigl: Cân Plant Duw

Ioan 14. 1-6: Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau.

Ffyddlondeb Duw:

Eseia 53.1-10: Y gwas dioddefus.

Salm: 116. 1-8 (9-17)

Salm-weddi:

Arglwydd bywyd,
rhodiwn drwy dragwyddoldeb yn dy bresenoldeb.
Arglwydd marwolaeth, galwn arnat yn ein gofid a'n galar:
ac yr wyt ti yn ein clywed a'n hachub.
Gwylia drosom wrth inni alaru am dy *was/wasanaethferch*,
sy'n werthfawr werthfawr yn dy olwg,
a chadw ni'n ffyddlon i ti. **Amen.**

Rhan dau: Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol a samplau o wasanaethau

Rhufeiniaid 8. 31-diwedd:

Ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Crist.

Datguddiad 21. 1-7:

Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.

Cantigl: Cân y Rhai a Gyfiawnhawyd.

Ioan 6. 35-40 (53-58):

Bydd pob un y mae'r Tad yn ei roi i mi yn dod ataf fi

Gobaith am y Nefoedd:

Doethineb Solomon 3. 1-5, 9:

Y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw

Salm: 25.1-9.

Salm-weddi:

Dduw ein hiachawdwriaeth,
yn ein galar dyrchafwn ein calonnau atat ti
a rhoddwn ein ffydd ynot ti.
Tosturia wrthym, maddau inni,
a châr ni hyd dragwyddoldeb,
dysg ni a thywys ni ar y ffordd sydd o'n blaen
yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **Amen.**

Rhufeiniaid 8. 18-25 (26-30): Y gogoniant sydd i ddod.

Datguddiad 21. 22-diwedd; 22. 3b-5:

Yr Arglwydd Dduw fydd eu goleuni.

Cantigl: Cân o Ffydd.

Ioan 14. 1-6: Yn nhŷ fy Nhad y mae llawer o drigfannau.

Y Pasg:

Job 19. 23-27: Gwn fod fy Amddiffynnwr yn fyw.

Salm: 32

Salm-weddi:

Arglwydd, ein cysgod mewn cyfyngder,
dygi ein heuogrwydd i gof.
Y mae dy law yn drwm arnom;
sychwyd ein nerth
ac yr ydym yn cydnabod yn agored ein heuogrwydd.
Amgylcha ni â'th drugaredd.
Dysg ni i ymddiried ynot, a dwg ni yn y diwedd
i lawenhau yn dy bresenoldeb am byth. **Amen.**

2 Timotheus 2. 8-13:

Os buom farw gydag ef, byddwn fyw hefyd gydag ef.

Cantigl: Cân y Rhai a Brynwyd.

Ioan 11. 17-27: Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.

Yr Adfent:

Daniel 12. 1-3 (5-9):

Pob un yr ysgrifennwyd ei enw yn y llyfr.

Salm: 27

Salm-weddi:

O Dduw ein hamddiffynnwr,
dyro inni oleuni gwirionedd a doethineb
fel y gosodwn ein holl obaith yn ddiysgog arnat ti
a'th Fab, Iesu Grist. **Amen.**

Cantigl: Cân Manasse

Mathew 25. 31-diwedd: Y farn olaf

Marwolaeth Annisgwyl:

Doethineb Solomon 4. 8-11, 13-15:

Nid hirhoedledd sy'n rhoi ei werth i henaint.

Salm 6

Salm-weddi:

O Arglwydd, pylodd ein llygaid gan ofid;
gwyddost ein bod wedi diffygio gan ein cwynfan.
A ninnau, yng ngwacter tywyll y nos
yn cofio am ein marwolaeth
trugarha wrthym ac iachâ ni;
maddau inni a dwg ymaith ein hofn
trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu dy Fab. **Amen.**

2 Corinthiaid 4. 7-15:

Dygwn yn ein corff farwolaeth Iesu.

Cantigl: Nunc Dimittis (Cân Simeon).

Luc 12. 35-40: Dyfodiad Mab y Dyn.

Plentyn:

2 Samuel 12. 16-23: Marw mab Dafydd.

Salm 38. 9-diwedd

Salm-weddi:

Arglwydd, trugarha wrth y sawl
sy'n galaru ar hyd y dydd,
wedi eu llethu gan faich o ofid, eu nerth yn pallu,
a'u cyfeillion a'u cymdogion wedi cilio.
Gwyddost am ein holl ocheneidio a'n dyheu:
bydd yn agos atom a dysg i ni obeithio ynot ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Rhan dau: Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol
a samplau o wasanaethau*

Doethineb Solomon: 4. 8-11, 13-15:
Nid hirhoedledd sy'n rhoi ei werth i henaint.

Cantigl: Cân Sant Anselm.

Luc 12. 35-40: Dyfodiad Mab y Dyn.

Gweddï i Gloi

Dywed y gweinidog y geiriau hyn neu ddiweddglo addas arall:

Yr Arglwydd Dduw hollalluog yw ein Tad:
y mae'n ein caru ac yn gofalu'n dyner amdanom.
Yr Arglwydd Iesu Grist yw ein Gwarddwr:
fe'n prynodd a bydd yn ein hamddiffyn hyd y diwedd.
Y mae'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, yn ein plith:
bydd yn ein harwain yn ffordd sanctaidd Duw.

I Dduw Hollalluog, Tad, Mab ac Ysbryd Glân:
y byddo'r moliant a'r gogoniant yn awr a hyd byth. **Amen.**

V.

Ar Fore'r Angladd



*Bwriedir i'r gwasanaeth hwn gynnig ysbaid i gofio cyn mynd i'r
Angladd. Gall cyfaill, aelod o'r teulu neu weinidog ei arwain.*

Paratoad

Wrth inni gychwyn ar ein taith heddiw, gweddiwn am
bresenoldeb Crist, a aeth y ffordd hon o'n blaen.

Arglwydd Iesu, dangosaist inni'r ffordd at y Tad:

Arglwydd, trugarha.

Arglwydd Iesu, y mae dy air yn llewyrch i'n llwybr:

Crist, trugarha.

Arglwydd Iesu, ti yw'r bugail da sydd yn ein tywys i fywyd
tragwyddol:

Arglwydd, trugarha.

Y Gair

Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei
dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy
ffyddlondeb.

Dywedais, "Yr Arglwydd yw fy rhan, am hynny disgwyliaf
wrtho." Da yw'r Arglwydd i'r rhai sy'n gobeithio ynddo,
i'r rhai sy'n ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am
iachawdwriaeth yr Arglwydd.

Oherwydd nid yw'r Arglwydd yn gwrthod am byth;
er iddo gystuddio, bydd yn trugarhau yn ôl ei dosturi
mawr, gan nad o'i fodd y mae'n dwyn gofid ac yn
cystuddio pobl.

Galarnad 3. 22-26, 31-33

Gweddi

Dad nefol,

fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth,
ond i fyw gyda thi am byth.

Hebot ti nid oes gennym ddim i obeithio amdano;
gyda thi, nid oes gennym ddim i'w ofni.

Llefara wrthym yn awr eiriau dy fywyd tragwyddol.

Cyfof ni o boen meddwl ac euogrwydd

i oleuni a thangnefedd dy bresenoldeb,

a gosod ogoniant dy gariad o'n blaen;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

VI.

Rhagarweiniad Bugeiliol i'r Gwasanaeth Angladd



Y mae cariad a gallu Duw yn ymestyn dros y greadigaeth gyfan. Yng ngolwg Duw mae pob bywyd yn werthfawr. Cred y Cristion bob amser yw bod gobaiith mewn angau fel sydd mewn bywyd, a bod bywyd newydd yng Nghrist y tu draw i farwolaeth.

Dywedodd Iesu,

“Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth”.

Ioan 11. 25, 26

Y mae gwir ymdeimlad o golled pan fydd farw un sy'n annwyl gennym. Fe fydd gan bawb ohonom ein profiadau ein hunain o'r ymadawedig ac atgofion a theimladau gwahanol o gariad, galar a pharch. Dylai cydnabod hyn ar ddechrau'r gwasanaeth ein cynorthwyo i fynegi ein ffydd a'n teimladau wrth ffarwelio. Dylai hefyd ein cynorthwyo i gydnabod ein colled a myfyrio ar ein meidroldeb ni ein hunain. Y mae angen cefnogaeth a chysur ar y rhai sy'n galaru. Y mae ein presenoldeb ni yma heddiw yn rhan o'r gefnogaeth gyson honno.

VII.

Amlinelliad o'r Drefn ar gyfer Angladdau



Y Dod Ynghyd

1. Gall y gweinidog dderbyn yr arch wrth y drws.
2. Gellir darllen brawddegau o'r ysgrythur.

Cyflwyniad

3. Mae'r gweinidog yn croesawu'r bobl ac yn cyflwyno'r gwasanaeth.
4. Gellir canu emyn.
5. Dywedir y Colect.

Darlleniadau a Phregeth

6. Defnyddir un neu fwy o ddarlleniadau o'r Beibl.
7. Gall Salmau neu emynau ddilyn y darlleniadau.
8. Gellir traddodi pregeth.

Gweddïau

9. Mae'r gweddïau fel arfer yn dilyn y drefn hon:
 - † *Diolchgarwch am fywyd yr ymadawedig.*
 - † *Gweddi dros y rhai sy'n galaru.*
 - † *Gweddi am y parodrwydd i fyw yng ngoleuni.*
- tragwyddoldeb.*

10. Gellir canu emyn.

Cyflwyniant a Ffarwelio

11. Cyflwynir yr ymadawedig i Dduw.

Y Traddodiant

12. Traddodir y corff i'w orffwysfan.

Yr Anfon Allan

13. Gellir adrodd Gweddi'r Arglwydd.
14. Gellir defnyddio'r Nunc Dimittis.
15. Gellir dweud gweddïau addas.
16. Gall y gwasanaeth orffen â bendith.

Os bydd y Gwasanaeth Angladd yn digwydd mewn gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid, dilynr yr adranau priodol ar gyfer y rhan honno o'r gwasanaeth.

VIII. Testunau Atodol



Brawddegau

Dengys Duw inni lwybr bywyd;
yn ei bresenoldeb ef y mae digonedd o lawenydd,
ac yn ei ddeheulaw fwyniant bythol.

cf. Salm 16. 10.

O'r dyfnderau y gwaeddais arnat,
O Arglwydd. Arglwydd, clyw fy llef;
bydded dy glustiau'n agored i lef fy ngweddi.

cf. Salm 130. 1-2

Gwn fod fy Mhrynwr yn fyw,
ac y saif yn y diwedd ar y ddaear;
ac wedi i'm croen ddifa fel hyn,
eto o'm cnawd caf weld Duw.
Fe'i gwelaf ef o'm plaid;
ie, fy llygaid fy hun a'i gwêl, ac nid yw'n ddieithr.

Job 19. 25-27

Gan inni gredu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd credwn
y bydd Duw, gydag ef, yn dod â'r rhai a hunodd drwy Iesu.
Ac felly byddwn gyda'r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch
eich gilydd, felly, â'r geiriau hyn.

1 Thesaloniaid 4. 14, 17b, 18

Ni ddaethom â dim i'r byd,
ac felly hefyd ni allwn fynd â dim allan ohono.
Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith.
Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.

1 Timotheus 6. 7; Job 1: 21b

Mewn gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid:

Dywedodd Iesu:

“Y mae gan y sawl sy'n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy
ngwaed i fywyd tragwyddol, a byddaf fi'n ei atgyfodi yn y
dydd olaf.” (Alelwia!)

Ioan 6. 54

Salm 46. 1

Pregethwr 5. 15, 16

Galarnad 3. 22, 23

Mathew 5. 4

Mathew 25. 34

Luc 23. 43

Ioan 3. 16

Ioan 6. 40

Ioan 11. 25, 26

Ioan 14. 2, 3

Rhufeiniaid 8. 38, 39

1 Corinthiaid 2. 9-10a

1 Corinthiaid 15. 25, 26

2 Corinthiaid 1. 3, 4

2 Corinthiaid 5. 1

Rhai testunau y gall y gweinidog eu defnyddio:

Derbyn yr Arch

Derbyniwn gorff ein *brawd/chwaer E.*

â hyder yn Nuw, rhoddwr bywyd,

a gyfododd yr Arglwydd Iesu o blith y meirw.

Taenellu Dŵr a Fendithiwyd ar yr Arch

Âr dŵr hwn dygwn i gof fedydd *E*.
Megis yr aeth Crist trwy ddyfroedd dyfnion marwolaeth er
ein mwyn, felly dyged ni i gyflawnder bywyd yr atgyfodiad
gyda *E*. a phawb a brynwyd.

neu

Caniatâ, O Arglwydd,
i ni a fedyddiwyd i farwolaeth
dy Fab ein Hiachawdwr Iesu Grist,
farwhau'n wastad ein dymuniadau llygredig,
a chael ein claddu gydag ef;
a, thrwy'r bedd a phorth angau,
yr awn rhagom i'n hatgyfodiad llawen;
trwy ei haeddiannau ef, a fu farw, ac a gladdwyd,
ac a gyfododd drachefn er ein mwyn,
dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gosod Gorchudd Galar dros yr Arch

Yr ydym eisoes yn blant Duw,
ond nid amlygwyd eto beth a fyddwn.
Yr ydym yn gwybod, pan fydd Crist yn ymddangos,
y byddwn yn debyg iddo,
oherwydd cawn ei weld ef fel y mae.

neu

Ar Fynydd Seion fe symuda Duw y gorchudd o alar
sydd dros yr holl genhedloedd.
Fe ddinistria angau am byth,
a sychu ymaith y dagrau oddi ar bob wyneb.

Gosod Beibl ar yr Arch

O Arglwydd Iesu Grist,
dwg dy air bywiol ac anfarwol ni i enedigaeth newydd.
Yn y Beibl datgenir dy addewidion tragwyddol i ni ac i *E*.

Gosod Croes ar yr Arch

O Arglwydd Iesu Grist,
o gariad at *E.* ac at bob un ohonom dygaist ein pechodau
ar y groes.

Bendithio Bedd

O Dduw,
y gosodwyd dy Fab Iesu Grist mewn bedd:
gweddiwn ar i ti fendithio'r bedd hwn
fel y bo'n breswylfa dawl lle gall corff *E.*
dy *was/wasanaethferch* orffwys mewn tangnefedd,
trwy dy Fab, yr atgyfodiad a'r bywyd;
a fu farw ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn awr a hyd byth. **Amen.**

IX. Angladd Plentyn



Nodiadau

1. Y mae'r Nodiadau cyffredinol ar y Gwasanaeth Angladd (adran I) a Strwythur y Drefn ar gyfer Gwasanaethau Angladd (adran VII) yr un mor berthnasol i'r gwasanaeth hwn.
2. Dylid croesawu presenoldeb plant bach yn angladd plentyn, a dylid bod yn effro i'w hanghenion. Y mae'n gymorth arbennig os oes oedolyn addas a all ofalu am y plant i gyd.
3. Dylid sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n llywyddu gydol y gwasanaeth, pwy sy'n agor y gwasanaeth ac yn ei gloi, ac nad yw nifer y siaradwyr, yr eitemau cerddorol a'r darlenniadau heb fod o'r Beibl yn rhwystro'r gwasanaeth rhag canolbwyntio ar glywed gair Duw, gweddïo a diolch.
4. Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylid defnyddio enw'r plentyn yn nhestun y gwasanaeth.
5. Efallai y bydd rhiant am gario arch plentyn ieuanc iawn neu faban.
6. Pan weinyddir y Cymun a phlant yn bresennol, dylid defnyddio gweddïau ewcharistaidd priodol.

Adnoddau at Angladd Plentyn

Y mae'r adnoddau hyn yn addas ar gyfer gwahanol achlysuron a gwahanol oedrannau.

Y Dod Ynghyd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi:
A'th gadw di yng nghariad Crist.

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfodwyd er gogoniant Duw Dad.

Daethom ynghyd i addoli Duw.
Bu ei Fab Iesu farw ar y groes
er mwyn inni gael bywyd tragwyddol.
Diolchwn i Dduw am ei gariad;
cofiwn am fywyd daearol *E. bach/fach*;
a gweddiwn y caiff ei *rieni/rhieni E. a E.*,
a'i frawd/brawd E. a'i chwaer E. eu cysuro yn eu tristwch.
Daethom ynghyd i alaru gyda'n gilydd ac i gyflwyno *E.*
i ofal cariadus Duw.

Brawddegau Rhagarweiniol

Rwy'n dweud wrthych fod angylion y rhai bychain hyn bob
amser yn edrych ar wyneb fy Nhad sydd yn y nefoedd.

cf. Mathew 18. 10b

Rhufeiniaid 8. 38, 39

Datguddiad 7. 17

1 Ioan 3. 2

Marc 10. 14

Eseia 66. 13

Gweddïau Agoriadol

Dduw pob trugaredd,
ni fyddi'n gwneud dim yn ofer
ac yr wyt yn caru pob peth a wnaethost.
Cysura ni yn ein galar,
a chynnal ni ag ymwybod o'th gariad di-ffael,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Dduw, rhoddaist ynom anadl einioes
ac, wrth i ti ei gymryd ymaith,
byddwn yn marw yn dy freichiau.
Yn ein galar a'n braw cynnal a chysura ni;
cofleidia ni â'th gariad,
dyro inni obaith yn ein dryswch
a gras i ildio i fywyd newydd;
trwy Iesu Grist. **Amen.**

Dduw cariad,
unaist ni mewn bywyd â *E. / â'r rhai a garwn*,
ac agoraist borth y nefoedd
trwy ddiodefaint ac atgyfodiad Iesu;
edrych arnom yn dy drugaredd,
dyro inni ddewrder i wynebu ein galar
a dwg ni oll i gyflawnder y bywyd atgyfodedig;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Darlleniadau

Gall un o'r darnau a ganlyn o'r Ysgrythur fod yn addas:

Salm 23

Marc 10. 13-16

Salm 84. 1-4

Ioan 6. 37-40

Caniad Solomon 2. 10-13

Ioan 10. 27, 28

Eseia 49. 15, 16

Rhufeiniaid 8. 18, 28, 35, 37-39

Jeremeia 1. 4-8

1 Corinthiaid 13. 1-13

Jeremeia 31. 15-17

Effesiaid 3. 14-19

Mathew 18. 1-5, 10

Gweddïau

Fel rheol, bydd y gweddïau yn dilyn y drefn hon:

Diolchgarwch am fywyd y plentyn, ni waeth pa mor fyr bynnag y bu.

Gweddi dros y rhai sy'n galaru.

Gweddi am y parodrwydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb.

Y mae rhai awgrymiadau yn dilyn. Bydd yn rhaid dethol o'u plith yn ôl oedran ac amgylchiadau.

1.

Y mae'r Arglwydd Iesu yn caru ei bobl,
ac ef yn unig yw ein gobaith diogel.
Gofynnwn iddo ddyfnhau ein ffydd a'n cynnal
yn yr awr dywyll hon.

Daethost yn blentyn bach er ein mwyn
a rhannu ein bywyd meidrol.
Arnat ti y gweddïwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Croesewaist blant ac addo iddynt dy deyrnas.
Arnat ti y gweddïwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Cysuraist y rhai a fu'n galaru o golli plant a chyfeillion.
Arnat ti y gweddïwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Cymeraist arnat dy hun ddiodefaint a marwolaeth pawb
ohonom.
Arnat ti y gweddïwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Addewaist gyfodi'r sawl sy'n credu ynot,
fel y'th gyfodwyd di i ogoniant gan y Tad.
Arnat ti y gweddïwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

2.

O Dad, yr wyt yn adnabod ein calonnau,
ac yn rhannu yn ein profedigaeth,
a ninnau'n gwahanu oddi wrth *E.*, sy'n annwyl gennym:
pan fyddwn yn ddig oherwydd ein colled,
ac yn dyheu am eiriau o gysur,
ond eto'n ei chael hi'n anodd eu clywed,
tro ein galar yn ffydd amyneddgar,
a'n cystudd yn obaith cadarn
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

3.

O Dad,
[oherwydd marwolaeth *E.* daeth gwacter i'n bywydau.
Gwahanwyd ni oddi *wrtho/wrthi*
ac yr ydym mewn gwae a gwewyr.]
Dyro inni hyder fod *E.* yn ddiogel
a bod ei *fywyd/bywyd* yn gyflawn gyda thi.
Dwg ni ynghyd yn y diwedd
i gyflawnder a helaethrwydd dy bresenoldeb di yn y
nefoedd, lle mae dy saint a'th engyl yn dy fwynhau byth
bythoedd. **Amen.**

4.

Arglwydd,
gweddiwn dros y rhai sy'n galaru,
dros rieni a phlant,
cyfeillion a chymdogion.
Bydd yn dyner wrthynt yn eu galar.
Dangos iddynt ddyfnder dy gariad,
a dyro iddynt gipolwg ar deyrnas nefoedd.
Arbed hwy rhag gwewyr euogrwydd ac anobaith.
Bydd gyda hwy wrth iddynt wylo,
fel yr wylodd Mair wrth fedd gwag
ein Hiachawdwr atgyfodedig. **Amen.**

5.

Drugarocaf Dduw,
y mae dy ddoethineb uwchlaw ein deall,
amgylchyna deulu *E. â'th gariad*,
fel na fyddant yn cael eu llethu gan eu colled,
ond yn cael hyder yn dy ddaioni
a nerth i wynebu'r dyfodol.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

6.

Dduw gobaith,
deuwn atat mewn galar a dryswch calon.
O wybod am dy drugaredd cariadus at bawb o'th blant,
cynorthwya ni i ddirnad dy dangnefedd
a dyro inni oleuni i'n tywys o'n tywyllwch
i gadernid dy gariad
na ellir ein gwahanu oddi wrtho. **Amen.**

7.

O Dduw,
nid wyt o'th wirfodd yn peri gofid na chystudd i'th blant.
Edrych yn dosturiol ar ddiodefaint y teulu hwn yn eu colled.
Cynnal hwy yn eu gwewyr;
ac i dywyllwch eu galar
dyro oleuni dy gariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

8.

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist:
Tad pob trugaredd a Duw pob cysur.
Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n galw arno:
at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd.
Fel y mae Tad yn tosturio wrth ei blant:
felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.
Fel y cysura mam ei phlentyn:
felly y rhydd yr Arglwydd gysur.
Yna cymerodd Iesu y plant i'w freichiau:
rhoddodd ei ddwylo ar bob un ohonynt a'u bendithio.

Dros y Rhieni

9.

Dad nefol,

ti yn unig all iacháu ein calonnau briwedig;
ti yn unig all sychu ymaith y dagrau sy'n cronni ynom;
ti yn unig all roi'r tangnefedd y mae arnom ei angen;
ti yn unig all ein nerthu i ddyfalbarhau.

Gofynnwn iti agosáu at y rhai

y mae eu llawenydd bellach yn dristwch.

Rho iddynt y sicrwydd nad oes dim yn ofer nac yn

anghyflawn gyda thi,

a chadw hwy â'th gariad tyner.

Wedi ein cynnal gan dy nerth,

bydded inni ddyfnhau ein cariad at ein gilydd

wrth inni adnabod dy gariad at bob un ohonom. **Amen.**

10.

Dad cariadus,

daethost ti â'th ferch *E*.

yn ddiogel drwy enedigaeth ei phlentyn.

Gweddiwn y bydd *E*. (*ac E.*) yn teimlo dy gynhaliaeth a'th
gariad yn ystod y trallod a'r tristwch o golli eu plentyn *E*.

a dirnad dy nodded di bob amser;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

11.

Dad cariadus,

safodd dy wasanaethyddes Mair,

mam ein Harglwydd a'n Duw, Iesu Grist,

wrth droed y groes tra oedd ei mab yn marw.

Bydded i'r un Iesu hwnnw,

a orchfygodd angau,

a gyfododd ac a esgynnodd i'r nefoedd

gysuro rhieni galarus,

a chryfhau eu ffydd ynot ti;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Dros y Plant yn y Teulu

12.

Arglwydd Iesu,
gofynnwn iti fod yn agos at blant y teulu hwn,
â'u bywydau wedi eu newid gan alar.
Dyro iddynt ddewrder i wynebu eu colled,
a chysura hwy â'th gariad digyfnewid. **Amen.**

13.

O Dduw, gwranddo, os gweli di'n dda,
wrth inni siarad â thi am *E.* sydd wedi marw.
Gofala *amdano/amdani*, a gofala amdanom ninnau hefyd.
Diolch iti am yr amseroedd a gawsom gyda'n gilydd.
Diolch iti am Iesu, sy'n dangos inni ei gariad.
Y mae ef yn agos at *E.*, ac yn agos atom ninnau.
Diolch iti, Dduw. **Amen.**

*Mewn achos o Enedigaeth Farw neu Gamesgoriad (hefyd; gweler
tudalen 188)*

14.

Dduw ein creawdwr
a ffynhonnell ein bod,
cysura *E. (ac E.)* sy'n galaru am *E.*
Cynorthwya *ef/hi/hwy* i ganfod sicrwydd
nad oes yr un bywyd yn ofer nac yn anghyflawn gyda thi,
a chynnal *ef/hi/hwy* â'th gariad,
trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. **Amen.**

15.

Dduw grasol,
diolchwn iti am y cariad y cenhedlwyd (*E.*) *bach/fach*
ynddo, ac am gariad y cartref yr oedd i'w *eni/geni* iddo.
Gweddiwn y bydd i gariad ei *rieni/rhieni* at ei gilydd
dyfu a dyfnhau.
Dyro inni ras i wrando ar ein gilydd
yn amyneddgar ac ystyriol,
ac i gynorthwyo ein gilydd yn y dyddiau sydd i ddod. **Amen.**

Gweddi Ffarwelio

16.

Dad nefol,
y mae *E. ac E.* wedi rhoi i'w baban yr enw *E.* –
 enw a drysorir yn eu calonau am byth.
Ond ti a'i lluniodd *ef/hi* yn y groth
a'i hadnabod wrth ei *enw/henw* cyn seilio'r byd.
Cyflwynwn *E.* yn awr i'th ofal cariadus a thyner.
Am gyfnod a oedd mor fyr
daeth ag addewid o lawenydd i lawer.
Cofleidia *ef/hi* yn awr yn y bywyd tragwyddol,
yn enw ein Hiachawdwr atgyfodedig, a anwyd ac a fu farw,
ac sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân am byth.
Amen.

Gweddiau at ddefnydd personol y rhieni

17.

Dduw cariad a bywyd,
 rhoddaist ti *E.* yn *fab/ferch* inni.
Dyro sicrwydd inni yn awr
nad aeth o'th olwg nac o'th ofal di,
er *iddo/iddi* fynd o'n golwg ni.
Tyrd atom ni yn ein tristwch,
a thro di ein nos yn ddydd.
Cynorthwya ni yn ein dagrau a'n poen
i'th adnabod di yn sefyll gyda ni
ac i deimlo dy gariad a'th iachâd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

18.

Dduw pob dirgelwch,
mae dy ffyrdd uwchlaw pob deall.
Tywys ni, sy'n galaru oherwydd y farwolaeth annhymig hon,
i ddyfnach ymddiried yn dy gariad,
a ddug dy unig Fab Iesu
trwy farwolaeth i fywyd yr atgyfodiad.
Gweddiwn yn enw Iesu. **Amen.**

19.

Dduw'r tosturi di-ffael
yn dy gariad creadigol a'th dynerwch rhoddaist inni *E.*,
yn llawn gobaith am y dyfodol.
Ti yw ffynhonnell bywyd pob un ohonom,
a nerth ein holl ddyddiau.
Nid i dywyllwch a marwolaeth y'n gwnaethost ni,
ond i'th weld wyneb yn wyneb
ac i fwynhau cyflawnder bywyd.
Cynorthwya ni i gysuro ein gilydd
â'r cysur a gawn oddi wrthyt ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

20.

Dduw pob gras a chysur,
diolchwn iti am *E.*,
ac am ei *lelle* yn ein calonnau.
Diolchwn am y cariad a'i cenedlodd
ac am y gofal a'i cynhaliai.
Wrth inni gofio amseroedd o ddagrau a chwerthin,
diolchwn iti am y cariad a ddaeth i'n rhan *drwyddo/drwyddi*,
sy'n adlewyrchu'r cariad hwnnw a dywelltaist ti arnom
yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

21.

Dduw ein Tad,
yr wyt yn gwybod ein meddyliau
ac yn rhannu ein gofidiau.
Tywys ni o'n trallod
i ddiddanwch cysurlon dy gariad.
Pan anghofiwn beth yw hapusrwydd,
adfer ynom ffynhonnau gloyw o obaith.
Pan amddifader ni o dangnefedd,
adnewyddu ein calonnau a thawela ein hofnau.
A phan ddeuwn yn y diwedd at ein hymadael olaf,
dwg ni adref atat ti am byth
i gyflawnder teulu Duw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

22.

Dad nefol,
ein cydymaith, y mae dy gariad bob amser gyda ni,
hyd yn oed yn nirgelwch glyn cysgod angau;
trown atat yn awr mewn ffydd,
a gofynnwn iti rod-di i'n hannwyl blentyn *E.*
nodded dy gariad.
Cysura ni, O Dad,
a thywys *ef/hi* i lawenydd a chyflawnder yn dy deyrnas
nefol, trwy nerth y cariad a ddatguddiwyd inni yn dy Fab,
ein Hiachawdwr Iesu Grist. **Amen.**

23.

Arglwydd pob peth, diolchwn iti
am dy waith yn y greadigaeth,
am feithrin bywyd yn y groth,
am dy gariad hyd yn oed mewn angau.
Diolch iti am fywyd dy blentyn, *E.*,
a roddaist i ni ac a gymeraist atat dy hun.
Diolch iti am fod breichiau dy gariad
yn cofleidio *E.* a ninnau yn dy deulu.
Diolch iti am dy bresenoldeb yn ein galar
a'th nerth wrth i'n teulu fynd yn hŷn.
Cymer ein tristwch a llanw ni â'th Ysbryd
i'th wasanaethu ar y ddaear
ac i ymuno â'th saint mewn gogoniant;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Cyflwyno a Ffarwelio

O Dduw, ein creawdwr a'n prynwr,
trwy dy allu fe orchfygodd Crist angau
a dychwelyd atat mewn gogoniant.
Â hyder yn dy fuddugoliaeth
a chan hawlio dy addewidion,
yr ydym yn ymddiried *E.* i'th ofal
yn enw Iesu ein Harglwydd,
sydd, er iddo farw, yn awr yn fyw
ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn awr ac am byth. **Amen.**

Plentyn Hŷn

I'th ddwylo di, Arglwydd,
ein creawdwr ffyddlon a'n prynwr cariadus,
yr ydym yn cyflwyno dy blentyn *E.*,
canys eiddot ti ydyw,
mewn angau fel mewn bywyd.
Yn dy fawr drugaredd
cymer *effhi* i'th freichiau
a chyflawna *ynddo/ynddi* bwrpas dy gariad;
fel, ac *yntau/a hithau* yn llawenhau yng ngoleuni dy
bresenoldeb adfywiol,
y caiff fwynhau'r bywyd hwnnw a baratoaist
i bawb sy'n dy garu,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Plentyn Ieuanc

Dad nefol,
y cymerodd dy Fab, ein Gwarddwr
blant bychain i'w freichiau a'u bendithio:
gweddiwn arnat dderbyn dy blentyn *E.*
i'th gariad a'th ofal di-ffael;
cysura bawb a'i carodd ar y ddaear,
a dwg ni oll i'th deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Baban

I ti, addfwyn Dad,
yr ydym yn wylaidd yn ymddiried *E. bach/fach*,
sydd mor werthfawr yn dy olwg.
Cymer *ef/hi* i'th freichiau
a chroesawa *ef/hi* i'th bresenoldeb,
lle nad oes na galar na phoen,
ond cyflawnder tangnefedd a llawenydd gyda thi
byth bythoedd. **Amen.**

Genedigaeth Farw

Dduw pob trugaredd,
nid yw gwaith dy law fyth yn ofer
ac yr wyt yn caru popeth a greaist;
cyflwynwn iti *E.*, plentyn *E. ac E.*,
a genhedlwyd mewn cariad mawr
ac a enynnodd ynddynt gymaint o obeithion a breuddwydion.
Yr oeddem yn dyheu am ei *groesawu/chroesawu* i'n plith;
dyro inni sicrwydd y cofleidir *ef/hi* yn awr
ym mreichiau dy gariad,
a'i *fod/bod* yn rhannu ym mywyd atgyfodedig
dy Fab, Iesu Grist. **Amen.**

Camesgoriad

Dduw pob trugaredd,
nid yw gwaith dy law fyth yn ofer
ac yr wyt yn caru popeth a greaist;
cyflwynwn i ti (*E.*), plentyn *E. ac E.*,
a genhedlwyd mewn cariad mawr
ac a enynnodd ynddynt gymaint o obeithion a breuddwydion.
Er na fedrant weld *E.*, dyro iddynt sicrwydd ei *fod/bod*
yn annwyl ac yn werthfawr yn dy olwg di
ac y bydd yn rhannu ym mywyd atgyfodedig dy Fab,
Iesu Grist. **Amen.**

Y Traddodiant

Defnyddia'r gweimidog un o'r ffurfiau canlynol ar y Traddodiant.

Wrth gladdu corff:

Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.* yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'r ddaear:
pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd
tragwyddol trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

Mewn amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddigwydd yno:

Yr ydym wedi ymddiried *E.* i drugaredd Duw.
Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.*
yn nwylo Duw,
yr ydym yn traddodi ei *gorff/chorff* i'w amlogi:
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,
a newidia ein cyrff eiddil ni
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

*Mewn amlogfa, os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu Llŵch
wedi Amlogiad:*

Yr ydym wedi ymddiried *E.* i drugaredd Duw.
Yn ffydd Crist a chan gredu bod *E.*
yn nwylo Duw,
mewn paratoad at ei *gladdedigaeth/chladdedigaeth*,
yr ydym yn rhoddi ei *gorff/chorff* i'w amlogi:
Disgwyliwn am gyflawnder yr atgyfodiad
pan fydd Crist yn casglu ynghyd ei holl saint
i deyrnasu gydag ef mewn gogoniant am byth. **Amen.**

Yr Anfon Allan

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy neall;
Duw fo yn fy nhrem,
ac yn f'edrychiad;
Duw fo yn fy ngair
ac yn fy siarad;
Duw fo yn fy mron
ac yn fy nirnad;
Duw fo ar ben fy nhaith,
ac ar f'ymadawiad. **Amen.**

Ffurfiâu ar y Fendith

Bydded i Grist y bugail da eich cofleidio yn ei gariad,
eich llenwi â thangnefedd
a'ch tywys mewn gobaith hyd at derfyn eich dyddiau;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Bydded i Dduw roi i chwi ei ddiddanwch a'i dangnefedd,
ei oleuni a'i lawenydd, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Bydded i gariad Duw
a thangnefedd yr Arglwydd Iesu Grist
eich bendithio a'ch cysuro chwi,
a phawb a adnabu ac a garodd *E.*,
yn awr a hyd byth. **Amen.**

X.

Gwasanaeth yn y Cartref ar ôl yr Angladd



Gellir addasu'r gwasanaeth hwn i'w ddefnyddio naill ai'n union wedi'r Angladd neu'n ddiweddarach. Gall cyfaill, aelod o'r teulu neu weinidog ei arwain.

Wrth y Drws

Gall y gweinidog ddweud

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Bydded i dangnefedd Duw ein Tad nefol,
ac Iesu Grist ffynhonnell tangnefedd
a'r Ysbryd Glân y diddanydd
fod ar y tŷ hwn a phawb sy'n preswyllo ynddo.

Agor, O Dduw, ddrws y tŷ hwn;
llewyrched dy oleuni yma i ymlid ymaith bob tywyllwch;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gair Duw

Gellir defnyddio un neu ragor o'r darlleniadau a ganlyn:

Ioan 14. 1-3

Mathew 11. 28-30

Philipiaid 3.20 – 4.1

Salm 71. 1-6, 17-18

Salm 126. 5-6

Salm 139. 7-11

Gweddïau

Gellir defnyddio gweddi neu weddïau addas o Adran XII, neu gellir offrymu gweddïau anffurfiol, a fydd yn fwy addas, dros y teulu.

Gall y weddi hon fod yn arbennig o addas os darperir lluniaeth ar ôl yr angladd.

Hollalluog Dduw,
Tad ein Harglwydd Iesu Grist,
yr adnabu ei ddisgyblion ef ar ôl ei atgyfodiad
ar doriad y bara.
Diolchwn iti am dy nerth i'n cynnal
yn yr hyn a wnaethom heddiw,
a gofynnwn am i'th bresenoldeb
gael ei gydnabod yn y lle hwn;
rho dy dangnefedd a'th lawenydd ym mhob man sy'n dwyn
atgofion;
dyro dy nerth a'th bresenoldeb wrth gyflawni'r tasgau
beunyddiol hynny a wnaethom gyda'n gilydd;
ac yn holl droeon bywyd dyro inni ras i wneud dy ewyllys
ddydd ar ôl dydd,
ac i ddisgwyl am ddyfodiad gogoneddus Crist,
pan fyddi'n ein casglu ni ynghyd at dy fwrdd yn y nefoedd
i fod gyda thi byth bythoedd. **Amen.**

Diwedd glo

Gall y gweimidog adrodd Salm 121:

Codaf fy llygaid tua'r
mynyddoedd; o ble y daw
cymorth i mi?

Daw fy nghymorth oddi
wrth yr Arglwydd, creawdwr
nefoedd a daear.

Nid yw'n gadael i'th droed
lithro, ac nid yw dy geidwad
yn cysgu.

Nid yw ceidwad Israel yn
cysgu nac yn huno.

Yr Arglwydd yw dy geidwad,
yr Arglwydd yw dy gysgod ar
dy ddeheulaw; ni fydd yr haul
yn dy daro yn y dydd, na'r
lleuad yn y nos.

Bydd yr Arglwydd yn dy
gadw rhag pob drwg, bydd
yn cadw dy einioes.

Bydd yr Arglwydd yn gwyllo
dy fynd a'th ddod yn awr a
hyd byth.

XI. Gwasanaeth Coffa



Amlinelliad o'r Drefn ar gyfer Gwasanaeth Coffa

Y Dod Ynghyd

1. Y mae'r gweinidog yn croesawu'r bobl ac yn cyflwyno'r gwasanaeth.
2. Gellir canu emyn
3. Gellir darllen brawddegau o'r Ysgrythur.
4. Gellir talu teyrnged yn y fan hon neu'n ddiweddarach yn y gwasanaeth.
5. Gellir darllen y Colect yn awr neu yn ystod y Gweddïau.

Darlleniadau a Phregeth

6. Defnyddir darlleniad neu ddarlleniadau o'r Beibl.
7. Gall salmau neu emynau ddilyn y darlleniadau.
8. Traddodir Pregeth.
9. Gellir defnyddio caneuon a darlleniadau eraill, a gellir talu teyrngedau.

Gweddïau

10. Fel rheol, bydd y gweddïau'n dilyn y drefn hon:
 - † *Diolchgarwch am fywyd yr ymadawedig;*
 - † *Gweddi dros y rhai sy'n galaru;*
 - † *Gweddi am barodrwydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb.*
11. Dywedir Gweddi'r Arglwydd.
12. Gellid caniatáu amser i weddio a myfyrio, yn dawel neu â cherddoriaeth briodol.

Cyflwyniant a Diolchgarwch

13. Pan fo'r amgylchiadau'n briodol, cyflwynir yr ymadawedig i Dduw gan ddefnyddio geiriau awdurdodedig.
14. Ceir gweithred briodol o ddiolchgarwch ar ddiwedd y gwasanaeth.

Yr Anfon Allan

15. Gellir canu emyn.
16. Gall y gwasanaeth ddiweddu â bendith.

Rhan dau: Nodiadau, gwasanaethau ychwanegol, deunydd ychwanegol a samplau o wasanaethau

Os digwydd Gwasanaeth Coffa yng nghyd-destun y Cymun Bendigaid, dilynir yr adrannau priodol i'r rhan honno o'r gwasanaeth.

Nodiadau

Cynlluniwyd y braslun-wasanaethau hyn i'w defnyddio yn yr eglwys rai wythnosau ar ôl y gwasanaeth Angladd.

Gweler un enghraifft isod.

Os cynhelir y gwasanaeth coffa yr un diwrnod â'r Angladd, neu'n fuan iawn wedyn, dylid defnyddio'r gwasanaeth Angladd, heb y traddodiant.

Dylid sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n llywyddu gydol y gwasanaeth, pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaeth ac yn ei gloi, ac nad yw nifer y siaradwyr eraill, yr eitemau cerddorol na'r darlenniadau sy'n rhai heb fod o'r Beibl, yn rhwystro'r gwasanaeth rhag canolbwyntio ar glywed gair Duw, y gweddïo a'r diolch.

Gwasanaeth Coffa (Gwasanaeth Enghreifftiol)

Y Dod Ynghyd

Y mae'r gweinidog yn croesawu'r bobl ac yn cyflwyno'r gwasanaeth. Gellir canu neu ddarllen brawddegau o'r Ysgrythur, a gellir canu emyn.

Dywed y gweinidog:

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad.
Gras a thangnefedd a fo gyda chwi:
(a'th gadw di yng nghariad Crist).

*Y mae'r gweiniidog yn cyflwyno'r gwasanaeth â'r geiriau hyn neu
eiriau addas eraill:*

Cadwn ein golwg, nid ar y pethau a welir,
ond ar y pethau na welir
oherwydd dros amser y mae'r pethau a welir,
ond y mae'r pethau na welir yn dragwyddol.
Daethom ynghyd heddiw
i gofio gerbron Duw ein *brawd/chwaer E.*,
i ddiolch am ei *fywyd/bywyd*
ac i gysuro ein gilydd yn ein galar.

Gweddi Agoriadol. Dywedir un o'r gweddïau hyn:

Dad nefol,
diolchwn i ti am ein llunio ar dy ddelw dy hun
ac am roddi inni ddoniau'r corff, y meddwl a'r ysbryd.
Diolchwn iti yn awr am *E.*
ac am yr hyn a olygai i bawb ohonom.
Wrth inni dalu teyrnged *iddo/iddi*,
gwna ni'n fwy ymwybodol
mai ohonot ti y daw pob rhodd berffaith,
ac yn bennaf oll rhodd y bywyd tragwyddol a ddaw trwy
Iesu Grist. **Amen.**

neu

Dad nefol,
molwn dy enw
am bawb a aeth o'r bywyd hwn
yn dy garu di ac yn ymddiried ynot,
am esiampl eu bywydau,
am y bywyd a'r gras a roddaist ti iddynt,
ac am y tangnefedd y maent yn gorffwys ynddo.
Molwn di heddiw am dy *was/wasanaethferch E.*
ac am y cyfan a gyflawnaist *drwyddo/drwyddi*.
Cysura ni yn ein tristwch
a llanw ein calonnau â mawl a diolch,
er mwyn ein Harglwydd atgyfodedig, Iesu Grist. **Amen.**

Darlleniadau a Phregeth

Gellir defnyddio'r gantigl hon:

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**

Llawenyched yr anial a'r sychdir:
gorfoledded y diffeithwch, a blodeuo.
Cânt weld gogoniant yr Arglwydd:
a mawrhydi ein Duw ni.

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**

Cadarnhewch y dwylo llesg:
cryfhewch y gliniau gwan;
Dywedwch wrth y pryderus, "Ymgryfhewch, nac ofnwch:
wele, fe ddaw eich Duw mewn barn,
fe ddaw mewn barn i'ch achub."

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**

Eseia 35. 1, 2b, 3-4, 10a

*Gellir defnyddio un neu fwy o ddarlleniadau o'r Ysgrhythur.
Ar ddiwedd y darlleniad gall y darllenydd ddweud:*

Dyma air yr Arglwydd.
Diolch a fo i Dduw.

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud
wrth yr Eglwys.
Diolch a fo i Dduw.

Gellir traddodi Pregeth.

*Gellir defnyddio caneuon a darlleniadau heb fod o'r Beibl, a gellir
talu teyrngedau.*

*Gellir defnyddio un o'r gweddïau hyn i gysylltu â Datgan y Ffydd
neu â'r Diolchgarwch.*

Dad nefol,

diolchwn iti am dy *was/wasanaeth*ferch *E.*

Molwn di wrth inni gofio am ei *fywyd/bywyd*
a thrysori ein hatgofion *ohono/ohoni.*

Bendithiwn di am *iddo/iddi*, a'th ddelw di *arno/arni*,
ddwyn goleuni i'n bywydau;

oherwydd gwelsom yn ei *gyfeillgarwch/chyfeillgarwch*
adlewyrchiad o'th dosturi,

yn ei *onestrwydd/gonestrwydd* ddrych o'th ddaioni,
ac yn ei ffyddlondeb gipolwg o'th gariad tragwyddol.

Caniatâ i bob un ohonom, ei *anwyliaid/hanwyliaid* galarus,
ras i ddilyn ei *esiamp/hesiamp* dda

fel y delom gydag *ef/hi* i'th deyrnas dragwyddol;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd,

a fu farw, a gyfododd drachefn ac a agorodd borth y
gogoniant.

Iddo ef y bo'r moliant byth bythoedd. **Amen.**

neu

Waredwr hollgyfoethog,

y mae gan y sawl a fu farw mewn ffydd
lawenydd bythol yn dy bresenoldeb.

Bydd gyda ni sy'n galaru
a thro ein golygon atat ti.

Trwy dy farwolaeth un waith am byth ar y groes,
cyfod ni i fywyd newydd,

dyro inni fuddugoliaeth dros angau

a hyder i edrych ymlaen at dy ddyfodiad. **Amen.**

Datgan y Ffydd

Gellir defnyddio'r Datganiad hwn o Ffydd:

Gadewch inni ddatgan y newydd da a dderbyniasom,
y daliwn yn gadarn ynddo,
yr achubir ni trwyddo
ac a draddodwn i eraill.

**Bu Crist farw dros ein pechodau ni
yn ôl yr Ysgrythurau;
fe'i claddwyd;
a'i gyfodi i fywyd y trydydd dydd
yn ôl yr Ysgrythurau;
wedi hynny fe ymddangosodd i'w ddilynwyr,
ac i'r holl apostolion:
hyn a dderbyniasom,
a hyn yr ydym yn ei gredu. Amen.**

cf. 1 Corinthiaid 15. 3-7

Ymbiliau

Dywedir gweddiau addas (gweler Adran XII).

*Gellir defnyddio'r cyflwyniad a'r ymateb a ganlyn:
Gweddiwn mewn tangnefedd ar yr Arglwydd:*

*gan ddefnyddio'r ymateb,
Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig:
ein Hatgyfodiad a'n Bywyd.*

Gweddïau o Ddiolch

Gellir camu emynau a dŵyn tystiolaeth.

Gellir defnyddio'r adnodau a ganlyn neu'r Te Deum yn gyfan gwbl:

Ti Grist yw brenin y gogoniant:
ti yw tragwyddol Fab y Tad.
Pan gymeraist gnawd i'n rhyddhau ni:
dewisaist yn wylaidd groth y Wryf.
Gorchfygaist gelyn angau:
ac agor teyrnas nef i bawb sy'n credu.
Yr wyt yn eistedd ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant:
yr ydym yn credu y deui di i'n barnu.
Tyrd, felly, O Arglwydd, a chynorthwya dy bobl:
a brynwyd â'th waed dy hun;
A dwg ni gyda'th saint:
i'r gogoniant tragwyddol.

Gellir defnyddio un neu ragor o'r gweddïau hyn o ddiolch:

Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a'n Duw:
i dderbyn y gogoniant a'r anrhydedd a'r gallu,
**Oherwydd tydi a greodd bob peth:
a thrwy dy ewyllys y daethant i fod ac y grewyd hwy.**

Teilwng wyt ti, yr Oen a laddwyd:
ac a brynaist i Dduw â'th waed:
rai o bob llwyth ac iaith a phobl a chenedl.
**Gwnaethost hwy yn urdd frenhinol ac yn offeiriad i'n
Duw ni, i sefyll ger ei fron a'i wasanaethu:
ac fe deyrnasant gyda thi ar y ddaear.**

**I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r gallu
byth bythoedd. Amen.**

neu

Dad hollalluog, rhoddwn ddiolch a moliant i ti
am anfon dy Fab i farw, a'i atgyfodi o blith y meirw.
Molwn di, gan ymddiried dy fod yn achub dy holl bobl,
y byw a'r meirw.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Diolchwn iti am *E*. Yn ei *fedydd/bedydd* rhoddwyd *iddo/iddi*
ernes o'r bywyd tragwyddol ac yn awr fe'i croesewir i holl
gwmpeini'r saint.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Diolchwn iti am ein *brawd/chwaer*, a fu'n cyfranogi o fara'r
bywyd, rhagflas o wledd dragwyddol y nef.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Diolchwn iti am ein holl berthnasau a'n cyfeillion ac am
bawb a gerddodd wrth ein hymyl ar ein pererindod ddaearol.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Gweddiwn ar i deulu a chyfeillion galarus ein *brawd/
chwaer E*. dderbyn diddanwch yr Arglwydd, a wylodd adeg
marwolaeth Lasarus, ei ffrind.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

Gweddiwn dros bawb ohonom sydd wedi ymgynnull yma
i addoli mewn ffydd, ar inni gael ein dwyn ynghyd drachefn
yn nheyrnas Dduw.
Arglwydd, clyw ni: **Arglwydd, yn rasol clyw ni.**

neu

Arglwydd Dduw, creawdwr pob peth,
gwnaethost ni yn greaduriaid y ddaear hon,
ond addewaist inni hefyd gyfran yn y bywyd tragwyddol.
Yn unol â'th addewidion,
bydded i bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist
gael rhannu gyda'th saint yn llawenydd y nef,
lle nad oes na galar na phoen
ond bywyd yn dragwyddol.
Alelwia! Amen.

Oni weinyddir y Cymun:

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

Ein Tad yn y nefoedd ...

neu

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...

Y Cyflwyniant a'r Diolchgarwch

Hollalluog Dduw,
yn dy gariad mawr
lluniaist ni â'th ddwylo
a thrwy dy Ysbryd rhoddaist i ni anadl einioes.
Ni chefnaist arnom
er i ni fod yn bobl wrthryfelgar,
O'th dyner drugaredd
anfonaist dy Fab
i adfer dy ddelw arnom.
Dangosodd ei gariad
trwy farw drosom ar y groes.
Trwy dy allu nerthol
cyfodaist ef o'r bedd
a'i ddyrchafu i orsedd y gogoniant.
Gan ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth
a chan ymddiried yn dy addewid
i roi bywyd tragwyddol i bawb sy'n troi at Grist,
cyflwynwn *E.* i'th drugaredd,
ac ymunwn â'th holl bobl ffyddlon
ac â holl gwmpeini'r nef
yn yr un gân dragwyddol o foliant:
Y mawl a'r anrhydedd,
y gogoniant a'r gallu
a fo i ti, byth bythoedd. **Amen.**

Y Tangnefedd

Dywedodd Iesu:

Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd;
yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun.
Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi.
Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon,
a pheidiwch ag ofni.

Tangnefedd y Crist atgyfodedig a fo gyda chwi bob amser:
A hefyd gyda thi.

Diwedd glo

Ni all nac angau nac einioes ein gwahanu ni oddi wrth
gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Caniatâ i ni, Arglwydd Dduw,
ymddiried ynot nid er ein mwyn ein hunain yn unig,
ond hefyd er mwyn y rhai a garwn
ac a guddiwyd rhagom gan gysgod angau,
fel, a ninnau'n credu i ti yn dy allu
gyfodi ein Harglwydd Iesu Grist o blith y meirw,
y bo inni felly ymddiried yn dy gariad
i rododi bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo ef;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

Bydded i Dduw tangnefedd,
a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu,
Bugail mawr y defaid,
eich cyflawni â phob daioni i wneud ei ewyllys;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

XII.

Gweddïau mewn Gwasanaethau Angladd a Choffa



*Y mae'r gweddïau hyn yn dilyn trefn y gwasanaethau, o'r Dod
Ynghyd tan ar ôl yr Angladd:*

Gweddïau wrth Ddod Ynghyd

Gweddïau o Edifeirwch (Kyriau a Gollyngdod)

Colectau ar gyfer Gwasanaethau Angladd a Gwasanaethau Coffa

Diolch am Fywyd yr Ymadawedig

Gweddïau dros y rhai sy'n Galaru

Gweddïau am Barodrwydd i Fyw yng Ngoleuni Tragwyddoldeb

Litaniau a Gweddïau Ymatebol

Gweddïau o Ymddiried a Chyflwyno

Ffurfiâu ar y Fendith a'r Diweddglô

Gweddïau i'w defnyddio ar ôl Salmu

*Y mae gweddïau addas eraill i'w cael yn adrannau II - V (Cyn yr
Angladd) a X (Ar ôl yr Angladd).*

Y mae gweddïau addas ar gyfer angladd plentyn yn adran IX.

Gweddïau wrth Ddod Ynghyd

1.

O Dduw ein noddfa a'n nerth,
yr wyt yn agos atom yn ein trallod;
tyrd atom ni yn ein galar a dyrchafa ein llygaid
at dangnefedd a goleuni dy ofal gwastadol drosom.
Cynorthwya ni felly i glywed geiriau dy ras
fel y bydd i'th gariad fwrw allan ein hofn,
dy bresenoldeb esmwytháu ein hunigrwydd
a'th addewidion adnewyddu ein gobaith
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

2.

Dad grasol,
mewn tywyllwch a goleuni,
mewn trallod a llawenydd,
cynorthwya ni i ymddiried yn dy gariad,
i gyflawni dy fwriad
ac i foli dy enw;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

3.

Dad nefol,
fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth,
ond i fyw gyda thi am byth.
Hebot ti nid oes gennym ddim i obeithio amdano;
gyda thi, nid oes gennym ddim i'w ofni.
Llefara wrthym yn awr eiriau dy fywyd tragwyddol.
Cyfod ni o boen meddwl ac euogrwydd
i oleuni a thangnefedd dy bresenoldeb,
a gosod ogoniant dy gariad o'n blaen;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddïau o Edifeirwch

Kyriau

4.

Cofia, Arglwydd, dy drugaredd a'th gariad,
oherwydd y maent yn dragwyddol.
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

Paid â chofio pechodau fy ieuenctid na'm camweddau,
ond yn dy gariad cofia fi, er mwyn dy ddaioni, O Arglwydd.
Crist, trugarha. **(Crist, trugarha.)**

Cadw fy enaid a gwared fi;
na ddoed cywilydd arnaf, oherwydd ynot ti yr wyf yn
ymddiried.
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

5.

Arglwydd Iesu, dangosaist inni'r ffordd at y Tad:
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

Arglwydd Iesu, rhoddaist inni wybodaeth am dy wirionedd:
Crist, trugarha. (**Crist, trugarha.**)

Arglwydd Iesu, ti yw'r bugail da
sydd yn ein tywys ni i fywyd tragwyddol:
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

6.

Fy enaid, bendithia'r Arglwydd,
a phaid ag anghofio'i holl ddoniau:
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

Ef sy'n maddau dy holl gamweddau,
yn iacháu dy holl afiechyd;
Crist, trugarha. (**Crist, trugarha.**)

Ef sy'n gwaredu dy fywyd o'r pwll
ac yn dy goroni â chariad a thrugaredd:
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

7.

O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O Arglwydd.
Arglwydd, clyw fy llef.
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

Os wyt ti'n sylwi ar bechodau, O Arglwydd,
pwy a all sefyll?
Crist, trugarha. (**Crist, trugarha.**)

Gobeithia yn yr Arglwydd,
oherwydd gydag ef y mae ffyddlondeb
a gwaredigaeth helaeth.
Arglwydd, trugarha. (**Arglwydd, trugarha.**)

Gollyngdod

Pan fo'r gweinidog yn offeiriad, gellir defnyddio 'chwi' yn hytrach na 'ni'.

8.

Bydded i Dduw cariad
eich/ein dwyn yn ôl ato ef ei hun,
maddau *i chwi/i ni eich/ein* pechodau
a rhoddi *i chwi/i ni* sicrwydd o'i gariad tragwyddol
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

9.

Bydded i Dduw Dad faddau *i chwi/i ni eich/ein* pechodau
a'ch/a'n dwyn i gyfranogi o'i wledd dragwyddol
gyda'i saint am byth. **Amen.**

Colectau ar gyfer Gwasanaethau Angladd a Choffa

10.

Dad trugarog,
gwrando ein gweddïau a chysura ni;
adnewyddu ein gobaith yn dy Fab,
a gyfodaist o blith y meirw;
cryfha ein ffydd
y caiff (*E. a phawb*) pawb a fu farw yng nghariad Crist
rannu ei atgyfodiad ef
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn awr a hyd byth. **Amen.**

11.

Dragwyddol Dduw, ein Creawdwr a'n Gwaredwr,
caniatâ i ni (*gyda E.*) a'r holl ffyddloniaid ymadawedig
ddoniau sicr dioddefaint achubol dy Fab a'i atgyfodiad
gogoneddus ef,
fel, ar y dydd diwethaf, pan gesgli bopeth yng Nghrist,
y cawn fwynhau llawnder dy addewidion;
trwy Iesu Grist dy Fab, ein Harglwydd,
sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Diolch am Fywyd yr Ymadawedig

12.

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
a'n bendithiodd ni oll â rhodd bywyd ar y ddaear hon
ac a roddodd i'n *brawd/chwaer E.* rychwant ei
flynyddoedd/blynyddoedd a doniau ei *gymeriad/chymeriad*.
O Dduw ein Tad, diolchwn iti yn awr am ei *fywyd/bywyd*,
am bob atgof o gariad a llawenydd,
am bob gweithred dda a wnaeth
ac am bob tristwch a rannodd â ni.
Diolchwn iti am ei *fywyd/bywyd* ac am ei
farwolaeth/marwolaeth,
am ein hatgofion *amdano/amdani*,
am iti am ei *roi efrhoi hi inni*,
ac am y gogoniant y byddwn yn ei rannu â'n gilydd.
Gwrando ein gweddïau
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

13.

Dad trugarog ac Arglwydd pob bywyd,
molwn di am iti ein llunio ar dy ddelw
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.
Diolchwn iti am fywyd dy blentyn *E.*,
am y cariad a dderbyniodd gennyt
ac a amlygodd yn ein plith.
Uwchlaw pob dim, ymhyfyrdwn yn dy addewid grasol
i'th holl bobl, y byw a'r meirw,
y cyfodwn eto ar ddyfodiad Crist.
Gofynnwn am i ninnau, yng nghyflawniad yr amser,
gael rhannu â'n *brawd/chwaer* yn y weledigaeth eglur honno
pan welwn dy wyneb di
yn yr un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

14.

Dad nefol, molwn dy enw
am bawb a aeth o'r bywyd hwn
yn dy garu di ac yn ymddiried ynot,
am esiampl eu bywydau,
am y bywyd a'r gras a roddaist ti iddynt,
ac am y tangnefedd y maent yn gorffwys ynddo.
Molwn di heddiw am dy *was/wasanaethferch E.*
ac am y cyfan a gyflawnaist *drwyddo/drwyddi.*
Cysura ni yn ein tristwch
a llanw ein calonnau â mawl a diolch,
er mwyn ein Harglwydd atgyfodedig, Iesu Grist. **Amen.**

15.

Dad nefol,
diolchwn i ti am ein llunio ar dy ddelw dy hun
ac am roddi inni ddoniau'r corff, y meddwl a'r ysbryd.
Diolchwn iti yn awr am *E.*
ac am yr hyn a olygai i bawb ohonom.
Wrth inni dalu teyrnged *iddo/iddi,*
gwna ni'n fwy ymwybodol
mai ohonot ti y daw pob rhodd berffaith,
ac yn bennaf oll rhodd y bywyd tragwyddol a ddaw
trwy Iesu Grist. **Amen.**

16.

O Dduw ein Tad,
diolchwn iti am lunio pob un ohonom
ar dy ddelw dy hun,
a rhoddi inni ddoniau a thalentau i'th wasanaethu di.
Diolchwn iti am *E.,*
am y blynyddoedd a gawsom *gydag effgyda hi,*
am y daioni a welsom *ynddo/ynddi,*
ac am y cariad a dderbyniasom *ganddo/ganddi.*
Dyro inni yn awr y nerth a'r dewrder
i'w *ymddiried/hymddiried* i'th ofal di,
yn llawn hyder yn dy addewid o fywyd tragwyddol
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

17.

Dduw a Thad tragwyddol,
molwn di am iti lunio pobl i rannu bywyd â'i gilydd
ac i adlewyrchu dy ogoniant yn y byd.
Diolchwn iti yn awr am *E*.
am y cyfan a welsom o'th ddaioni di yn ei *fywyd/bywyd*
ac am yr hyn a olygai i bob un ohonom.
Wrth i ninnau deithio tuag at farwolaeth
bydded inni wneud hynny yng nghwmni Iesu,
a ddaeth i rannu ein bywyd
er mwyn i ni gael rhannu yn y bywyd tragwyddol.
Iddo ef, gyda thi a'r Ysbryd Glân,
y bo'r gogoniant yn oes oesoedd. **Amen.**

18.

Arglwydd Dduw, creawdwr pob peth,
gwnaethost ni yn greaduriaid y ddaear hon,
ac addewaist inni ran yn y bywyd tragwyddol.
Wrth gyflwyno dy blentyn, ein *brawd/chwae* *E.*,
i'th ddwylo
derbyn ein diolch a'n moliant
ei *fod/bod*, trwy ddiodefaint a marwolaeth Crist,
yn cyfranogi gyda'th saint yn llawenydd y nefoedd,
lle nad oes na galar na phoen
ond bywyd hyd byth. Alelwia! **Amen.**

19.

Hollalluog Dduw,
yr wyt yn caru pob peth a wnaethost
ac yn ein barnu â thrugaredd a chyfiawnder diderfyn.
Llawenhawn yn dy addewidion o faddeuant a thangnefedd
i bawb sy'n dy garu.
Yn dy drugaredd tro nos marwolaeth
yn wawrddydd bywyd newydd
a galar ein gwahanu yn llawenydd y nefoedd;
trwy ein Hiachawdwr Iesu Grist,
a fu farw ac a gyfododd drachefn ac sy'n fyw byth
bythoedd. **Amen.**

20.

Hollalluog Dduw,
deuwn atat ti, y barnwr goruchaf,
at Iesu, cyfryngwr y cyfamod newydd,
ac at ysbrydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd;
diolchwn iti am roddi inni deyrnas ddi-sigl
ac addolwn di â pharch ac ofn duwiol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddïau dros y rhai sy'n Galaru

21.

Dduw pob trugaredd,
a ninnau'n galaru oherwydd marwolaeth *E.*,
ac yn diolch iti am ei *fywyd/bywyd*,
cofiwn hefyd amseroedd
pan fu'n anodd inni ddeall a maddau, a derbyn
maddeuant.
Iachâ ein hatgofion o ddolur a methiant,
ac arwain ni i faddeuant a bywyd
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

22.

Arglwydd Iesu Grist,
wrth i ti wynebu dy farwolaeth cysuraist dy ddisgyblion:
tawela drallod ein calonnau
ac ymlid ein hofnau.
Ti yw'r ffordd: cynorthwya ni i'th ddilyn.
Ti yw'r gwirionedd: dwg ni i'th adnabod di.
Ti yw'r bywyd: dyro inni'r gras i fyw gyda thi
yn awr a hyd byth. **Amen.**

23.

O Dduw,
rhoddaist ynom anadl einioes
ac, wrth i ti ei gymryd ymaith,
byddwn yn marw yn dy freichiau.
Yn ein galar a'n braw cynnal a chysura ni;
cofleidia ni â'th gariad,
dyro inni obaith yn ein dryswch
a gras i ildio i fywyd newydd;
trwy Iesu Grist. **Amen.**

24.

O Dad,
yr wyt yn gwybod am ddolur ein calonnau
ac yn rhannu ein gofidiau.
Cawsom ein brifo o achos ein gwahanu oddi wrth ein
hannwyl *E*.
Pan deimlwn yn ddig oherwydd ein colled,
ac yn dyheu am eiriau o gysur,
ond yn ei chael hi'n anodd eu clywed,
tro ein galar yn gywirach buchedd,
a'n cystudd yn obaith cadarn
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

25.

Dduw grasol,
amgylchyna bawb sy'n galaru y dydd hwn
â'th dosturi gwastadol.
Na ad i alar lethu dy blant
na'u troi yn dy erbyn.
Pan fo galar fel pe bai'n ddiderfyn,
tywys hwy gam wrth gam ar hyd dy ffordd di,
ffordd marwolaeth ac atgyfodiad
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

26.

O Dad,

daw marwolaeth ein hanwyliaid â gwacter i'n bywydau.

Gwahanwyd ni oddi wrth *E*.

a theimlwn yn friwedig ac yn ddryslyd.

Dyro inni hyder ei *fod/bod* yn ddiogel

a bod ei *fywyd/bywyd* yn gyflawn gyda thi,

tynn ni yn ôl yn y diwedd i afael dy hyfrydwch lle mae

tragwyddol gân dy saint a'th engyl yn atseinio byth

bythoedd. **Amen.**

27.

Dduw pob trugaredd,

yn dy gariad rhoddaist inni dy Fab

i orchfygu angau

ac i adfer bywyd tragwyddol i'th bobl.

Cysura dy weision yn eu profedigaeth

a chryfha ein ffydd a'n gobaith yn dy Fab,

ein Gwardwr Iesu Grist. **Amen.**

28.

Drugarocaf Dduw,

y mae dy ddoethineb uwchlaw ein deall,

amgylchyna deulu *E*. â'th gariad,

fel na fyddant yn cael eu llethu gan eu colled,

ond yn cael hyder yn dy ddaioni

a nerth i wynebu'r dyfodol.

Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

29.

Dad pob trugaredd a Duw pob diddanwch,

yr wyt yn dyheu ac yn chwilio amdanom â chariad difflino

gan wasgaru cysgod angau â gwawr ddisglair bywyd.

(Dyro ddewrder i'r teulu hwn yn eu colled a'u gofid.

Bydd iddynt yn noddfa ac yn nerth. Dyro iddynt sicrwydd

o'th gariad gwastadol a chyfod hwy o ddyfnderoedd eu

galar i dangnefedd a goleuni dy bresenoldeb.)

Mae dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist,

trwy farw, wedi dinistrio marwolaeth,

a thrwy atgyfodi, wedi adfer bywyd i ni.
Mae dy Ysbryd Glân, ein diddanydd,
yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau.
Tyrd at dy bobl,
atgoffa hwy o'th bresenoldeb tragwyddol
a dyro iddynt dy gysur a'th nerth. **Amen.**

30.

Arglwydd Dduw,
yr wyt yn gwrando ar lef ein gweddi.
Caniatâ i ni yn dy Fab
ddiddanwch yn ein tristwch,
sicrwydd yn ein hamheuaeth
a dewrder i fyw;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

31.

Arglwydd Iesu Atgyfodedig,
tyrd atom wrth inni droedio'r ffordd unig hon.
Treiddia drwy ein galar a'n lludded,
ysgafnha ein calonnau trymion wrth i ti gerdded gyda ni,
a dwg ni yn y diwedd at dy fwrdd nefol. **Amen.**

32.

O Dduw,
nid wyt o'th wirfodd yn peri gofid na chystudd i'th blant.
Edrych yn dosturiol ar ddiodefaint y teulu hwn yn eu colled.
Cynnal hwy yn eu gwewyr;
ac i dywyllwch eu galar
dyro oleuni dy gariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

33.

Hollalluog Dduw,
Tad pob trugaredd a rhoddwr pob cysur:
Bydd rasol wrth y rhai sy'n galaru,
fel, trwy fwrw pob gofal arnat ti,
y cânt brofi diddanwch dy gariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

34.

O ddyfnder ein galar
gwaeddw'n arnat, O Arglwydd.
Tydi a roddaist *E. inni*,
a thydi a'i cymerodd ymaith.
Tro atom, Arglwydd, tosturia wrthym,
a dyro inni'r diddanwch hwnnw na all neb ond tydi ei roddi,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Wedi Bywyd Byr

35.

Arglwydd ein Duw,
bendithiaist ni trwy roddi *E. inni*,
ac yr ydym yn galaru o'i *gollï/cholli*.
Cynorthwya ni, trwy ein dagrau a'n poen,
i weld gwaith dy law di
yn troi galar yn fendith.
I ti y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

36.

Dduw pob dirgelwch,
mae dy ffyrdd uwchlaw pob deall.
Tywys ni, sy'n galaru oherwydd y farwolaeth annhymig
hon, i ddyfnach ymddiried yn dy gariad,
a ddug dy unig Fab Iesu
trwy farwolaeth i fywyd yr atgyfodiad.
Gweddiwn yn enw Iesu. **Amen.**

Wedi Marwolaeth Sydyn

37.

Dduw gobaith,
deuwn atat mewn braw a galar.
Cymorth ni i ddod o hyd i dangnefedd
o wybod am dy drugaredd cariadus at bawb o'th blant,
a dyro inni oleuni i'n tywys o'n tywyllwch
i sicrwydd dy gariad,
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Wedi Marwolaeth Dreisgar

38.

Drugarog Dduw,
mae marwolaeth *E.* y tu hwnt i'n deall ni
ac yn fwy nag y gallwn ei oddef.
Clyw gri ein galar,
cansys gwyddost wewyr ein calonnau.
Derbyn ein gweddi
ar i *E.*, a ryddhawyd o greulondeb y byd hwn,
gael ei *dderbyn/derbyn* i'th ddwylo diogel a'th gariad sicr di.
Gweddiwn am gyfiawnder
ac am i ninnau drysori'r cof *amdano/amdani*
yn hytrach na chanoli ar ddull ei *farw/marw*.
Er mwyn Iesu Grist. **Amen.**

Pan Nad Oes Corff yn Bresennol

39.

Dad pawb oll,
gweddiwn arnat dros *E.*,
a garwn ond na welwn mwyach.
Dyro *iddo/iddi* dy dangnefedd;
llewyrched goleuni gwastadol *arno/arni*;
ac yn dy ddoethineb cariadus a'th allu anfeidrol
gweithia *ynddo/ynddi* bwrpas daionus dy berffaith ewylllys;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Wedi Hunanladdiad

40.

Dduw a Thad tragwyddol,
edrych yn drugarog ar y rhai sy'n cofio *E.* ger dy fron.
I *E.* y mae treialon y byd hwn wedi darfod
ac aeth angau heibio.
Derbyn gennym yr hyn a deimlwn pan fo geiriau'n methu;
gwared ni rhag anobaith
a dyro inni nerth i wynebu'r dyfodol
yn ffydd Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

41.

Dduw ein nerth a'n hiachawdwriaeth,
nid wyt yn cefnu arnom yn y bywyd hwn
nac yn ein gadael yn yr angau.
Gwrando ein gweddiau dros bawb sydd yn llwyr ddigalon,
pan fydd dyddiau'n llawn tywyllwch
a'r dyfodol yn amddifad o obaith.
Adnewyddda ynddynt dy nerth cynhaliol
gan na all dim yn yr holl greadigaeth
ein gwahanu oddi wrth dy gariad
yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **Amen.**

Wedi Cystudd Hir

42.

Dduw ein gwardigaeth,
gelwaist ein *brawd/chwaer E.*
i'th wasanaethu mewn gwendid a phoen,
gan roi *iddo/iddi* y gras o rannu croes dy Fab.
Gwobrwy a ei *amynedd/hamynedd* a'i *ddyfalbarhad/dyfalbarhad*,
a dyro *iddo/iddi* gyflawnder buddugoliaeth Crist.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Mewn Gofid, Euogrwydd ac Edifeirwch

43.

Dduw maddeugar,
yn wyneb angau darganfyddwn
gynifer o bethau sydd eto heb eu gwneud,
ac y gellid bod wedi eu gwneud.
Achub gam ein methiant;
rhwyma glwyfau camgymeriadau'r gorffennol;
trawsfurfia ein heuogrwydd yn gariad gweithredol;
a thrwy dy faddeuant gwna ni'n gyflawn;
yn enw Iesu. **Amen.**

Gweddïau am Barodrzydd i Fyw yng Ngoleuni Tragwyddoldeb

44.

O Arglwydd, cynnal ni
trwy gydol dydd ein bywyd blin,
hyd onid estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr,
distewi o ddwndwr byd,
tawelu o dwymyn bywyd
a gorffen ein gwaith.
Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd dyro inni lety diogel,
gorffwysfa sanctaidd, a thangnefedd yn y diwedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

45.

Dyro inni, Arglwydd,
ddoethineb a gras
i iawn ddefnyddio'r amser
sy'n weddill inni ar y ddaear.
Tywys ni i edifarhau am ein pechodau,
am y drwg a wnaethom
a'r da na wnaethom;
a nertha ni i ddilyn yn ôl traed dy Fab,
ar y ffordd sy'n arwain i gyflawnder bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

46.

Dduw ein Tad,
diolchwn i ti am anfon dy Fab Iesu Grist
i farw drosom a chyfodi drachefn.
Cyhoedda ei groes dy gariad diderfyn
a'i atgyfodiad nad oes gan angau golyn mwyach.
Trwy ei fuddugoliaeth cawn sicrwydd
na chefni di arnom na'n gadael byth;
ac na all nac angau nac einioes,
na'r presennol na'r dyfodol,
ein gwahanu ni oddi wrth dy gariad di
yng Nghrist Iesu ein Harglwydd. **Amen.**

47.

Hollalluog Dduw,
wedi ein calonogi gan esiampl dy saint,
bydded i ni redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen heb ddiffygio,
gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ein ffydd;
fel yr ymunom yn y diwedd â'r rhai a garwn yn dy
bresenoldeb tragwyddol di lle y mae cyflawnder llawenydd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

48.

Hollalluog Dduw,
amgylchynaist ni â chwmwl mawr o dystion.
Fel y nerthaist hwy,
ysbrydola ni i fwrw ymaith bob rhwystr
a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd.
Fel y cynhaliaist hwy,
cadw ni i redeg yn yr yrfa sydd o'n blaen,
gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ein ffydd.
Gwrando ni wrth inni offrymu gyda hwy,
yn nerth dy Ysbryd tragwyddol,
ein cân ddiderfyn o fawl,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

49.

O Dad,
dy Fab yw ffynhonnell iachawdwriaeth dragwyddol
pawb a'i dilyno.
Pan demtir ni i droi ymaith o'th ffordd,
dyro inni ufudd-dod Crist, ein brawd.
Pan ddifwynir ein cydwybod gan bechod,
glanha ni drwy aberth Crist, ein hofffeiriad.
Pan fyddwn yn ofni marw, ac yn ofni marwolaeth y rhai a
garwn, nertha ni o wybod i Grist fynd o'n blaen a dyfod
i'th bresenoldeb sanctaidd, wedi ei goroni â gogoniant
ac anrhydedd, lle y mae'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r
Ysbryd Glân, yn un Duw yn awr a hyd byth. **Amen.**

50.

Dduw tragwyddol,
dywedodd dy Fab Iesu Grist,
“Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu’ch calon a pheidiwch
ag ofni.”
Tynn ymaith oddi wrthym ofn marwolaeth;
dwg ni i’r lle yr aeth ef i’w baratoi ar ein cyfer;
a dyro inni ei dangnefedd am byth. **Amen.**

51.

Tywys ni, O Arglwydd ein Duw, yn ein deffro olaf,
at drigfan a phorth y nefoedd,
i fynd drwy’r porth hwnnw a byw yn y drigfan honno,
lle na fydd tywyllwch na disgleirdeb
ond un goleuni gwastadol;
dim twrw na thawelwch,
ond un gerddoriaeth wastadol;
dim ofnau na gobeithion,
ond un meddiant gwastadol;
dim diwedd na dechreuad,
ond un tragwyddoldeb gwastadol;
yn nhrigfannau dy ogoniant a’th fawrhydi
byth bythoedd. **Amen.**

52.

Dad annwyl, rhoddwr bywyd,
fe’n gwnaethost ar dy gyfer dy hun
ac mae ein calonnau yn anniddig nes iddynt orffwys ynot ti.
Caniatâ inni dy garu a’th wasanaethu di,
a byw iti bob dydd yn y fath fodd,
fel y gallwn o’r diwedd estyn ein breichiau atat ti gan
wybod dy fod di’n ein caru,
y gallwn agor ein calonnau i ti a gwybod ein bod wedi
derbyn maddeuant;
felly, wedi ein caru ac wedi derbyn dy faddeuant y medrwn
orffwys ynot ti; trwy gariad ein Gwardwr Iesu Grist.
Amen.

53.

Dduw tragwyddol,
yr wyt yn llewyrchu ar y rhai sydd yn eistedd yn
nhywyllwch cysgod angau:
dyro dy oleuni i'r rhai sy'n galaru
fel y cânt lawenhau yn dy ddiddanwch bendigedig
a byw yng ngoleuni atgyfodiad
Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

54.

Dad pawb oll,
trwy dy drugaredd a'th ras,
erys dy saint mewn goleuni a thangnefedd tragwyddol:
cofiwn yn ddiolchgar
am y rhai hynny a garwn ond na welwn mwyach;
a gweddiwn ar i'th berffaith ewyllys di
gael ei chyflawni ynddynt;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

55.

Arglwydd Dduw tragwyddol,
y mae pob enaid byw yn dy law:
llewyrcha, gweddiwn arnat,
ar dy Eglwys gyfan yn y nefoedd ac ar y ddaear,
belydrau disglair dy oleuni a'th ddiddanwch nefol;
a chaniatâ fod i ni,
gan ddilyn esiampl dda
y rhai a'th garodd ac a'th wasanaethodd yma
ac sydd yn awr yn gorffwyso,
ddyfod yn y diwedd gyda hwy
i gyflawnder dy lawenydd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Litaniau a Gweddïau Ymatebol

56.

Mewn tangnefedd gweddiwn ar yr Arglwydd.

Iesu, y bara sy'n disgyn o'r nef,
yr wyt yn llenwi'r newynog â phethau da:
dyro inni gyfran gyda phawb o'r ffyddloniaid ymadawedig
yng ngwledd dy deyrnas.

Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig,
ein hatgyfodiad a'n bywyd.

Iesu, goleuni'r byd,
rhoddaist olwg i'r dyn a anwyd yn ddall
ac agoraist ei lygaid i gredu:
dwg bawb sydd mewn tywyllwch i'th oleuni a'th ogoniant
tragwyddol.

Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig,
ein hatgyfodiad a'n bywyd.

Iesu, Mab y Duw byw,
gelwaist dy ffrind Lasarus o farwolaeth i fywyd:
cyfod ni yn y diwedd i lawnder bywyd tragwyddol gyda thi.

Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig,
ein hatgyfodiad a'n bywyd.

Iesu, Iachawdwr croeshoeliedig,
wrth farw ymddiriedaist Fair dy fam ac Ioan y disgybl
annwyl i'w gilydd:
cynnal a chysura bawb sy'n galaru.

Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig,
ein hatgyfodiad a'n bywyd.

Iesu, ein ffordd a'n gwirionedd a'n bywyd,
arweiniaist dy ddisgybl Thomas o amheuaeth i ffydd:
amlyga'r atgyfodiad i'r rhai sy'n amau a'r rhai sydd ar goll.

Gwrando ni, Arglwydd atgyfodedig,
ein hatgyfodiad a'n bywyd.

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn
ddwyn yr Eglwys gyfan, y byw a'r meirw yn yr Arglwydd
Iesu, i atgyfodiad llawen a chyflawniad ei deyrnas
dragwyddol. **Amen.**

57.

Trown at Grist Iesu mewn hyder
ac mewn ffydd yng ngrym ei groes a'i atgyfodiad.

Arglwydd atgyfodedig, patrwm ein bywyd am byth:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Addewid a delwedd yr hyn a fyddwn:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Fab Duw a ddaeth i ddinistrio pechod ac angau:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Air Duw a'n hachubodd rhag ofn marwolaeth:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd croeshoeliedig, a wrthodwyd yn dy farwolaeth,
ac a gyfodwyd mewn gogoniant:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, bugail tyner sy'n rhoddi gorffwystra i'n
heneidiau, dyro i *E.* dangnefedd am byth:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, yr wyt yn bendithio'r rhai sy'n galaru ac
sydd mewn poen. Bendithia deulu a chyfeillion *E.* a ddaeth
ynghyd o'i *gwmpas/chwmpas* heddiw:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

58.

Y mae'r Arglwydd Iesu yn caru ei bobl, ac ef yw ein hunig
obaith diogel.

Gofynnwn iddo ddyfnhau ein ffydd a'n cynnal yn yr awr
dywyll hon.

Daethost yn blentyn bach er ein mwyn ni, gan rannu ein
bywyd meidrol.

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

Cynyddaist mewn doethineb, mewn oedran ac mewn gras,
a dysgaist ufudd-dod trwy ddioddef.

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

Croesewaist blant ac addo iddynt dy deyrnas:

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

Cysuraist rai a oedd yn galaru o golli plant a chyfeillion.

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

Cymeraist arnat dy hun ddioddefaint a marwolaeth pob un ohonom.

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

Addewaist gyfodi'r sawl sy'n credu ynot, fel y cefaist ti dy gyfodi mewn gogoniant gan y Tad.

Arnat ti y gweddiwn:

bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.

59.

Gyfeillion annwyl, y mae ein Harglwydd yn dod i gyfodi'r meirw ac y mae ef yn ein cysuro â diddanwch ei gariad. Molwn yr Arglwydd Iesu Grist.

Air Duw, creawdwr y ddaear y mae *E.* yn awr yn dychwelyd iddi, yn ei *fedydd/bedydd* gelwaist *ef/hi* i'r bywyd tragwyddol i foliannu dy Dad am byth:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Fab Duw, yr wyt yn cyfodi'r cyfiawn ac yn eu gwisgo â gogoniant dy deyrnas:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd croeshoeliedig, yr wyt yn amddiffyn enaid *E.* trwy allu dy groes, ac ar ddydd dy ddyfodiad byddi'n dangos trugaredd i bob un o'r ffyddloniaid ymadawedig:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Farnwr y byw a'r meirw, wrth dy lais bydd y beddau'n agor a bydd pob un cyfiawn sy'n huno yn dy dangnefedd yn cyfodi i ganu gogoniant Duw:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Pob moliant i ti, Iesu ein Gwaredwr, y mae angau yn dy
ddwylo ac arnat ti yn unig y dibynna pob un byw:

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

60.

Arglwydd Iesu Grist, gwyddost feddyliau ein calonnau,
yr wyt yn rhannu ein llawenydd a'n galar;
dyfnha ein ffydd a chynnal ni yn yr awr dywyll hon.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Arglwydd, cysuraist Fartha a Mair yn eu trallod;
tyrd atom ni sy'n galaru o golli *E.*,
a sych ymaith ddagrau pawb sy'n wylo.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Arglwydd, wylaist wrth fedd Lasarus, dy ffrind,
cysura ninnau hefyd yn ein galar.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

(Arglwydd, golchwyd dy blentyn *E.* yn nŵr y bedydd,
a'i heneinio â'r Ysbryd Glân; dyro *iddo/iddi* gymdeithas â'th
holl saint.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**)

(Arglwydd, porthaist *E.* â'th Gorff a'th Waed; dyro *iddo/iddi*
le wrth fwrdd dy deyrnas.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**)

(Arglwydd, gweinyddodd dy *ddiacon/offeiriad/egob E.* dy
sacramentau ac arwain dy bobl mewn gweddi: bydded
iddo/iddi yn awr gyfranogi o addoliad y nefoedd.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**)

Arglwydd, bydded i'n ffydd fod yn gysur inni,
a'r bywyd tragwyddol yn obaith inni.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

61.

Dad hollalluog, Duw Greawdwr, ffynhonnell a diben pob
bywyd:

trugarha wrthym.

Iesu Grist, Iachawdwr croeshoeliedig ac Arglwydd byw,
cydymaith a thywysydd:

trugarha wrthym.

Ysbryd Glân, cawn ein hadnewyddu trwy dy nerth, a
cherddwn yn dy oleuni heb amheuaeth nac ofn:

trugarha wrthym.

Yng ngwendid ein ffydd, diffyg dyfnder ein gobaith, a
phrinder ein cariad:

trugarha wrthym.

Pan gadwn ein doniau i ni ein hunain, a cheisio byw
hebot ti:

trugarha wrthym.

Am iti ein creu i ti dy hun:

diolchwn iti, O Arglwydd.

Am dy fod yn cynnal bywyd pob enaid:

diolchwn iti, O Arglwydd.

Am dy fod yn ein hadnewyddu yn ein holl ofidiau a
thrallodion, gan ein harwain at ddyfroedd tawel:

diolchwn iti, O Arglwydd.

Am iti, yn atgyfodiad dy Fab, roddi inni sicrwydd ffydd,
goleuni gobaith a grym cariad:

diolchwn iti, O Arglwydd.

62.

Gweddiwn yn hyderus ar Dduw ein Tad,
a gyfododd Grist ei Fab oddi wrth y meirw er
iachawdwriaeth pawb.

Caniatâ, O Arglwydd, i'th *was/wasanaethferch* adnabod
cyflawnder y bywyd a addewaist i'r rhai sy'n dy garu.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Bydd yn agos at y rhai sy'n galaru:
cynydda eu ffydd yn dy gariad anfarwol.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Cryfhaer ein ffydd, bydded inni fyw gweddill ein bywydau
gan ddilyn dy Fab, a bod yn barod pan elwi ni i fywyd
tragwyddol.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Trugarha wrth y rhai sy'n marw; nertha hwy â gobaith,
a llanw hwy â thangnefedd a llawenydd dy bresenoldeb.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**

Arglwydd,
cyflwynwn bawb a fu farw i'th gariad sicr,
fel y cyflawner ynddynt dy ewyllys di.
Gweddiwn y cawn ninnau gyfran gyda hwy
yn dy deyrnas dragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gweddiâu o Ymddiried a Chyflwyno

63.

Arglwydd Iesu, ein prynwr,
buost farw yn ewyllysgar,
er mwyn achub pawb o farwolaeth a'u dwyn i fywyd.
Trwy farw agoraist byrth bywyd
i bawb sy'n credu ynot.

Gan hynny, cyflwynwn *E.* i'th freichiau trugarog,
gan gredu, a'i *bechodau/phechodau* wedi eu maddau,
y caiff breswyllo mewn llawenydd, goleuni a thangnefedd
yn nheyrnas dy ogoniant am byth. **Amen.**

64.

Y mae *E.* wedi huno yn nhangnefedd Crist.
Â'n ffydd a'n gobaith yn y bywyd tragwyddol,
cyflwynwn *ef/hi* i gariad a thrugaredd ein Tad
a'i *amgylchynu/hamgylchynu* â'n cariad a'n gweddïau.
(Yn ei *fedydd/bedydd*, fe'i gwnaed trwy fabwysiad yn
blentyn Duw.
Yn y Cymun, fe'i cynhaliwyd ac fe'i porthwyd.
Y mae Duw yn awr yn ei *groesawu/chroesawu* at ei fwrdd
yn y nefoedd i rannu bywyd tragwyddol gyda'r holl saint.)
Amen.

65.

Dad nefol,
bydd dy Fab Iesu Grist, y cyntaf-anedig o blith y meirw,
yn cyfodi cyrff ei bobl ffyddlon
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef.
Cyflwynwn *E.* i'th drugaredd
a gweddïwn ar iti, wrth ei *gymryd/chymryd* atat dy hun,
ein bendithio ninnau â thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
a fu farw ac a gyfododd drachefn i'n hachub,
ac sy'n awr yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân
mewn gogoniant am byth. **Amen.**

66.

Dad nefol,
rhoddaist inni sicrwydd
y caiff pawb sy'n gweld dy Fab
ac sy'n credu ynddo
fywyd tragwyddol.
Gan ymddiried yn dy ffyddlondeb,
cyflwynwn *E.* i'th drugaredd,
gan ddisgwyl y dydd mawr hwnnw
pan fyddi'n ein cyfodi ni *gydag ef/gyda hi*
i fywyd buddugoliaethus
ac y safwn ger dy fron,
a'th holl greadigaeth wedi ei hadnewyddu
yng ngogoniant dy deyrnas nefol. **Amen.**

67.

Dduw ein creawdwr a'n prynwr,
trwy dy allu fe orchfygodd Crist farwolaeth
a dychwelyd atat mewn gogoniant,
yn dwyn yn ei gorff olion ei ddiodefaint.
Gan hyderu yn dy fuddugoliaeth
a chan hawlio ei addewidion,
yr ydym yn ymddiried *E.* i'th ofal
yn enw Iesu ein Harglwydd,
sydd, er iddo farw, yn awr yn fyw
ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw yn awr ac am byth. **Amen.**

68.

Dad hollalluog,
wrth iti ein dwyn wyneb yn wyneb â'n marwoldeb,
diolchwn i ti am ein llunio ar dy ddelw dy hun
a rhoddi inni ddoniau'r corff, y meddwl a'r ysbryd.
Diolchwn i ti yn awr wrth inni dalu teyrnged i *E.*,
a roddaist inni ac a gymeraist ymaith.
Ymddiriedwn *effhi* i'th drugaredd,
a gweddïwn ar iti ddangos inni lwybr y bywyd,
a chyflawnder llawenydd yn dy bresenoldeb
byth bythoedd. **Amen.**

69.

Hollalluog Dduw,
yn dy gariad mawr
lluniaist ni â'th ddwylo
a thrwy dy Ysbryd rhoddaist i ni anadl einioes.
Ni chefnaist arnom
er i ni fod yn bobl wrthryfelgar,
O'th dyner drugaredd
anfonaist dy Fab
i adfer dy ddelw arnom.
Dangosodd ei gariad
trwy farw drosom ar y groes.
Trwy dy allu nerthol
cyfodaist ef o'r bedd

a'i ddyrchafu i orsedd y gogoniant.
Gan ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth
a chan ymddiried yn dy addewid
i roi bywyd tragwyddol i bawb sy'n troi at Grist,
cyflwynwn *E.* i'th drugaredd,
ac ymunwn â'th holl bobl ffyddlon
ac â holl gwmpeni'r nef
yn yr un gân dragwyddol o foliant:

**Y mawl a'r anrhydedd,
y gogoniant a'r gallu
a fo i ti, byth bythoedd. Amen.**

Ffurfiâu ar y Fendith a Diweddiadau Eraill

70.

Ac yn awr iddo ef
sydd â'r gallu ganddo i'n cadw rhag syrthio,
a'n codi o ddyffryn tywyll anobaith
i fynydd disglair gobaith,
o ganol nos trallod i wawrddydd llawenydd;
iddo ef y byddo gogoniant a mawrhydi, gallu ac awdurdod,
yn awr a byth bythoedd. **Amen.**

71.

Duw fo yn fy mhen
ac yn fy neall;
Duw fo yn fy nhrem,
ac yn f'edrychiad;
Duw fo yn fy ngair
ac yn fy siarad;
Duw fo yn fy mron
ac yn fy nirnad;
Duw fo ar ben fy nhaith,
ac ar f'ymadawiad. **Amen.**

72.

Bydded i Grist y bugail da
eich cofleidio â chariad,
eich llenwi â thangnefedd,
a'ch tywys mewn gobaith hyd ddiwedd eich dyddiau;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

73.

Bydded i gariad Duw
a thangnefedd ein Harglwydd Iesu Grist
eich cysuro a sychu ymaith yn dyner bob deigr yn o'ch
llygaid.
Bendithied yr Hollalluog Dduw chwi,
yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân. **Amen.**

74.

Bydded i'r Duw tragwyddol
ein bendithio a'n cadw,
amddiffyn ein cyrff, achub ein heneidiau
a'n dwyn yn ddiogel i'r wlad nefol,
ein cartref tragwyddol,
lle y mae'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân yn teyrnasu,
yn un Duw byth bythoedd. **Amen.**

Mewn Gwasanaeth Coffa

75.

Bydded i gariad yr Arglwydd Iesu eich tynnu ato'i hun;
bydded i nerth yr Arglwydd Iesu eich cryfhau yn ei
wasanaeth; a bydded i lawenydd yr Arglwydd Iesu lenwi
eich calonnau;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad a'r Mab ac Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

76.

Bydded i'r Drindod anfeidrol a gogoneddus,
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,
gyfarwyddo ein bywyd mewn gweithredoedd da,
a rhoddi inni, ar derfyn ein taith trwy'r byd hwn,
orffwysfa dragwyddol gyda'r saint. **Amen.**

77.

Bydded i'r Arglwydd Dduw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
y Drindod sanctaidd a diwahân,
ein gwarchod, ein hachub,
a'n dwyn i'r ddinas nefol honno
lle y mae'n fyw ac yn teyrnasu byth bythoedd. **Amen.**

78.

Yr Arglwydd Dduw hollalluog yw ein Tad:
y mae yn ein caru ac yn gofalu'n dyner amdanom.

Yr Arglwydd Iesu Grist yw ein Hiachawdwr:
fe'n gwaredodd ac fe'n hamddiffyn ni hyd y diwedd.

Y mae'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, yn ein plith:
fe'n tywys yn ffordd sanctaidd Duw.

I Dduw hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân:
y bo'r moliant a'r gogoniant yn awr ac am byth. Amen.

Gweddïau i'w defnyddio ar ôl Salmu

I'w defnyddio ar ôl Salm 6:

Arglwydd, pylodd ein llygaid gan ofid,
gwyddost ein bod yn diffygio gan ein cwynfan.
Wrth inni gofio am ein marwolaeth
yng ngwacter tywyll y nos,
trugarha wrthym ac iachâ ni;
maddau inni a dwg ymaith ein hofn
trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu dy Fab. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 32:

Arglwydd, ein cysgod mewn cyfyngder,
dygi ein heuogrwydd i gof.
Y mae dy law yn drwm arnom;
sychwyd ein nerth
ac yr ydym yn cydnabod yn agored ein heuogrwydd.
Amgylcha ni â'th drugaredd.
Dysg ni i ymddiried ynot,
a dwg ni yn y diwedd
i lawenhau yn dy bresenoldeb am byth. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 38:

Arglwydd, trugarha wrth y sawl
sy'n galaru ar hyd y dydd,
wedi eu llethu gan faich o ofid, eu nerth yn pallu,
a'u cyfeillion a'u cymdogion wedi cilio.
Gwyddost am ein holl ocheneidio a'n dyheu:
bydd yn agos atom a dysg i ni obeithio ynot ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 39:

Arglwydd Iesu Grist, Mab y Duw byw,
caniatâ inni dy geisio yn wastadol
ac ymborthi arnat gydol ein dyddiau,
canys yr wyt ti ym mhopeth
gyda phopeth a thrwy bopeth,
yn awr a hyd byth. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 90:

Dysg ni, Arglwydd, i gyfrif ein dyddiau;
i weld rhychwant ein heinioes yng ngoleuni tragwyddoldeb.
Amlyga inni dy ysblander.
Dyro inni ddoethineb a gras i adnabod dy gariad
ac i ymlawenhau yn dy faddeuant a'th fywyd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 116:

Arglwydd bywyd,
rhodiwn drwy dragwyddoldeb yn dy bresenoldeb.
Arglwydd marwolaeth,
galwn arnat yn ein gofid a'n galar:
ac yr wyt ti yn ein clywed a'n hachub.
Gwylia drosom wrth inni alaru am dy *was/wasanaethferch*,
sy'n werthfawr yn dy olwg,
a chadw ni'n ffyddlon i ti. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 120:

Dduw pob trugaredd,
yr ydym mewn helbul ac yn galw arnat.
Gwared ni rhag twyll ac enllib
a phoen ymosodiad y gelyn,
a dyro inni dangnefedd,
tangnefedd Crist a enillwyd ar y groes. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 121:

Arglwydd ffyddlon,
gwylia drosom a chadw ni'n ddiogel.
Bydd gyda ni yn ein mynd a'n dod,
yn awr ac am byth. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 130:

Arglwydd trugaredd a gwaredigaeth,
achub ni, gweddiwn arnat, o ddyfnderoedd pechod a
marwolaeth;
maddau inni bob camwedd,
a dyro inni ras i sefyll yn dy bresenoldeb,
i'th wasanaethu yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 138:

Arglwydd,
na chefna arnom yn ein trallod.
Cadw ni'n ddiogel yng nghanol cyfyngder.
a chwblha dy bwrpas ar ein cyfer
trwy dy gariad a'th ffyddlondeb diwro
yn Iesu Grist ein Hiachawdwr. **Amen.**

I'w defnyddio ar ôl Salm 139:

Arglwydd,
ti sydd wedi ein creu a'n llunio,
yr wyt wedi ein chwilio a'n hadnabod,
yr wyt bob amser gyda ni mewn goleuni a thywyllwch
cynorthwya ni i adnabod dy bresenoldeb yn y bywyd hwn
ac, yn y bywyd a ddaw, i barhau i fod gyda thi,
lle'r wyt yn fyw ac yn teyrnasu,
yn Dduw am byth. **Amen.**

XIII.

Darlleniadau o'r Beibl a Salmau i'w Defnyddio mewn Gwasanaethau Angladd a Gwasanaethau Coffa



*Mae'r darlleniadau a'r salmau a nodwyd â * yn arbennig o addas yn angladd plentyn.*

Darlleniadau o'r Beibl

Pregethwr 3. 1-8; *Amser i bopeth.*

Eseia 25. 6-9; 26. 3, 4; *Llyncir angau am byth.*

* Eseia 61. 1-3; *Newydd da i'r toredig o galon.*

Galarnad 3. 22-26, 31-33; *Trugaredd diderfyn yr Arglwydd.*

Doethineb Solomon 3. 1-9;

Ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan.

* Mathew 5. 1-12a; *Y Gwynfydau.*

* Mathew 11. 25-30; *Fe roddaf fi orffwystira i chwi.*

* Mathew 18. 1-5, 10; *Y mwyaf yn Nheyrnas Nefoedd.*

* Marc 10. 13-16; *Gadewch i'r plant ddod ataf fi.*

Marc 15. 33-39; 16.1-7; *Marwolaeth ac atgyfodiad Crist.*

Luc 24. 13-16, (17-27), 28-35; *Y ffordd i Emaus.*

Ioan 5. 24-29; 6. 37-40; *Gweld y Mab a chredu ynddo.*

Ioan 6. 53-58; *Caiiff y sawl sy'n bwyta'r bara hwn fyw am byth.*

* Ioan 10. 11-16; *Myfi yw'r bugail da.*

Ioan 11. 21-27; *Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.*

Ioan 14. 1-6, 18, 19; *Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.*

Ioan 20. 1-9, (10-19); *Y Crist atgyfodedig*

Rhufeiniaid 8. 31b-39;

Ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist.

Rhufeiniaid 14. 7-9, (10-13, 16, 17);

Arglwydd y meirw a'r byw.

1 Corinthiaid 15. 3-20; *Tystio i atgyfodiad Crist.*

1 Corinthiaid 15. 20-26, 35-38, (39-41), 42-58;

O angau, ble mae dy fuddugoliaeth?

2 Corinthiaid 4. 16 – 5.9; *Gogoniant digymar.*

Philipiaid 3. 7-11, (12-21);

Grym atgyfodiad Crist (Dinasyddion y nefoedd).

2 Timotheus 2. 8-13; *Byddwn fyw gyda Christ.*

* 1 Pedr 1. 3-9; *Gobaith bywiol.*

* 1 Ioan 3. 1, 2; *Plant Duw.*

* 1 Ioan 4. 7-18a; *Cariad yw Duw.*

Datguddiad 7. 9-17; *Bydd Duw yn sychu pob deigrin.*

Datguddiad 20. 11-13; *Llyfr y bywyd.*

* Datguddiad 21. 1-7; *Y Jerwsalem newydd.*

Salmau

* Salm 23.

Salm 90. 1-6, 10, 12-17.

* Salm 103. 1-4, 13-18.

* Salm 121.

Salm 139. 1-12.

Gweler hefyd yr adran “Gweddïau i’w defnyddio ar ôl y Salmau” ar tudalen 169.

XIV.
**Cantiglau i'w Defnyddio mewn
Gwasanaethau Angladd a Choffa**



1. *Cân am y Gwarddwr*

**Cyhoeddwch flwyddyn ffafr yr Arglwydd:
a diddanwch bawb sy'n galaru.**

Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf:
oherwydd i'r Arglwydd fy eneinio

I gysuro'r toredig o galon:
ac i roi gollyngdod i'r carcharorion;

I gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd:
ac i ddiddanu pawb sy'n galaru,

I roi iddynt olew llawenydd yn lle galar:
mantell moliant yn lle digalondid.

Gelwir hwy yn brennau cyfiawnder:
wedi eu plannu gan yr Arglwydd i'w ogoniant.

Felly y gwna'r Arglwydd Dduw i gyfiawnder a moliant:
darddu gerbron yr holl genhedloedd.

Ailadeiladant hen adfeilion:
atgyweiriant ddinasoedd diffaith.

Fe'u gelwir hwy yn Waredigion yr Arglwydd:
ac fe'th elwir di yn Ddinas nas gwrthodwyd.

Eseia 61. 1-3, 11b, 4; 62. 12

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

2. *Cân Manasse*

Llawn tosturi a thrugaredd a chariad: yw'r Duw goruchaf a hollalluog.

Arglwydd hollalluog, Duw ein tadau ni:
ti a wnaeth nef a daear a holl ysblander eu trefn.

Y mae pob peth yn crynu ac yn dychrynu:
gerbron dy allu di.

Difesur a diamgyffred yw'r drugaredd a addewaist:
cans ti yw'r Arglwydd goruchaf.

Yr wyt yn dosturiol a hirymarhous a mawr dy drugaredd:
yn ymatal rhag cosbi drygioni dynion.

Arglwydd Dduw y cyfiawn:
ordeiniaist edifeirwch i mi, sy'n bechadur.

Oherwydd lluosocach na thywod y môr:
yw nifer fy mhechodau i.

Amlhaodd fy nhroseddau, fel nad wyf deilwng:
i edrych i fyny a syllu ar uchder y nefoedd.

Ac yn awr rwy'n darostwng fy nghalon:
gan ddeisyf dy ffyddlondeb.

Pechadur wyf, O Arglwydd, pechadur:
ac yr wyf yn cydnabod fy nhroseddau.

Er mor annheilwng wyf:
fe'm hachubi yn ôl dy drugaredd fawr.

Oherwydd y mae holl lu'r nefoedd yn dy foliannu di:
ac eiddot ti yw'r gogoniant am byth.

Manasse 1a, 2, 4, 6, 7, 8a, 8ch, 9, 10a, 10c, 11, 12, 14b, 15b

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

3. *Iustorum Animae*

Cafodd Duw yr uniawn yn deilwng: a digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb.

Y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw:
ac ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan.

Yn llygaid y rhai ynfyd, y maent fel pe baent wedi marw:
ond y maent mewn hedd.

Oherwydd er i gosb ddod arnynt yng ngolwg dynion:
digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb;

Ac er eu disgyblu ychydig, mawr fydd eu hennill:
am fod Duw wedi eu profi
a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun.

Fel aur mewn tawddlestr y profodd hwy:
ac fel poethoffrwm yr aberth y derbyniodd hwy.

Pan ddaw Duw i ymweld â hwy cyneuant yn wenfflam:
fel gwreichion mewn sofr fe redant drwy'r byd.

Cânt lywodraethu ar genhedloedd a rheoli ar bobloedd:
a'r Arglwydd fydd eu brenin am byth.

Bydd y rhai sy'n ymddiried ynddo ef yn deall y gwir:
a'r ffyddloniaid yn gweini arno mewn cariad,

Oherwydd gras a thrugaredd:
yw rhan ei etholedigion.

Doethineb Solomon 3. 1, 2a, 3b-9

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

4. *Nunc Dimittis*

**Pan fyddom yn effro, bydded inni wylio gyda Christ:
pan fyddom ynghwsg, bydded inni orffwys mewn
tangnefedd.**

Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd:
mewn tangnefedd yn unol â'th air;

Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd:

Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd
ac yn ogoniant i'th bobl Israel."

Luc 2. 29-32

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

5. *Cân y Rhai a Gyfiawnhawyd*

**Oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd:
y mae gennym heddwch â Duw
trwy ein Harglwydd Iesu Grist.**

Y mae cyfiawnder i'w gyfrif i ni, sydd â ffydd gennym:
yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd oddi wrth y
meirw.

Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau:
a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni.

Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy
ffydd:
y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu
Grist.

Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd:
i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo.

Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith:
y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw.

Yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau:
oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i
ymddál,

Ac o'r gallu i ymddál y daw rhuddin cymeriad:
ac o gymeriad y daw gobaith.

A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo:
oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein
calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni:
yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn
bechaduriaid.

A ninnau yn awr wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed ef:
y mae'n sicrach fyth y cawn ein hachub trwyddo ef rhag y
digofaint.

parhad

Ond heblaw hynny, yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn Nuw trwy ein Harglwydd Iesu Grist: trwyddo ef yr ydym yn awr wedi derbyn y cymod.

Rhufeiniaid 4. 24, 25; 5. 1-5, 8, 9, 11

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

6. Cân Plant Duw

**Y mae Ysbryd y Tad,
a gyfododd Grist Iesu oddi wrth y meirw:
yn rhoddi bywyd i bobl Dduw.**

Yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd, sy'n rhoi bywyd: wedi ein rhyddhau o afael cyfraith pechod a marwolaeth.

Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw:

oherwydd inni dderbyn yr Ysbryd yr ydym trwyddo yn llefain, "Abba! Dad!"

Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni: ein bod yn blant i Dduw.

Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chydetifeddion â Christ:

os yn wir yr ydym yn cyfranogi o'i ddiodefaint ef er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.

Nid yw dioddefiadau'r presennol:

i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni.

Yn wir, y mae'r greadigaeth yn disgwyl yn daer: am i blant Duw gael eu datguddio.

Rhufeiniaid 8. 2, 14, 15b-19

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

7. *Cân o Ffydd*

Cyfododd Duw Grist oddi wrth y meirw: yr Oen di-fai a di-nam.

Bendigedig fyddo Duw a Thad:
ein Harglwydd Iesu Grist!

O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i
obaith bywiol:

trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,

I etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa:
Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi,

Chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw
hyd nes y daw iachawdwriaeth:

yr iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr
amser diwethaf.

Nid â phethau llygradwy, arian neu aur, y prynwyd ichwi
ryddid:

oddi wrth yr ymarweddiad ofer a etifeddwyd gennych,

Ond â gwaed gwerthfawr:

Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist.

Trwyddo ef yr ydych yn credu yn Nuw:

yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw ac a roes iddo
ogoniant, fel y byddai eich ffydd a'ch gobaith chwi yn Nuw.

1 Pedr 1. 3-5, 18, 19, 21

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

8. *Cân y Rhai a Brynwyd*

**I'n Duw ni y perthyn y waredigaeth:
fe'n tywys at ffynhonnau'r dyfroedd byw.**

Wele dyrfa fawr:
na allai neb ei rhifo,

O bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd:
yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen,

Wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo:
Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel,

“I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen:
y perthyn y waredigaeth!”

Dyma'r rhai sy'n dod allan o'r gorthrymder mawr:
y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr
Oen.

Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw:
ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml,

A bydd yr hwn sy'n eistedd ar yr orsedd:
yn lloches iddynt.

Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy:
ni ddaw ar eu gwarthaf na'r haul na dim gwres,

Oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd:
yn eu bugeilio hwy,

Ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd:
a bydd Duw yn sychu pob deigr yn o'u llygaid hwy.

Datguddiad 7. 9, 10, 14b-17

**I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r gallu
byth bythoedd! Amen**

9. *Cân am yr Oen*

**Llawenhawn a gorfoleddwn:
a rhoddwn ogoniant a gwrogaeth i'n Duw.**

Eiddo ein Duw ni y waredigaeth a'r gogoniant a'r gallu:
oherwydd gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau ef,

Molwch ein Duw ni, chwi ei holl weision ef:
a'r rhai sy'n ei ofni ef, yn fach a mawr.”

Y mae'r Arglwydd ein Duw, yr Hollalluog, wedi dechrau
teyrnasu:

Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo'r gogoniant,

Oherwydd daeth dydd priodas yr Oen:
ac ymbaratôdd ei briodferch ef.

Gwyn eu byd y rhai sydd wedi eu gwahodd:
i wledd briodas yr Oen.

Datguddiad 19. 1b, 2b, 5b, 6b, 7, 9b

**I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r gallu
byth bythoedd! Amen**

10. *Can o'r Eiddo Sant Anselm*

**Casgla dy blant ynghyd, O Dduw:
fel y casgl iâr ei chywion i'w hamddiffyn.**

Iesu, fel mam, 'rwynt yn casglu dy bobl atat,
'rwynt yn addfwyn â ni fel y mae mam wrth ei phlant.

'Rwynt yn wyllo yn aml dros ein pechod a'n rhyfyg,
'rwynt yn ein gwared yn dyner rhag casineb a barn.

'Rwynt yn ein cysuro mewn galar ac yn rhwymo ein doluriau,
'rwynt yn gofalu amdanom yn ein gwaeledd ac yn ein porthi
â llaeth pur.

Iesu, trwy dy angau cawn ein geni drachefn,
trwy dy loes a'th ludded deuwn ninnau i lawenydd.

Try anobaith yn obaith trwy dy ddaioni hael,
trwy dy addfwynder cawn gysur mwyn yn wyneb ofn.

Dy gynhesrwydd sy'n rhoi bywyd i'r meirw,
dy gyffyrddiad sy'n cyfiawnhau'r pechadurus.

Arglwydd Iesu, yn dy drugaredd, iachâ ni,
yn dy gariad a'th dynerwch trawssffurfia ni.

Yn dy dosturi dyro ras a maddeuant,
Bydded i'th gariad ein paratoi at hyfrydwch y nef.

Anselm o Gaer-gaint

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

XV.

**Detholiad o Emynau ac Anthemau i'w Defnyddio mewn
Gwasanaethau Angladd a Gwasanaethau Coffa**



Emynau

*Mae'r emynau a nodwyd â * yn arbennig o addas yn angladd plentyn.*

*Fersiynau mydryddol o'r salmau yw'r emynau a nodwyd â + a
gellir eu defnyddio yn lle'r salmau a ddarparwyd.*

1. Am fod fy Iesu'n fyw. (*John Thomas*)
2. Am rif y saint y sydd o'u gwaeau'n rhydd.
(*W. Walsham How, cyf. T. Gwynn Jones*)
3. Arglwydd gad im dawel orffwys. (*Emrys*)
4. Arglwydd Iesu, arwain f'enaid. (*Morswyn*)
5. Arglwydd pob gobaith, ac Arglwydd pob hoen.
(*Jan Struther, cyf. D. Eirwyn Morgan*)
6. Braint, braint yw cael cymdeithas.
(*John Roberts ac eraill*)
- * 7. Bydd canu yn y nefoedd. (*Pedr Hir*)
8. Canaf am yr addewidion. (*Watcyn Wyn*)
9. Craig yr oesoedd, cuddia fi. (*A. M. Toplady, cyf. Alafon*)
- * 10. Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd.
(*E. L. Budry, R. B. Hoyle, cyf. O. M. Lloyd*)
11. Chwi bererinion glân. (*William Williams*)
- * 12. Daeth Iesu o'i gariad. (*Watcyn Wyn*)
13. Dal fi'n agos at yr Iesu. (*E. Herber Evans*)
14. Dechrau canu, dechrau canmol. (*William Williams*)
15. Deuwch gyda mi draw i dŷ fy Nhad.
(*Anad., cyf. Harri Williams*)
16. Diolchwn oll i Dduw. (*M. Rinkart, cyf. J. Henry Jones*)
17. Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn.
(*C. F. Alexander, cyf. Elfed*)
- * 18. Duw fo yn fy mhen.
(*Horae BVM Sarum, cyf. R Glyndwr Williams*)
- + 19. Duw yw ein noddfa ni a'n nerth.
(*Salm 46, Gwynn ap Gwilym*)

20. Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr. (*Morgan Rhys*)
- * + 21. F'enaïd, mola Dduw'r gogoniant.
(*H.F.Lyte, cyf. G. Wynne Griffith*)
22. Fe roed imi ddymuniadau. (*William Williams*)
23. Gobaith mawr y mae'r addewid. (*John Jones*)
24. Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes.
(*J.D. Vernon Lewis*)
25. Iesu, cyfaill f'enaïd i.
(*C. Wesley, cyf. D. Tecwyn Evans*)
26. Mae Eglwys Dduw fel dinas wych. (*Benjamin Francis*)
27. Mae ehangder yn ei dostur. (*F.W.Faber, cyf.*)
28. Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu. (*David Charles*)
29. Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar. (*William Williams*)
30. Mi godaf f'egwan lef. (*Ben Davies*)
31. Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw. (*Thomas Jones*)
32. Mor beraidd i'r credadun gwan.
(*J.Newton, cyf. David Charles*)
33. Myfi yw'r atgyfodiad mawr. (*Ellis Wynne*)
34. N'ad i'r gwyntoedd cryf dychrynlyd
(*William Williams*)
35. Na foed cydweithwyr Duw. (*Elfed*)
36. Ni allodd angau du. (*Gwilym ab Elis*)
37. O am nerth i dreulio 'nyddiau. (*William Williams*)
38. O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau.
(*H.F.Lyte, cyf. Lewis Edwards*)
39. O ddedwydd awr tragwyddol orffwys. (*Ann Griffiths*)
40. O fy Iesu bendigedig. (*Eben Fardd*)
41. O gariad na'm gollyngi i.
(*G. Matheson, cyf. D. Tecwyn Evans*)
42. O gorfoleddwn oll yn awr. (*W.Rhys Nicholas*)
43. O Iesu y ffordd ddigyfnewid. (*W.Rhys Nicholas*)
44. Os gwelir fi, bechadur. (*amryw awduron*)
45. Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr. (*John Roberts*)
46. Pererin wyf mewn anial dir. (*William Williams*)
47. Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn. (*Moelwyn*)
48. Rho im yr hedd na wŷr y byd amdano. (*Elfed*)
49. Tydi sy deilwng oll o'm cân. (*David Charles*)
50. Wel, f'enaïd dos ymlaen. (*William Williams*)
51. Y dydd a roddaist, Ior, a giliodd.

(*J. Ellerton, cyf. R. D. Roberts*)

52. Ynghanol nos, oleuni mwyn y nef.

(*J. H. Newman, cyf. E. Keri Evans*)

53. Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau. (*Dafydd William*)

* + 54. Yr Arglwydd yw fy mugail i.

(*Salm 23, Gwynn ap Gwilym*)

55. Yr Iesu atgyfododd. (*Thomas Levi*)

Anthemau

1. Am fod fy Iesu'n fyw. (*Tom Price*)
2. Ave, verum corpus. (*W. A. Mozart*)
3. Bwrw dy faich. (*W. Matthews Williams*)
4. Cofia yn awr dy greawdwr. (*J. Morgan Lloyd*)
5. Deuwch ataf fi. (*John Lloyd*)
6. Duw, bydd drugarog. (*Joseph Parry*)
7. Duw sydd berffaith ei ffordd. (*Wilfrid Jones*)
8. Duw sydd noddfa. (*Olive V. Williams*)
9. Dyrchafaf fy llygaid. (*T. Hopkin Evans*)
10. Dysg i mi dy lwybrau. (*D. W. Lewis*)
11. Eiddot ti, O Dduw, yw y mawredd. (*James Kent*)
12. Eisteddai teithiwr blin. (*D. Emlyn Evans*)
13. Fel y brefa yr hydd. (*Lowell Mason*)
14. Fe welir Seion fel y wawr. (*M. O. Jones*)
15. Gair ein Duw. (*T. Hopkin Evans*)
16. Graslun a thrugarog. (*Vera Henry*)
17. Gwyn eu byd y meirw. (*David Evans*)
18. Na thralloder eich calon. (*David Jenkins*)
19. O Brynwr mawr y byd. (*John Goss*)
20. O Dduw gwirionedd glân. (*J. S. Bach*)
21. O fy Arglwydd, O fy Mhrynwr. (*W. A. Mozart*)
22. Pan lesmeirio fy nghalon. (*W. B. Bradbury*)
23. Pebyll yr Arglwydd. (*Joseph Parry*)
24. Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd? (*E. T. Davies*)
25. Pwy yw y rhai hyn?. (*J. H. Roberts*)
26. Y cyfiawn a drig yn y nef. (*W. Billings*)
27. Yr Arglwydd yw fy nghraig. (*D. E. Parry-Williams*)
28. Yr Arglwydd yw fy mugail. (*Caradog Roberts*)

Rhan tri

**LITWRGIAU YCHWANEGOL
AR GYFER AMGYLCHIADAU ARBENNIG
WEDI EU CYMERADWYO GAN
FAINC YR ESGOBION
(heb fod yn rhan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin)**



GWEDDÏAU DROS BLENTYN

GWEDDÏAU AR ÔL CAMESGOR

Cymeradwywyd y Litwrgi a gynhwysir ar dudalennau 188 – 193 gan Fainc yr Esgobion (*Mehefin 2015*) ac fe'i cynhyrchwyd gan y Comisiwn Sefydlog Ymgynghorol ar Litwrgi i'w ddefnyddio yng ngwasanaethau'r Eglwys yng Nghymru.

Ymgynnull

Yn enw'r Tad
a'r Mab
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Cyfarchiad

Duw pob tosturi a gobaith a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Rhagarweiniad

Y mae ein bywydau, a lanwyd unwaith â chymaint o obaith a llawenydd, yn awr wedi eu cyffwrdd â thristwch gan farwolaeth y plentyn bychan hwn. Eto, â chalonnau drylliedig, gallwn ymgysuro yn yr Arglwydd a adnabu'r plentyn hwn (*hyd yn oed tra tyfai yng nghroth ei fam/mam*) oherwydd Duw yw Arglwydd bywyd. Yn Iesu, a gnawdiwyd yng nghroth Mair (*neu: a anwyd o Fair*), fe'n harwain ni adref i'r nef. Ac felly gallwn, â ffydd a gobaith, draddodi'r un *bychan hwn/fechan hon* i ofal cariadus Duw, ei *Dad/Thad* nefol.

Darlleniad

Gellir defnyddio un neu fwy o'r darlleniadau canlynol neu ddarlleniad priodol arall:

Yna gwelais nef newydd a daear newydd. Clywais lais uchel o'r orsedd yn dweud, "Wele, y mae preswylfa Duw gyda dynion; bydd ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy yn Dduw iddynt. Fe sych bob deigr yn o'u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen. Y mae'r pethau cyntaf wedi mynd heibio." Yna dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd, "Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd."

Datguddiad 21. 1a, 3-5a

Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd, o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.

Nid yw'n gadael i'th droed lithro, ac nid yw dy geidwad yn cysgu. Nid yw ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno.

Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw;

ni fydd yr haul yn dy daro yn y dydd, na'r lleuad yn y nos.

Bydd yr Arglwydd yn dy gadw rhag pob drwg, bydd yn cadw dy einioes.

Bydd yr Arglwydd yn gwylio dy fynd a'th ddod yn awr a hyd byth.

Salm 121

Ymbiliau

O Dduw, yr wyt yn ein hadnabod gorff ac enaid.

Cryfha *E.* ac *E.* a dyro iddynt obaith newydd.

Y mae dy law yn fy arwain:

dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

Gwyddost pa bryd y byddwn yn codi ac yn mynd i orffwys.

Dyro i'r teulu hwn sicrwydd o'r bywyd tragwyddol.

Y mae dy law yn fy arwain:

dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

Adnabuost y plentyn hwn,

hyd yn oed cyn ei fod.

Derbyn *ef/hi* i'th ofal cariadus.

Y mae dy law yn fy arwain:

dy ddeheulaw yn fy nghynnal.

[Yr wyt wedi cau amdanom yn ôl ac ymlaen.

Gweddiwn dros *E.*, a fu'n edrych ymlaen â'r fath lawenydd

a chyffro at eni *brawd bach/chwaer fach* newydd.

Bydded *iddo/iddi* deimlo agosrwydd dy gariad.

Y mae dy law yn fy arwain:

dy ddeheulaw yn fy nghynnal.]

Y mae dy wybodaeth y tu hwnt i'n deall.

Cymorth ni i ddirnad dy ewyllys

ac i sefyll yn dy wŷydd â pharchedig ofn.

Gweddiwn ar Dduw ein Tad nefol a thosturiol:

**Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

neu

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Gweddi ar ôl Camesgor

Arglwydd Dduw,
sy'n llawn tiriondeb a thosturi,
traddodwn i'th gariad yr un *bychan hwn/fechan hon*.
Er byrred ei *fywyd/bywyd*,
cofleidia *ef/hi* yn dy gariad tragwyddol.
Bydded i'w *rieni/rhieni*,
a dristawyd mor enbyd o golli eu plentyn,
gael gwroldeb a gobaith.
Tywys hwy drwy eu poen a'u galar
i ddyddiau a fydd yn llawn o lawenydd a gorfoledd.
Byddent iddynt oll gwrdd ryw ddydd
yn llawenydd a thangnefedd dy deyrnas.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Dad cariadus,
Ti yw ein noddfa a'n nerth,
ein gobaith a'n gofal cyson.
Cysura'r rhieni hyn a dyro iddynt wybod
bod yr un *bach/fach* y maent yn galaru *amdano/amdani*
yn awr wedi ei *ymddiried/hymddiried* i'th ofal cariadus.
Sych bob deigryn o'u llygaid
a chyfnertha eu calonnau drylliedig fel
gan ddyheu am fywyd,
y canfyddant gyflawnder yn Iesu dy Fab
y mae ei atgyfodiad
yn adfer ein bywydau i ti,
ac yn ein harwain i fywyd nefol.
Trwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

neu

Arglwydd Dduw,
mae gorthrwm galar yn drwm ar y rhieni hyn.
Gwyddost eu poen a'r tristwch
a deimlant o golli'r plentyn.
Cysura hwy â'r wybodaeth
fod y plentyn yn fyw yn dy ofal cariadus.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Bendith

Bydded i'r Arglwydd eich bendithio a'ch cadw;
bydded i'r Arglwydd lewyrchu ei wyneb arnoch a bod yn
drugarog wrthy;ch;
bydded i'r Arglwydd edrych arnoch yn gariadus a rhoi i
chwi dangnefedd; a bendith Duw hollalluog,
y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

AMSER O WEDDI A MYFYRDOD I'R RHAI SY'N METHU Â BOD MEWN ANGLADD

Cymeradwywyd y Litwrgi a gynhwysir ar dudalennau 194 – 200 gan Fainc yr Esgobion (*Mai 2020*).

Pan fo rhywun annwyl ac adnabyddus inni yn marw, mae'n bwysig ffarwelio a chofio ac anrhydeddu bywyd a olygai lawer i ni. Ond yn wyneb y sefyllfa bresennol mae nifer a fyddai'n dymuno bod mewn angladd benodol yn cael eu gwahardd. Bydd y drefn fer hon yn gymorth ichi ffarwelio'n ffurfol yn eich cartref.

Wrth ichi ddarllen drwy'r weithred fer hon o addoli a chofio, dywedwch enw'r un a fu farw lle y gwelwch *E*. Efallai y carech oleuo kannwyll a'i gosod ger llun o'r un a gofir ac, efallai, chwarae darn o gerddoriaeth a olygai lawer *iddo/iddi*. Oedwch ac eisteddwch yn dawel. Meddyliwch am y rhai sydd yn yr angladd a chyflwynwch hwy i Dduw yn nhawelwch yr eiliad.

Goleuo'r gannwyll

Galkwch ddweud y geiriau hyn wrth oleuo'r gannwyll:

Iesu yw Goleuni'r Byd. Boed i'w oleuni, yn cyfodi mewn gogoniant, chwalu tywyllwch ein calonnau a'n meddyliau

Rhai geiriau cysurlon o'r Beibl:

Duw'r oesoedd yw dy noddfa, ac oddi tanodd y mae'r breichiau tragwyddol.

Deuteronomium 33. 27

Dywedodd Iesu,
“Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni.”

Ioan 14. 27

Gweddi Agoriadol

Iesu cariadus, addewaist i'th ddisgyblion y byddet ti gyda hwy bob amser. Cynorthwya ni i wybod dy fod di gyda ni yn awr yn ein tristwch a'n galar. Pan wynebaist y groes dywedaist wrth dy ddisgyblion am beidio â gofidio nac ofni, oherwydd yr oeddet ti yn mynd o'u blaen hwy. Yn hyderus fod *E.* yn ddiogel yn dy gariad, cynorthwya ni i fod yn gadarn ein ffydd a dyro inni heddwch meddwl. Bydd gyda ni yn ystod yr ysbaid fer hon o fyfyrddod ac amgylcha ni â'th gariad ac â'th dangnefedd, yn awr ac am byth. Amen.

Darllener naill ai Salm 23

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.
Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio.
Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.
Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.
Yr wyt yn arlwyyo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelnyion; yr wyt yn eninio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.
Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.

neu Salm 139. 1-11, 13

Arglwydd, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod.
Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi:
yr wyt wedi deall fy meddwl o bell.
Yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys:
ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd.
Oherwydd nid oes air ar fy nhafod:
heb i ti, Arglwydd, ei wybod i gyd.
Yr wyt wedi cau amdanaf yn ôl ac ymlaen:
ac wedi gosod dy law drosof.

Y mae'r wybodaeth hon yn rhy ryfedd i mi:
y mae'n rhy uchel i mi ei chyrraedd.
I ble yr af oddi wrth dy ysbryd?:
I ble y ffoaf o'th bresenoldeb?
Os dringaf i'r nefoedd, yr wyt yno:
os cyweirïaf wely yn Sheol, yr wyt yno hefyd.
Os cymeraf adenydd y wawr a thrigo ym mhellafoedd y môr:
yno hefyd fe fydd dy law yn fy arwain, a'th ddeheulaw yn fy
nghynnal.
Os dywedaf, "Yn sicr bydd y tywyllwch yn fy nghuddio: a'r
nos yn cau amdanaf",
Eto nid yw tywyllwch yn dywyllwch i ti: y mae'r nos yn
goleuo fel dydd, a'r un yw tywyllwch a goleuni.
Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol,
ac y mae dy weithredoedd yn rhyfeddol:
yr wyt yn fy adnabod mor dda.

Efallai yr hoffech ddarllen, hefyd, un o'r darnau Ysgrhythurol isod.

Pan welodd Iesu y tyrfaeodd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi
iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato. Dechreuodd eu
hannerch a'u dysgu fel hyn: "Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion
yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.
Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro.
Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r
ddaebar. Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am
gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon. Gwyn eu byd y rhai
trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd. Gwyn eu
byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw. Gwyn
eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant
i Dduw. Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder,
oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Gwyn eich byd
pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud
pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i.
Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn
fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd
o'ch blaen chwi.

Mathew 5. 1-12

Dywedodd Martha wrth Iesu,

"Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo." Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd." "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf." Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth. A wyt ti'n credu hyn?" "Ydwyf, Arglwydd," atebodd hithau, "yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd."

Ioan 11. 21-27

Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad. Oherwydd, cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu, a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef ymhlith pobl lawer. A'r rhai a ragordeiniodd, fe'u galwodd hefyd; a'r rhai a alwodd, fe'u cyfiawnhaodd hefyd; a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddodd hefyd. O ystyried hyn oll, beth a ddywedwn? Os yw Duw trosom, pwy sydd yn ein herbyn? Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef? Pwy sydd i ddwyn cyhuddiad yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw'r un sy'n dyfarnu'n gyfiawn. Pwy sydd yn ein collfarnu? Crist Iesu yw'r un a fu farw, yn hytrach a gyfodwyd, yr un hefyd sydd ar ddeheulaw Duw, yr un sydd yn ymbil trosom. Pwy a'n gwahana ni oddi wrth gariad Crist? Ai gorthrymder, neu ing, neu erlid, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gledlyf? Hyn yn wir yw ein rhan, fel y mae'n ysgrifenedig: "Er dy fwyn di fe'n rhoddir i farwolaeth drwy'r dydd, fe'n cyfrifir fel defaid i'w lladd." Ond yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni. Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymustersau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Rhufeiniaid 8. 28-39

Amser i fyfrio

Yn awr treuliwch ychydig o funudau yn myfrio ar y darlenniadau ac ar unrhyw eiriau sy'n siarad yn arbennig â chi. Trowch eich meddwl at yr un a fu farw. Os ydych gyda phobl eraill efallai yr hoffech rannu atgofion. Ystyriwch pam yr oedd yr ymadawedig mor arbennig i chi, cofiwch am yr hyn a wnaethoch gyda'ch gilydd ac er ei *fwyn/mwyn* –a'r hyn a wnaeth er eich mwyn chi. Meddyliwch beth y carech ei ddweud pe bai yma'n awr. Fe gofiwch am bethau yr ydych am ddiolch i Dduw amdanynt ac am bethau sy'n flin gennych amdanynt. Bydd tristwch, hefyd, am nad ydych yn gallu bod yn yr angladd. Gallwch offrymu'r meddyliau hyn i gyd i Dduw. Wedi rhai munudau o ddistawrwydd ewch ymlaen â'r gweddïau hyn:

Dad nefol,

diolchwn i ti am ein llunio ar dy ddelw di ac am roddi inni ddoniau a thalentau i'th wasanaethu.

Diolchwn iti am *E.*, am y blynyddoedd a gawsom gyda'n gilydd, am y daioni a welsom *ynddo/ynddi*, am y cariad a gawsom *ganddo/ganddi*. Dyro inni yn awr nerth a dewrder i'w *adael/gadael* yn dy ofal, yn hyderus yn dy addewid o fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Yn y weddi hon, pan geir "A. a B." enwch y rhai hynny sydd, efallai, yn yr angladd.

O Dduw,

rhoddaist ynom anadl einioes a byddwn yn marw yn dy freichiau.

Yn dy dyner drugaredd edrych yn dirion ar *A.* a *B.* wrth iddynt ddod ynghyd heddiw i alaru am *E.*, i ddiolch am ei *fywyd/bywyd* ac i'w *ymddiried/hymddiried* i ti.

Yn ein galar a'n braw cynnal ni a chysura ni; cofleidia ni â'th gariad, dyro inni obaith yn ein dryswch a gras i ymollwng i fywyd newydd; trwy Iesu Grist. Amen.

Gweddi'r Arglwydd

Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.

Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Dywedir y weddi isod ar ddiwedd gwasanaeth yr angladd i gyflwyno'r ymadawedig i gariad a gofal Duw am byth. Terfynwn yr amser byr hwn o fyfyrddod â'r weddi arbennig hon:

O Dduw ein crëwr a'n gwaredwr,
trwy dy allu gorchfygodd Crist farwolaeth
a mynd i mewn i'w ogoniant.
Yn llawn hyder yn ei fuddugoliaeth a chan hawlio ei
addewidion, ymddiriedwn *E.* i'th ofal yn enw Iesu ein
Harglwydd, a fu farw ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,
yn awr a byth. Amen.

Gweddïau i gloi

O Arglwydd, cynnal ni trwy gydol dydd ein bywyd blin,
hyd onid estynno'r cysgodion a dyfod yr hwyr,
distewi o ddwndwr byd, tawelu o dwymyn bywyd,
a gorffen ein gwaith.

Yna, Arglwydd, yn dy drugaredd dyro inni breswylfa
ddiogel, gorffwysfa sanctaidd a thangnefedd yn y diwedd;
trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

Arhosed cariad a chymorth Duw gyda ni am byth, a
gorffwysed *E.*, a'r holl ffyddloniaid ymadawedig mewn
tangnefedd byth bythoedd. Amen.

HAWLFRAINT
A
CHYDNABYDDIAETH



HAWLFRAINT

© *Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr
yr Eglwys yng Nghymru 2020.*

Mae rhannau sylweddol o'r deunydd hawlfraint yn eiddo i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ac ni ellir ei atgynhychu o dan delerau unrhyw drwydded a ganiateir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint Cyf na'r Gymdeithas Trwyddedu Cyhoeddwy Cyf.

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r llyfryn hwn, na'i storio ar system adalw, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio nac fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru, ac eithrio trwy ganiatâd penodol.

Caniatáu Atgynhychu

Gellir atgynhychu'r llyfr hwn, sef Gwasanaethau Angladd, neu unrhyw ran ohono i'w ddefnyddio heb dalu dim ar yr amod na werthir y copïau, na chynhyrchir mwy na 250 copi ac y dangosir ar y dudalen flaen enw'r plwyf, y gadeirlan neu'r sefydliad, ynghyd â disgrifiad o'r gwasanaeth ac y cynhwysir y gydnabyddiaeth a ganlyn:

Gwasanaethau Angladd. Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng Nghymru © Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2020.

Dylai plwyfi, cadeirlannau neu sefydliadau sy'n dymuno atgynhychu'r llyfr hwn y tu allan i'r telerau uchod wneud cais ysgrifenedig a'i anfon at y Rheolwr Cyhoeddiadau:

publications@churchinwales.org.uk

Ym mhob achos, dylid anfon copi i'w gadw fel cofnod o bob un o'r argraffiadau at y Rheolwr Cyhoeddiadau i'r cyfeiriad isod:

*Cyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru,
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT.*

CYDNABYDDIAETH

Testun o Y Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig)

© Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaid a Thramor 2004.

Defnyddiwyd drwy ganiatâd.

Cedwir pob hawl.

Pob testun arall © Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys
yng Nghymru 2020.

Cedwir pob hawl.

Y LLYFR GWEDDI GYFFREDIN 1984

(Cyfrol II)

Dyfynnir rhannau o'r Beibl o'r fersiynau a ganlyn trwy ganiatâd:

The Revised Standard Version of the Bible (RSV), hawlfraint 1946, 1952, ©1971, ©1973 gan Adran Addysg Gristionogol Cyngor Cenedlaethol Eglwysi Crist yn Unol Daleithiau'r America.

The New English Bible (NEB), ©1961, 1970 gan Wasgau Prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

The Revised Psalter © Cofrestryddion cymanfaoedd Caergaint ac Efrog, 1966. Trosglwyddwyd yr hawlfraint i Fwrdd Cyllid Canolog Eglwys Loegr o'r cyntaf o Orffennaf 1981.

Cymdeithas y Beiblau sydd yn dal hawlfraint Y Beibl Cysegr Lân (Yr Hen Destament) a'r Beibl Cymraeg Newydd (Y Testament Newydd); ac eiddo Ymddiriedolwyr yr SPCK yw hawlfraint Y Beibl Cysegr Lân (Yr Apocryffa). Defnyddir hwy trwy ganiatâd.

Y Goron biau hawlfraint Y Llyfr Gweddi Gyffredin 1664 (*1662 yn Saesneg*). Atgynhychir rhannau ohono (â pheth cymhwys) trwy ganiatâd.